

Datganiad Cyfrifon

DRAFFT



2025-26

CYNNWYS

Tudalen

Cyngor Sir y Fflint:

Adroddiad Naratif	1 - 10
Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon	11
Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	12
Datganiadau Ariannol Craidd:	
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026	13
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026	14
Y Fantolen ar 31 Mawrth 2026	15 - 16
Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026	17
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd:	
1. Nodyn l'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	18 - 19
2. Incwm a Gwariant Segmentol	20
3. Incwm a Gwariant Wedi'u Dadansoddi yn Ol Natur	20
4. Gwariant Gweithredol Arall	21
5. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	21
6. Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol	21 - 22
7. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	23 - 24
8. Eiddo, Peiriannau ac Offer	24 - 28
9. Eiddo Buddsoddi ac Ystâd Amaethyddol	28 - 29
10. Asedau i'w Gwerthu	30 - 31
11. Buddsoddiadau Hirdymor	31
12. Dyledwyr Hirdymor	31
13. Dyledwyr Byrdymor	32
14. Buddsoddiadau Byrdymor	32
15. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	33
16. Benthyciadau i'w Had-dalu ar gais neu o fewn 12 mis	33
17. Credydwyr	33
18. Incwm Grant	34 - 35
19. Darpariaethau	35 - 36
20. Benthycia Hirdymor	36
21. Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio	36 - 38
22. Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio	39 - 41
23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol	42
24. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi	42
25. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu	42
26. Taliadau Swyddogion (gan gynnwys Pecynnau Ymadael)	43 - 44
27. Lwfansau Aelodau	45
28. Partïon Cysylltiedig	45 - 49
29. Ffioedd Archwilio	49
30. Deddf Gwasanaethau Iechyd Cenedlaethol (Cymru) 2006	49 - 50
31. Cyllidebau cyfun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	50

32. Gwasanaethau Asiantaeth	51 - 52
33. Cronfeydd eraill a Weinyddir Gan Y Cyngor	52
34. Dyled Ddigwyddiadol	52 – 53
35. Ased Digwyddiadol	53
36. Dyfarniadau Beirniadol a Rhagdybiaethau	54 – 55
37. Darpariaeth ar gyfer Ad-dalu Benthyciadau Allanol	56
38. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	56
39. Ymrwymadau Cyfalaf yn y Dyfodol	57
40. Prydlesu	57 - 58
41. Safonau Cyfrifo Sydd Wedi'u Cyflwyno Ond Heb Eu Mabwysiadu Eto	59
42. Offerynnau Ariannol	59 - 63
43. Pensiynau	64- 69

Datganiadau Ariannol Atodol:

Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026	70
Symudiadau Datganiad y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026	71
Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026	71 – 73
Polisiau Cyfrifo	74 - 90

Cyfrifon Grŵp:

Datganiadau ariannol un endid Cyngor Sir y Fflint ynghyd â'i is-gwmnïau	91 – 99
---	---------

Cyngor Sir y Fflint:

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir y Fflint	100 – 103
--	-----------

Datganiad Llywodraethu Blynyddol	104 – 170
---	-----------

ADRODDIAD NARATIF

CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad naratif hwn yn crynhoi Datganiad o Gyfrifon Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2025/26 ac yn manylu incwm a gwariant ar ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 a gwerth asedau a dyledion hyd at 31 Mawrth 2026. Mae'r Cyfrifon Grŵp yn cynnwys Datganiad Ariannol y Cyngor â rhai ei is-gwmnïau mae'n berchen llwyr arnynt sef North East Wales Homes Ltd (NEW Homes), Llyfrgelloedd a Hamdden Sir y Fflint Cyf (Gwella) ac Arlwy a Glanhau Newydd Cyf.

Paratowyd y Cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2025/26 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Fel bob amser, mae cynhyrchu'r set gynhwysfawr a chymhleth hon o Gyfrifon wedi gofyn am ymdrech enfawr gan lawer o bobl ar draws y Cyngor, nid yn unig yn yr adran gyllid ond o fewn meysydd portffolio gwasanaethau hefyd. Yn debyg iawn i'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, oherwydd nifer o faterion hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gwblhau'r cyfrifon o fewn y terfyn amser deddfwriaethol cynharach, sef 31 Mai 2026. Fodd bynnag, llwyddodd y Cyngor i baratoi a chyflwyno'r Cyfrifon i archwilwyr allanol y Cyngor cyn y dyddiad fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru sef 30 Mehefin 2026.

Gosododd y Cyngor ei gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yng nghyd-destun galw cynyddol parhaus am ei wasanaethau a chynnydd mewn chwyddiant. Er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, llwyddodd y Cyngor i gyflawni 96% o'i ostyngiadau cost a gyllidebwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd yn gallu cyfyngu gwariant i £0.790 miliwn yn llai na'i gyllideb a gymeradwywyd. Cyflawnwyd hyn trwy gyfuniad o arbedion unwaith yn unig, rheolaeth ariannol dda a oedd yn cynnwys parhad o'i adolygiad o wariant nad oedd yn hanfodol a chael arian grant ychwanegol ar gyfer meysydd megis dyfarniadau cyflog cenedlaethol.

Mae'r sefyllfa refeniw derfynol, a eglurir isod, yn bwysig i drigolion a thalwyr rhent, gan ei bod yn cofnodi dim ond y gwariant hynny y mae statud yn caniatáu ei osod yn erbyn cyllideb flynyddol y Cyngor a symiau a gesglir o dreth y cyngor a rhenti. Mae'r sefyllfa refeniw derfynol yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y datganiad incwm a gwariant yn cynnwys taliadau ar gyfer eitemau fel dibrisiant, amhariad, grantiau cyfalaf a thaliadau pensiwn sy'n addasiadau cyfrifo heb eu cynnwys yn y canlyniad.

Mae'r gwasanaeth cyllid yn gobeithio datblygu Datganiad Cyfrifon sydd yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Mae Cyngor Sir y Fflint yn sefydliad mawr ac amrywiol ac mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Cyfrifon hyn yn dechnegol a chymhleth. Nod y datganiad naratif hwn yw darparu canllaw cyffredinol ar yr eitemau o ddiddordeb ac amlygu rhai o'r materion mwy arwyddocaol sydd wedi cyfrannu at y sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

PERFFORMIAD Y CYNGOR YN YSTOD Y FLWYDDYN

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen drosfwaol sy'n helpu'r Cyngor i dargedu ei adnoddau a chymell gwelliannau. Mae Cynllun y Cyngor 2025/30 yn amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor a'r pethau sylweddol y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni dros gyfnod y Cynllun. Mae Sir y Fflint yn ymfalchïo mewn bod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ar ran ei gymunedau lleol, ac un sy'n cael ei arwain a'i gymell gan gyfres o werthoedd cymdeithasol cadarn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweithio dan amodau cyllidol heriol, gyda phwysau cyllidebol sy'n gwaethygu. Er mwyn cyflawni ei amcanion, a chynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid i'n siwmai fod yn un o adolygu a newid parhaus.

Er bod y Cyngor yn deall bod yna gymaint y gellir ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaethau cyhoeddus a chymunedau Sir y Fflint, cytunwyd ar dair blaenoriaeth lefel uchel ar gyfer 2025/2030. Mae'r blaenoriaethau hyn (a restrir isod) wedi'u dewis ar sail y meysydd ble gall y Cyngor ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaus ynddynt.

Mae gan bob blaenoriaeth nifer o amcanion ble rydym yn ceisio dylanwadu eleni a hefyd yn y tymor hirach.

ADRODDIAD NARATIF

- Pobl - Mae trigolion Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach
- Llefydd - Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo
- Ffyniant - Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint

Cyhoeddir Cynllun y Cyngor ar wefan y Cyngor ac mae'n ddogfen hawdd i'w ddefnyddio sy'n egluro'n glir y rhesymeg y tu ôl i bob blaenoriaeth. Mae dogfen ategol ar wahân yn cael ei hadolygu bob blwyddyn sy'n disgrifio mewn mwy o fanylder, y camau a gytunwyd, y mesurau a'r risgiau i ddarparu gwelliannau a/neu newid drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau cyhoeddus sy'n mesur cynnydd yn erbyn y ddogfen hon yn cael eu cyhoeddi bob hanner blwyddyn, gydag adroddiad ar sefyllfa derfynol y flwyddyn 2025/26 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2026.

PERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mae'r gyllideb refeniw'n trafod gwariant ac incwm dydd i ddydd y Cyngor ar eitemau megis cyflogau a thâl, costau rhedeg gwasanaethau a chostau cyllido gwariant cyfalaf. Mae'r rhaglen gyfalaf yn trafod gwariant ar gaffael asedau sylweddol a fydd yn ddefnyddiol neu'n fuddiol i'r Cyngor wrth ddarparu ei wasanaethau y tu hwnt i flwyddyn y cyfrifon, megis gwella neu adeiladu ffyrdd, adeiladau ac adeileddau eraill newydd.

Caiff y gyllideb ei monitro'n fanwl drwy gydol y flwyddyn gydag adroddiadau misol ar y sefyllfa refeniw ac adroddiadau chwarterol ar y sefyllfa gyfalaf. Craffir ar bob adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae oddeutu 70% o'r gofyniad cyllid refeniw ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru drwy Gyllid Allanol Cyfansymiol (Grant Cynnal Refeniw a chyfran o'r Gronfa Ardrethi Annomestig). Yn 2025/26, gwelwyd cynnydd o 3.8% yn y cyllid (cynnydd o 4.5% yng nghyfaraledd Cymru). Oherwydd setliad dros dro siomedig bu i'r Cyngor (ochr yn ochr â chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) anfon sylwadau at Lywodraeth Cymru i gynnwys Cyllid Gwaelodol sylweddol yn y Setliad Terfynol.

Fel rhan o'r setliad terfynol cafodd y Cyngor gyllid ychwanegol o £1.205 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd yr angen i ddiogelu'r Cyngor yn erbyn rhagolwg cyllido heriol ar gyfer y dyfodol, cytunwyd y byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei gynnwys fel cyfraniad a gyllidebwyd i Gronfeydd wrth Gefn heb eu Clustnodi. Mae gan hyn fantais ddeuol o lenwi ein cronfeydd wrth gefn sydd wedi lleihau'n fawr a hefyd datblygu rhywfaint o wytnwch yn ein cyllideb dros y tymor canolig.

Er gwaethaf y cynnydd, roedd y Cyngor yn dal i wynebu pwysau costau sylweddol oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor megis chwyddiant, galw sylweddol am wasanaethau a chyfarwyddyd polisi / deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae canlyniadau arwyddocaol i sefyllfa ble nad yw cyllid yn cynyddu ar yr un cyflymder â chostau a disgwylir mai dyma fydd y sefyllfa yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y Cyngor yn parhau i ymdrin â'r her hon trwy ddatblygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a fydd yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol dros gyfnod o 5 mlynedd.

Er gwaethaf y cyd-destun ariannol hwn, drwy gynlluniau busnes y portffolios a'r opsiynau lleihau costau corfforaethol fe'm galluogwyd i gynllunio ar gyfer gostyngiadau cost newydd gwerth £16.605 miliwn yn ein cyllideb 2025/26, gan alluogi'r Cyngor i fuddsoddi ymhellach mewn blaenoriaethau megis gofal cymdeithasol, ysgolion, lleoliadau y tu allan i'r sir a'r galw am wasanaethau digartrefedd.

Mae'r sefyllfa ariannol derfynol gyffredinol a'r effeithiau ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn wedi'i nodi isod.

Sefyllfa refeniw derfynol o'i chymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2025/26

Cafodd cyllideb Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2025/26 ei gosod ar £396.658 miliwn a chafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2025. Cyflwynwyd gwybodaeth monitro cyllideb i'r Cabinet yn fisol drwy gydol y flwyddyn, gyda'r sefyllfa ariannol derfynol i fod i gael ei hadrodd yn ei chylch ar 14 Gorffennaf 2026.

Seiliwyd strategaeth y gyllideb ar gyfer 2025/26 ar leihau costau ble bo hynny'n bosibl er mwyn diogelu a gwarchod gwasanaethau lleol.

ADRODDIAD NARATIF

Roedd yn cynnwys pecyn o fesurau a oedd yn cyfuno opsiynau ariannu corfforaethol, cynigion cynlluniau busnes portffolio, adolygu a herio pwysau o ran costau, a chynyddu'r incwm a gynhyrchir gan gynnwys adolygu cronfeydd wrth gefn.

	2025/26 Cyllideb £000	2025/26 Gwirioneddol £000	Amrywiad £000
Gwasanaethau Corfforaethol:			
Prif Weithredwr	1,710	1,617	(93)
Pobl ac Adnoddau	15,641	15,432	(209)
Llywodraethu	13,078	13,047	(31)
	<u>30,429</u>	<u>30,096</u>	<u>(333)</u>
Gwasanaethau Cymdeithasol	121,317	127,102	5,785
Tai a Chymunedau	25,396	25,416	20
Strydlun a Thrafnidiaeth	43,369	42,239	(1,130)
Lle a Thwf	7,894	7,582	(312)
Addysg a Ieuencid	142,053	142,658	605
Gwariant net ar wasanaethau	370,458	375,093	4,635
Cyfrif buddsoddi a benthyciadau canolog	14,899	13,548	(1,351)
Cyllid Canolog a Chorfforaethol	11,040	7,317	(3,723)
Cyfanswm gwariant net	396,397	395,958	(439)
Cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn	261	261	0
Gofyniad Cyllideb	396,658	396,219	(439)
Ariannwyd gan			
Y dreth gyngor (namyn gwariant praespetau cynghorau cymuned)	120,673	121,024	(351)
Grantiau cyffredinol	220,185	220,185	0
Aiddosbarthiad ardrethi annomestig	55,800	55,800	0
Cyfanswm adnoddau	396,658	397,009	(351)
Amrywiad net - (tanwariant)	0	(790)	(790)

Cyfunwyd y tanwariant net terfynol o £0.790 miliwn, gyda throsglwyddiadau cyllid eraill y cytunwyd arnynt i greu cronfeydd refeniw wrth gefn diwedd blwyddyn o £17.257 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor.

Symudiadau Sylweddol Refeniw

Bu i sawl gwasanaeth o fewn y portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fynd i orwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cafwyd gorwariant o £1.763 miliwn mewn costau gofal preswyl i bobl hŷn, a gorwariant o £1.632 miliwn mewn costau gofal yn y cartref, oherwydd lefelau'r galw am wasanaeth.

O fewn y Gwasanaeth Adnoddau a Rheoledig, roedd gorwariant o £2.671 miliwn ar gyfer costau pecynnau gofal ar gyfer gofal a ddarperir yn annibynnol ar gyfer y gwasanaeth Anabledd Dysgu ac roedd gorwariant o £2.573 miliwn ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn seiliedig ar lwyth achos a nifer sylweddol o leoliadau newydd.

Yn y portffolio Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth roedd nifer o amrywiadau sylweddol, yn cynnwys costau cynnal a chadw prifffyrdd ymatebol, £0.400 miliwn a gostyngiad cyllidebol nas cyflawnwyd o £0.500 miliwn mewn perthynas â chynhyrchu incwm mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Cafodd hyn ei wrthbwysu yn y Gwasanaethau Fflyd gan £1.300 miliwn oherwydd oedi wrth symud i ULEV (Cerbydau Allyriadau Isel lawn) ar gyfer cerbydau trydan a £0.914 miliwn o fewn y Gwasanaethau Rheoleiddio.

ADRODDIAD NARATIF

O fewn y maes Cyllid Canolog a Chorfforaethol, roedd tanwariant o £1.239 miliwn o fewn y Cyfrif Benthyciadau Canolog a Buddsoddi ar ôl i'r Cyngor gomisiynu benthycu tymor byr/ hirdymor newydd a pharhau i fuddsoddi swm sylweddol o arian tymor byr ar sail o ddydd i ddydd. Cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog 2025 ar lefel a arweiniodd at symudiad ffafriol o £1.036 miliwn o gymharu â'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol ar ei gyfer a bu i Lywodraeth Cymru hefyd gadarnhau cyllid ychwanegol ar gyfer ffigwr Dyfarniad Cyflog NJC 3.2% o £0.702 miliwn.

Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn 2021/22 ac mae'n cynnwys chwe awdurdod lleol y gogledd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cydbwyllgor hwn yn gyfrifol am ddatblygu strategol, cynllunio, cynllunio cludiant rhanbarthol a hyrwyddo lles economaidd gogledd Cymru. Ffigwr Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2025/26 oedd £0.302 miliwn, gan gynnwys cyfraniad o £0.099 miliwn gan y Fargen Dwf (£0.270 miliwn yn 2024/25).

Ers 1 Ebrill 2025, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn rhan o'r NWCJC. Cyn 1 Ebrill 2025, roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Gwynedd. Roedd rhaid i'r Cyngor ddangos ei gyfran (12.5%) o falansau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i incwm a'i wariant ym Mantolen a Chyfriflen Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gan fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru bellach wedi trosglwyddo i'r NWCJC mae cyfran y Cyngor bellach wedi ei ddileu gan fod NWCJC yn endid cyfreithiol ar wahân. Mae ystyriaethau yn parhau ar draws Gogledd Cymru o ran ymdrin â'r balansau hyn yng nghyfrifon y Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: <https://ambitionnorth.wales/>

Y Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa derfynol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer y flwyddyn:

	2025/26 Cyllideb	2025/26 Gwirioneddol	Amrywiad
	£000	£000	£000
Rheoli ystadau	2,707	2,624	(83)
Gwasanaethau landlordiaid	1,724	1,937	213
Atgyweirio a Chynnal a Chadw	12,504	15,900	3,396
Prosiectau CRT	132	247	115
Cyllid a Chymorth	1,659	1,609	(50)
Gyfraniadau refeniw i ariannu Gwariant Cyfalaf	14,467	10,031	(4,436)
Gwariant net ar wasanaethau	33,193	32,348	(845)
Benthyciadau Canolog a cyfrif buddsoddi	8,225	7,318	(907)
Gwasanaethau Cefnogi	1,015	1,096	81
Cyfanswm y gwariant net	42,433	40,762	(1,671)
 Cyfraniad l'r cronfeydd	 457	 2,273	 1,816
Gofyniad cyllideb	42,890	43,035	145
 A ariennir gan			
Rhenti	(42,745)	(42,183)	562
Grantiau ac incwm arall	(145)	(852)	(707)
Cyfanswm yr adnoddau	(42,890)	(43,035)	(145)
 Amrywiant net	0	0	0

ADRODDIAD NARATIF

Mae'r Cyngor yn gweithredu Safonau Ansawdd Tai Cymru 23. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud gwelliannau parhaus i'r stoc ac mae wedi datblygu rhaglen gyfalaf sy'n cynnwys gwaith i elfennau mewnol ac allanol, fel ceginau, ystafelloedd ymolchi, gorchuddion to, ffenestri a drysau ynghyd â gwelliannau pellach i'r mesuryddion perfformiad thermol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £1.600 miliwn yn y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn 2025/26, i gyfrannu at y ffrydiau gwaith hyn.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru 23 yn anelu i leihau allyriadau carbon o dai cymdeithasol ac wrth wneud hynny, cyfrannu at darged allyriadau carbon sero net Cymru. I gefnogi'r targed, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol asesu cyflwr eu stoc ac wedi darparu £0.516 miliwn yn ychwanegol i'n cynorthwyo ni gyda'r asesiadau hyn. Mae'r llywodraeth hefyd wedi gofyn am lwybrau ynni targed ar gyfer yr holl stoc i weld pa waith sydd ei angen i gyflawni Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) 'A', ac y dylid cwblhau'r rhain erbyn 2027. Mae'r safon yn nodi sut y gellir cyflawni hyn drwy gydbwysu perfformiad cartrefi gydag ôl-troed carbon uchel yn erbyn cartrefi mwy effeithlon. Argymhellir y dull hwn gan nad yw pob cartref yn gallu cyrraedd y safonau carbon gofynnol. Cafodd trydedd flwyddyn cyllid grant Llywodraeth Cymru - y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, ei ddiogelu yn 2025/26 gan ddod i £5.878 miliwn.

Yn 2025/26 roedd ymdrech barhaus i ostwng nifer yr eiddo gwag wrth aros o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Bu i Lywodraeth Cymru hefyd ddarparu grant trwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Roedd hyn yn galluogi ailddedfnyddio eiddo a oedd wedi bod yn wag ers peth amser, gan leihau nifer y bobl ddigartref.

Yn 2025/26, i gefnogi ein Strategaeth Ddigartrefedd, cyflwynwyd cyllideb gyfalaf o £4.000 miliwn i adfywio ein Stoc Tai presennol mewn rhai Tai Gwarchod.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau rhagweithiol i fonitro dyledion rhent oherwydd costau byw cynyddol sy'n effeithio ar allu tenantiaid i dalu rhent ar amser a'r potensial o golli incwm o rent tai. O ganlyniad i ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i denantiaid, mae ôl-ddyledion rhent wedi gostwng o £1.984 miliwn yn 2024/25 i £1.681 miliwn yn 2025/26. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cynnal lefel ddarvoudus o gronfeydd wrth gefn a darpariaeth ar gyfer dyledion drwg a ddylai fod yn ddigon i liniaru unrhyw gollledion yn y dyfodol.

Y Rhaglen Gyfalaf

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cymeradwyo rhaglen o waith cyfalaf sy'n darparu ar gyfer buddsoddi mewn asedau fel tir, adeiladau a gwella'r ffyrdd. Cymeradwywyd rhaglen gyfalaf o £47.518 miliwn ar gyfer 2025/26 (Cyfrif Refeniw Tai £28.683 miliwn a Chronfa'r Cyngor £18.835 miliwn); cynyddodd y ffigwr hwn yn ystod y flwyddyn a chyfanswm terfynol y rhaglen oedd £75.045 miliwn, (Cyfrif Refeniw Tai £28.229 miliwn a Chronfa'r Cyngor £46.816 miliwn). Cyflwynwyd gwybodaeth monitro cyllideb y Rhaglen Gyfalaf i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol bob chwarter drwy gydol y flwyddyn, gyda'r sefyllfa ariannol derfynol i fod i gael ei hadrodd ar 14 Gorffennaf 2026.

Mae gwariant cyfalaf a ysgwyddir yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'i osod yn y tabl isod. Mae cynlluniau a phrosiectau'n cynnwys buddsoddiad yn stoc tai'r Cyngor fel rhan o'r cynllun i gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru, datblygu cartref gofal preswyl newydd, ailddatblygu Theatr Clwyd a buddsoddiad mewn ysgolion sy'n cynnwys y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

ADRODDIAD NARATIF

	2025/26 Cyllideb £000	2025/26 Gwirioneddol £000	Amrywiad £000
Pobl & Adnoddau	7,826	6,881	(945)
Llywodraethu	2,938	2,938	0
Addysg & Ieucidd	12,373	11,098	(1,275)
Gwasanaethau Cymdeithasol	2,754	2,671	(83)
Lle a Thwf	2,791	2,654	(137)
Strydlun & Thrafnidiaeth	15,851	15,648	(203)
Tai a Chymunedau	2,283	2,115	(168)
Cyfrif Refeniw Tai	28,229	28,229	0
Cyfanswm y Rhaglen	75,045	72,234	(2,811)

Ariannwyd y rhaglen fel a ganlyn -

	2025/26 £000
Benthycia â Chymorth	4,012
Dulliau Eraill o Fenthycia (yn cynnwys benthyciadau Salix)	9,504
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf	48,332
Cronfeydd wrth gefn/Cyllid o'r cyfrif refeniw	10,386
Ariannu craidd	72,234

Cyfarwyddyd Cyfalafu – Model Teulu Mockingbird

Mae'r Cyngor yn trawsnewid ei wasanaeth maethu i gwrdd ag anghenion lleoli plant sy'n derbyn gofal ac i osgoi costau cynyddol darpariaeth gofal allanol drwy ddatblygu 'Model Teulu Mockingbird'. Mae'r model yn atgynhyrchu 'teulu estynedig' o amgylch plant a phobl ifanc, gan hyrwyddo eu hymdeimlad o berthyn ac atal lleoliadau rhag chwalu. Bydd y gost o drawsnewid y gwasanaeth yn raddol dros gyfnod o saith mlynedd yn cael ei hariannu gan 'fenthyciad arloesi i arbed' di-log gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael ei ad-dalu. Yn ystod y flwyddyn cafwyd gwariant refeniw gwerth £0.212 miliwn a chaniatawyd cyfarwyddyd cyfalafu ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol dan ymarfer cyfrifeg ar gyfer gwariant refeniw i'w ariannu drwy fenthycia. Dechreuwyd tynnu'r benthyciad 'arloesi i arbed' i lawr yn 2020/21.

Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol

Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw tyfu ei stoc tai cymdeithasol i ymdrin â'r nifer cynyddol o bobl ar y gofrestr tai cymdeithasol. Mae'r cynllun busnes refeniw tai yn anelu i gael 50 o eiddo tai cymdeithasol newydd y flwyddyn trwy naill ai adeiladu rhai newydd neu trwy brynu eiddo 'oddi ar y silff'. Yn ystod y flwyddyn, prynwyd 19 o eiddo ychwanegol gan ddefnyddio grant Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro Llywodraeth Cymru.

Mae cartrefi fforddiadwy'n cael eu datblygu drwy is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y Cyngor sef NEW Homes mewn partneriaeth â'r Cyngor. Mae NEW Homes ar hyn o bryd yn berchen ar, ac yn rheoli, 187 o unedau ar draws Sir y Fflint. Mae'r rhain yn cynnwys cyfuniad o gynlluniau adeiladu newydd a ddarperir drwy gynllun SHARP y Cyngor ac eiddo a gafaelir gan ddatblygwyr drwy gytundebau Adran 106.

Bwriad Cynllun Busnes Strategol y Cwmni yw darparu 60 o unedau ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf a fydd yn codi cyfanswm yr eiddo sy'n berchen i, ac a reolir gan NEW Homes i 247 erbyn 2027/28. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo benthyciadau o hyd at £30.000 miliwn i NEW Homes, yn ychwanegol at fenthyciad blaenorol o £7.530 miliwn a ganiatawyd. O'r cyllid hwn, mae £14.882 miliwn wedi'i ddefnyddio hyd yma, gyda'r £22.648 miliwn sy'n weddill ar gael i'w dynnu i lawr ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

ADRODDIAD NARATIF

Benthyca

Cymerodd y Cyngor fenthyciad hirdymor gwerth £25.000 miliwn gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus yn 2025/26 i ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf, yn cynnwys adeiladu cartrefi newydd drwy SHARP, datblygu cartref gofal preswyl newydd a'r rhaglen adeiladu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae cyfanswm benthyca'r Fantolen o £366.004 miliwn yn cynnwys swm o £1.615 miliwn yn ymwneud â benthyciadau di-log gan Salix Finance Ltd (cwmni annibynnol a ariennir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd ynni yn adeiladau'r sector cyhoeddus), benthyciad arall gwerth £0.171 miliwn gan Salix gyda llog ar 2.05% a benthyciadau o £2.010 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau adfywio dan y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a'r benthyciad ar gyfer Model Teulu Mockingbird.

Mae gan y Cyngor ofyniad benthyca i'r dyfodol i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd. Bydd angen adolygu hyn yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a'r tu hwnt gydag effaith y gwrthdaro yn Iran yn creu ansicrwydd ar gyfer y rhagolygon economaidd a'r llwybr ar gyfer cyfraddau polisi ac enillion bondiau.

Y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn rhoi cyllid o'r neilltu i gwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol a datblygiadau gwasanaeth mewn darpariaethau a chronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw ar y Fantolen ar 31 Mawrth 2026.

Mae darpariaethau'n seiliedig ar ddigwyddiadau'r gorffennol sy'n gosod rhwymedigaeth ar y Cyngor sy'n debyg o arwain at atebolrwydd ariannol yn y dyfodol, ond mae ansicrwydd ynghylch amseriad ac union werth y rhwymedigaeth. Datgelir y darpariaethau yn Nodyn 19.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o gronfeydd refeniw wrth gefn, sydd y tu allan i'r diffiniad o ddarpariaeth, sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Mae balans Cronfa'r Cyngor yn fesur o gronfeydd wrth gefn heb eu hymrwymo sy'n cael eu dal yn ddarbodus gan y Cyngor i gwrdd â gofynion llif arian a digwyddiadau na ellir eu rhagweld yn y dyfodol.

	31 Mawrth 2026 £000	Tanwariant Net £000	Arall £000	31 Mawrth 2025 £000
Balans cronfa'r Cyngor (heb ei glustnodi)	17,257	790	1,273	15,194
Cronfeydd wrth gefn y cyngor a glustnodwyd	21,096	0	2,173	18,923
Ysgolion dan reolaeth leol	(5,278)	0	(4,265)	(1,013)
Cronfeydd Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai	8,337	926	1,347	6,064
Cyfanswm Refeniw Wrth Gefn	41,412	1,716	528	39,168

Mae gan y Cyngor bolisi o gynnal lefel sylfaenol o gronfeydd wrth gefn o £8.985 miliwn i ddiogelu'r Cyngor yn erbyn amgylchiadau heb eu cynllunio ac nad oes modd eu rhagweld, ac mae hyn wedi'i gynnwys o fewn balans Cronfa'r Cyngor (heb ei glustnodi) yn y tabl uchod. Mae cronfeydd uwch na'r £8.985 miliwn, a elwir yn gronfeydd hapddigwyddiad ac yn deillio o danwariant blynyddol blaenorol, ar gael i'w hystyried drwy'r Cabinet.

Rheoli Llif Arian

Mae'r Cyngor yn defnyddio meddalwedd pwrpasol i ragweld llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hiraf y gellir ymrwymo cyllid yn ddarbodus. Llunnir y rhagolygon yn ddarbodus i leihau'r risg y gorfodir y Cyngor i fenthycia ar delerau anffafriol i gwrdd â'i ymrwymadau ariannol. Gosodir terfynau ar fuddsoddiadau drwy gyfeirio at Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a rhagolygon llif arian yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Adolygir y rhagolygon llif arian yn ddyddiol ar gyfer cyfleoedd buddsoddi ac yn wythnosol a misol at ddibenion benthyca.

Cafodd rheolaeth llif arian ei monitro'n fanwl drwy gydol y flwyddyn, gyda'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel Llywodraeth Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i sicrhau sefydlogrwydd sefyllfa'r Cyngor o ran llif arian. Bydd y gwaith yn parhau ym mlwyddyn ariannol newydd 2026/27.

ADRODDIAD NARATIF

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r diffyg o £23.870 miliwn a gofnodwyd ar y fantolen wedi gostwng £1.316 miliwn yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir gan actiwari'r gronfa bensiynau. Mae'r prif newid mewn rhagdybiaethau ariannol yn ymwneud â chynnydd yn rhagdybiaeth y gyfradd ddisgownt ers y llynedd, sydd yn lleihau'r rhwymedigaeth. Pennir y rhagdybiaethau hyn gan yr actiwari ac maent yn adlewyrchu eu barn am amodau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen. Dan reolau cyfrifeg (IFRIC 14), nid yw'r Cyngor yn cael dangos ased pensiwn net. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cymhwyso addasiad terfyn asedau o £94.765 miliwn, yn cynnwys llog (£92.502 miliwn yn 2024/25), a fydd yn dod ag ased buddion a ariennir ar y fantolen i ddim. Nid yw hyn yn gymwys i fuddion nad ydynt yn cael eu hariannu.

Mae'r Cyngor yn dibynnu ar ac yn gosod sicrwydd ar grebwyll proffesiynol actiwari Cronfa Bensiynau Clwyd a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r diffyg. Mae datgeliadau yn Nodyn 43 yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19 (IAS 19), gan gyfrif yn llawn ar gyfer yr ymrwymiad pensiwn, sef cyfanswm y diffyg a ragamcanir dros oes y gronfa. Nid yw IAS 19 yn cael unrhyw effaith ar lefelau Treth y Cyngor na chyllid tai, ond mae'r rhwymedigaeth yn cael effaith ar werth net y Cyngor fel y caiff ei adlewyrchu yng nghyfanswm y fantolen sef £835.690 miliwn (£861.297 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

Ailbrisio Asedau Anghyfredol

Rhaid ailbrisio pob ased anghyfredol bob pum mlynedd o leiaf. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r gofyniad hwn drwy ailbrisio cyfran o'r portffolio asedau llawn bob blwyddyn ac yn ystod 2025/26 (blwyddyn gyntaf cylch newydd, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2025), cafodd 20% o asedau gweithredol nad ydynt yn anheddau eu hailbrisio. Yr eithriad i'r trefniant hwn yw anheddau'r Cyngor a gafodd eu hailbrisio i gyd yn ystod y flwyddyn.

Ers pandemig COVID-19, mae'r Cyngor wedi ystyried effaith yr economi ar amryw o farchnadoedd eiddo a phrisiad ei asedau ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r mwyafrif o asedau anghyfredol y Cyngor yn asedau gweithredol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth ac maent yn cael eu priso yn seiliedig ar eu costau ailadeiladu. Defnyddiwyd ymarferion mynegeo i brisiadau asedau presennol i sicrhau nad yw'r Cyfrifon wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol ar 31 Mawrth, gan ddefnyddio data a gafwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu ar gyfer asedau a brisiwyd o dan sail Costau Adnewyddu Dibrisiedig. Mae Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol CIPFA 2025/26 (Y Cod) yn cyflwyno addasiad i SAARh yn rhagnodi y dylid ond cynnal adbrisiadau o asedau anghyfredol unwaith bob pum mlynedd neu ar sail dreigl bum mlynedd gyda chefnogaeth mynegeo blynyddol yn y blynyddoedd yn y canol, gan osgoi'r angen ar gyfer adbrisiadau mwy rheolaidd.

Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Yn ystod 2025/26, agorodd y Cyngor Gampws 3-16 cynradd ac uwchradd newydd, ym Mynydd Isa. Mae hyn wedi cyfuno Ysgol Uwchradd Argoed ac Ysgol Mynydd Isa mewn un adeilad newydd ar safle presennol yr ysgol uwchradd, a ariannwyd gan y MIM.

Mae cynlluniau MIM yn brosiectau ar gyfer dylunio, adeiladu, cyllido a chynnal asedau'r sector cyhoeddus gan bartner sector preifat, yn achos y Cyngor hwn, Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCO). Ar ddiwedd y contract 25 mlynedd, bydd yr asedau'n cael eu trosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor. O dan MIM, mae WEPCO yn adeiladu a chynnal asedau cyhoeddus. Yn gyfnewid, mae'r Cyngor yn gwneud taliadau gwasanaeth blynyddol, sy'n cynnwys cost adeiladu, cynnal a chadw, cylch bywyd ac ariannu'r prosiect.

Mae'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn cynnwys rhaniad cychwynnol o elfen heb ei fynegeo o 70% ac elfen wedi ei fynegeo o 30%. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 84.4% o gyfanswm y Tâl Gwasanaeth Blynyddol. Mae hyn wedi ei adnabod ar Fantolen y Cyngor fel rhan o waith SAARh 16 fel Ased Hawl i Ddefnyddio.

ADRODDIAD NARATIF

RHAGOLYCON ARIANNOL AR GYFER Y CYNGOR

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld faint o adnoddau sy'n debygol o fod ym meddiant y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf ac yn nodi unrhyw fylchau o ran cyllid, sy'n galluogi camau penodol i gael eu nodi i gydbwysu'r gyllideb a rheoli adnoddau.

Mae'r rhagolygon ariannol presennol ar gyfer y Cyngor, o safbwynt cyllid Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf, yn parhau i fod yn ansicr yn y tymor canolig. Disgwylir i gyfraddau llog aros ar 3.5% am y dyfodol agos, a disgwylir i chwyddiant godi ond gyda chwestiynau am ei barhad, gan gynnwys pwysau cynyddol ar brisiau ynni, yn cael effaith ar dwf y DU. Mae'r Cyngor hefyd yn rhagweld y bydd y pwysau a'r galw yn parhau i gynyddu ar draws yr holl wasanaethau, ond yn arbennig o fewn Gofal Cymdeithasol.

Disgwylir y bydd diwygiad o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2027/28 a thu hwnt yn cael ei roi gerbron y Cabinet fis Gorffennaf. Nod y diwygiad yw sefydlu llinell sylfaen gadarn o bwysau costau a fydd yn llywio gofyniad ychwanegol y gyllideb y bydd yn rhaid ei fodloni o ffynonellau cyllid cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyngor wedi a bydd yn parhau i gynnal y gohiriad ar wariant a byddwn yn parhau i edrych yn allanol am gefnogaeth ychwanegol ac atebion i gynnal gwasanaethau a chynorthwyo darpariaeth. Bydd y Rhaglen Drawsnewid Strategol yn dod yn gynyddol bwysig i gefnogi rhaglen o newid a thrawsnewid gwasanaeth wrth symud ymlaen. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r ffrwd gwaith hwn i ddatblygu ystod o fentrau gwasanaeth a newid gwaith dros gyfnod estynedig gyda'n MTFS sy'n seiliedig ar raglen dreigl o bum mlynedd, gan symud i ffrwd o'r amgylchedd cyllidebau blynyddol sy'n creu pwysau mawr, nad yw'n effeithiol nac yn gynaliadwy.

Roedd y cynnydd yng Nghyllid Allanol Cyfun y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn well na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau ond nid yw dal ddim yn ddigon ar gyfer y sylfaen gost gynyddol i'r Cyngor, gyda chynnydd o 4.1% (cyfartaledd Cymru wedi cynyddu 4.5%), gyda chynnydd i Awdurdodau Lleol yn amrywio o 4.1% i 6.1%. Bu i'r dyraniad AEF a gadarnhawyd ddarparu cyfraniad ychwanegol o £5.219 miliwn o gymharu â'r AEF dros dro a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, a oedd yn cynrychioli cynnydd o 2.3% (cyfartaledd Cymru wedi cynyddu 2.7%), gyda chynnydd Awdurdodau Lleol yn amrywio o 2.3% i 4.3%.

Ni fu i Lywodraeth Cymru gynnwys unrhyw syniad o ran Dyraniadau Refeniw Cymru gyfan ar gyfer 2027/28 a thu hwnt a fydd yn gwneud trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn hynod o heriol ac yn rhoi pwyslais pellach ar bwysigrwydd cyflwyno Rhaglen Drawsnewid Strategol gadarn i gefnogi'r MTFS. Heb y sicrwydd hwn, mae'n anodd iawn gwneud asesiad cywir o sefydlogrwydd ariannol y sector, yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd y Cyngor yn parhau i gynllunio mewn modd amserol a gwneud trefniadau ar gyfer y broses o osod y gyllideb yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael er mwyn bod mewn sefyllfa i gwrdd â'r ddyletswydd statudol i bennu cyllideb fantoleddig a chyfreithiol bob blwyddyn.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Risg cynhwysfawr. Mae nifer o risgiau wedi'u nodi ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a allent atal neu amharu ar ddarpariaeth lwyddiannus. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hasesu a'u monitro'n barhaus ar y lefel priodol drwy gydol y flwyddyn. Mae rheoli risgiau hefyd yn cael eu hymgorffori yn ein ffyrdd o weithio – er enghraifft, drwy bartneriaethau, adroddiadau effeithlonrwydd cynllun busnes ac o fewn pob adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet neu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mae Cofrestr Risgiau Gorfforaethol wedi'i datblygu ac mae'n eiddo i Dîm y Prif Swyddogion a'r Cabinet. Defnyddir cofrestr risgiau gorfforaethol i gofnodi risgiau sylweddol a allai effeithio ar amcanion strategol a dulliau gweithredu sefydliad. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn nodi datblygiadau posibl neu ddigwyddiadau sy'n gallu peryglu gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, darparu gwasanaethau ac ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol yn iawn. Rhain yw'r risgiau a ystyrir yn angenrheidiol eu rheoli ar lefel gorfforaethol yn hytrach na lefel portffolio/gwasanaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cael crynodeb o Gofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risgiau, rhennir adroddiadau proffil risgiau gyda Thîm y Prif Weithredwr, ac mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn destun adroddiadau monitro chwarterol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol yn heriol manylion y risgiau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau craffu hwy.

ADRODDIAD NARATIF

Mae'r risgiau ariannol yn cynnwys argaeledd cyllid i sicrhau cynaliadwyedd y Cyngor a'i is-gwmnïau megis NEW Homes, Gwella a Newydd a sefydliadau partner fel Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol.

NEWIDIADAU A NEWIDIADAU I DDOD I'R DATGANIAD CYFRIFON

O 1 Ebrill 2025, bu i ofynion Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) newid o ran adbrisiadau eiddo, peiriannau ac offer. Pan nad oes gan awdurdodau raglen dreigl o adbrisiadau mewn lle a/neu mae'r asedau yn asedau nad ydynt yn eiddo sy'n destun mynegeo, mae awdurdodau yn ailbrisiu eu hasedau bob pum mlynedd gyda mynegeo blyneddol i asedau yn ystod y pedair blynedd yn y canol. Pan nad yw awdurdodau yn gallu cael mynegeion heb gost neu ymdrech ormodol, mae awdurdodau yn ailbrisiu'r asedau hynny gan ddefnyddio ailbrisiu bob pum mlynedd gydag ailbrisiad bwrdd gwaith ym mlwyddyn tri.

NEWID YN Y POLISIÂU CYFRIFO

Newidiadau mewn cyfrifo ar gyfer asedau sy'n destun mynegeo. Gwnaed mân newidiadau i bolisiau cyfrifo yn ystod 2025/26 i adlewyrchu newidiadau yn y Cod Ymarfer.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gael ar y rhwyngwrd (www.sirymfflint.gov.uk), ac mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifon a'r cyllidebau ar gael ar gais gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF.

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:-

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Cyngor hwn, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yw hwn, fel y Prif Swyddog Cyllid;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Llofnodwyd :

Allan Rainford
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad :

CYFRIFOLDEBAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Cyngor yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- dewis polisiau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau a rhagamcanion a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a'u diweddarau;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Cyngor ar 31 Mawrth 2026, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnodwyd :

Gary Ferguson CPFA
Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Prif Swyddog Cyllid)

Dyddiad :

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido'n dangos sut y defnyddir ac y cyllidir y gwariant blynyddol o adnoddau (grantiau llywodraeth, rhenti, treth y cyngor ac ardrethi busnes) gan awdurdodau lleol, o'i gymharu â'r adnoddau hynny a dreuliodwyd neu a enillwyd gan awdurdodau, yn unol â'r arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y dyrennir y gwariant hwn ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng portffolios gwasanaeth y Cyngor. Mae incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifon a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2025/26

	Portffolio Net	Addasiadau ar gyfer	Gwariant Net a		Gwariant Net -
	Aldro	Symudiadau (i)/o	godir ar Gronfeydd		Datganiad
	Terfynol a	Gronfeydd wrth gefn	wrth gefn Cronfa'r	Addasiadau	Incwm a
	Adroddwyd	wedi'u clustnodi	Cyngor/Cronfeydd	rhwng Sail Cyllid	Gwariant
	£000	£000	CRT	a Chyfrifo	Cynhwysfawr
Prif Weithredwyr	1,617	84	1,701	(126)	1,575
Addysg ac Ieuenctid	142,658	2,805	145,463	2,869	148,332
Llywodraethu	12,697	(206)	12,491	2,093	14,584
Tai a Chymunedau	25,416	283	25,699	(12,663)	13,036
Pobl ac Adnoddau	15,432	(465)	14,967	3,618	18,585
Lle a Thwf*	7,582	(65)	7,517	252	7,769
Gwasanaethau Cymdeithasol	127,102	182	127,284	(389)	126,895
Strydlun a Thrafnidiaeth	42,239	(1,233)	41,006	9,061	50,067
Cyllid Corfforaethol a Chanolog	21,126	(565)	20,561	(22,746)	(2,185)
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(926)	(1,346)	(2,272)	82,271	79,998
Cost gwasanaethau	394,943	(526)	394,417	64,240	458,656
Incwm a gwariant arall	(396,659)	0	(396,659)	(3,120)	(399,779)
(Gwarged)/diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	(1,716)	(526)	(2,242)	61,120	58,877
Cronfa'r Cyngor/Cronfeydd wrth Gefn CRT Agoriadol			39,168		
Gwarged / (Diffyg) Refeniw yn y flwyddyn					
Cronfa'r Cyngor			(30)		
CRT			2,273		
Cronfa'r Cyngor/Cronfeydd wrth gefn yr CRT wrth gau			41,411		

*Portffolio wedi'i ail enwi (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi gynt).

2024/25

	Portffolio Net	Addasiadau ar gyfer	Gwariant Net a		Gwariant Net -
	Aldro	Symudiadau (i)/o	godir ar Gronfeydd		Datganiad
	Terfynol a	Gronfeydd wrth gefn	wrth gefn Cronfa'r	Addasiadau	Incwm a
	Adroddwyd	wedi'u clustnodi	Cyngor/Cronfeydd	rhwng Sail Cyllid	Gwariant
	£000	£000	CRT	a Chyfrifo	Cynhwysfawr
Prif Weithredwyr	1,648	0	1,648	(53)	1,595
Addysg ac Ieuenctid	132,441	3,943	136,384	8,167	144,551
Llywodraethu	12,051	(103)	11,948	1,943	13,891
Tai a Chymunedau	20,515	(9)	20,506	(11,446)	9,059
Pobl ac Adnoddau*	15,979	(897)	15,082	1,522	16,604
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	7,762	(292)	7,470	588	8,057
Gwasanaethau Cymdeithasol	114,416	302	114,718	22	114,740
Strydlun a Thrafnidiaeth	45,939	1,225	47,164	4,402	51,565
Cyllid Corfforaethol a Chanolog**	17,651	710	18,361	(17,596)	765
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	1,216	22	1,238	9,365	10,603
Cost gwasanaethau	369,618	4,901	374,519	(3,086)	371,430
Incwm a gwariant arall**	(368,106)	0	(368,106)	(33,020)	(401,126)
(Gwarged)/diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	1,512	4,901	6,413	(36,106)	(29,696)
Cronfa'r Cyngor/Cronfeydd wrth Gefn CRT Agoriadol			45,578		
Gwarged / (Diffyg) Refeniw yn y flwyddyn					
Cronfa'r Cyngor			(5,174)		
CRT			(1,237)		
Cronfa'r Cyngor/Cronfeydd wrth gefn yr CRT wrth gau			39,167		

*Mae ffigurau wedi'u hailddatgan i gynnwys gwasanaeth Rhaglen Gyfalaf ac Asedau sydd bellach wedi'u datgan ar wahân Gwariant Net £12.203 miliwn.

**Mae addasiadau rhwng ffigurau Sail Gyllido a Chyfrifo wedi'u hailddatgan i ail-ddyrannu ardoll a dalwyd i Incwm Arall a Gwariant o Gyllid Canolog a Chorfforaethol (£0.173 miliwn).

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos cost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant lleol. Mae Awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i gost cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa trethiant wedi'i dangos yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nodyn	2025/26			2024/25		
	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
Service Expenditure Analysis	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Prif Weithredwyr	1,716	(142)	1,574	1,667	(73)	1,594
Addysg ac Ieuencid	192,418	(44,087)	148,331	187,527	(42,976)	144,551
Llywodraethu	16,341	(1,757)	14,584	16,421	(2,530)	13,891
Tai a Chymunedau	47,261	(34,226)	13,035	46,506	(37,447)	9,059
Pobl ac Adnoddau*	26,936	(8,351)	18,585	24,227	(7,622)	16,605
Lle a Thwf**	14,643	(6,874)	7,769	16,099	(8,041)	8,058
Gwasanaethau Cymdeithasol	167,787	(40,891)	126,896	151,215	(36,476)	114,739
Strydlun a Thrafnidiaeth	88,469	(38,402)	50,067	90,130	(38,563)	51,567
Cyllid Corfforaethol a Chanolog***	9,328	(11,513)	(2,185)	6,926	(6,161)	765
CRT	124,757	(44,759)	79,998	55,207	(44,606)	10,601
Cost Gwasanaethau	689,656	(231,002)	458,654	595,925	(224,495)	371,430
Gwariant Gweithredol Arall***	4		41,397			37,964
(Incwm) a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	5		16,088			11,273
Trethiant ac (Incwm) Grant Amhenodol	6		(457,263)			(450,364)
(Arian Dros Ben)/diffyg ar ddarpariaeth	3		58,876			(29,697)
(Arian dros ben)/diffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol			(39,237)			(45,114)
(Arian dros ben)/diffyg ar ailbrisio asedau ariannol ar gael i'w gwerthu			0			0
(Enillion) neu golledion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn			5,967			(2,480)
Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			25,606			(77,291)

*2024/25 ffigurau wedi'u hailddatgan i gynnwys gwasanaeth Rhaglen Gyfalaf ac Asedau sydd bellach wedi'u datgan ar wahân Gwariant Net £12.203 miliwn.

**Portffolio wedi'i ail enwi (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi gynt).

***Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i ail-ddyrannu'r ardoll a dalwyd i Wariant Gweithredu Eraill o Gyllideb Ganolog a Chorfforaethol (£0.173 miliwn).

DATGANIAD SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn amrywiol gronfeydd wrth gefn y Cyngor, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill.

Mae'r llinell Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor - mae mwy o fanylion i'w gweld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor a'r CRT at ddibenion sefydlu treth y cyngor a rhent.

Mae'r Cynnydd/Lleihad yn y flwyddyn yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor Statudol a'r Balans CRT cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

	Nodyn	Cyfanswm					
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Balans CRT £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniad au Cyfalaf £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor £000
Ar 31st Mawrth 2025		33,104	6,064	14,976	11,936	66,080	861,297
Yn Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Flwyddyn							
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		8,994	(67,871)	0	0	(58,877)	(25,607)
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrif a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(9,024)	70,144	706	394	62,220	0
Cynnydd /(gostyngiad) yn y flwyddyn		(30)	2,273	706	394	3,343	(25,607)
Ar 31st Mawrth 2026		33,074	8,337	15,682	12,330	69,423	835,689

	Nodyn	Cyfanswm					
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Balans CRT £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniad au Cyfalaf £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor £000
Ar 31st Mawrth 2024		38,278	7,301	15,013	12,435	73,027	784,009
Yn Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Flwyddyn							
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		28,988	707	0	0	29,695	77,289
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrif a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(34,162)	(1,944)	(37)	(499)	(36,642)	0
Cynnydd /(gostyngiad) yn y flwyddyn		(5,174)	(1,237)	(37)	(499)	(6,947)	77,289
Ar 31st Mawrth 2025		33,104	6,064	14,976	11,936	66,080	861,297

MANTOLEN

		31 Mawrth 2026		31 Mawrth 2025	
	Nodyn	£000	£000	£000	£000
ASEDAU ANGHYFREDOL					
Eiddo, Peiriannau ac Offer	8				
Anheddau'r Cyngor		252,138		332,226	
Tir ac Adeiladau Eraill		671,054		532,867	
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer		22,685		18,046	
Asedau dros ben		6,023		3,359	
Asedau Isadeiledd		159,287		155,370	
Asedau Cymunedol		5,827		5,831	
Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd		1,927		94,551	
Asedau Hawl i Ddefnyddio		87,929		15,127	
Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer			1,206,870		1,157,377
Eiddo Buddsoddi ac Ystâd Amaethyddol	9		31,283		29,356
Buddsoddiadau Hirdymor	11		3,664		3,664
Dyledwyr Hirdymor	12		12,326		12,440
CYFANSWM ASEDAU ANGHYFREDOL			1,254,143		1,202,837
ASEDAU CYFREDOL					
Rhestrau Eiddo		843		930	
Dyledwyr Byrdymor (darpariaeth lleihad mewn gwerth net)	13	99,844		109,314	
Buddsoddiadau Byrdymor	14	0		0	
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	15	20,200		14,979	
Asedau i'w Gwerthu	10	308		513	
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL			121,195		125,736
*2024/25 yn cynnwys Cynllun Ymateb Wcráin (£0.770m) wedi'i ddatgan ar wahân yn 2024/25

**Cynwysedig mewn 'Grantiau a Chyfraniadau Eraill' 2024/25

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Grantiau a Chyfraniadau a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau a chyfraniadau nad ydynt eto wedi'u cydnabod fel incwm, gan eu bod ag amodau ynghlwm wrthynt. Bydd angen dychwelyd yr arian i'r rhoddwr grant os nad yw'r gofynion yn cael eu bodloni. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2026 £000	31 Mawrth 2025 £000
Byrdymor		
Grantiau Refeniw	946	1,239
Grantiau Cyfalaf - NWEAB*	0	3,847
Cyfraniadau Cyfalaf	73	303
Cyfraniadau Refeniw	241	215
	<u>1,260</u>	<u>5,604</u>
Hirdymor		
Grantiau Refeniw	0	126
Grantiau Cyfalaf - NWEAB*	0	1,349
Cyfraniadau Refeniw	92	138
Cyfraniadau Cyfalaf	2,670	121
	<u>2,762</u>	<u>1,734</u>

*NWEAB wedi'i ymgorffori i'r NWCJC

19. DARPARIAETHAU

Y symiau a nodir fel darpariaethau yw'r amcangyfrifon gorau o wariant sy'n angenrheidiol i setlo'r rhwymedigaethau cyfredol.

	31 Mawrth 2026 £000	Ychwanegiadau £000	Gwariant a dynnir £000	Gwahardd Disgownt £000	31 Mawrth 2025 £000
Rhwymedigaethau cyfredol					
(A) Ôl-ofal hen safleoedd tirlenwi	34	2	0	0	32
(B) Buddion Terfynu Gweithwyr	108	108	(118)	0	118
	<u>142</u>	<u>110</u>	<u>(118)</u>	<u>0</u>	<u>150</u>
Rhwymedigaethau Anghyfredol					
(A) Ôl-ofal hen safleoedd tirlenwi	1,126	(33)	40	23	1,096
	<u>1,126</u>	<u>(33)</u>	<u>40</u>	<u>23</u>	<u>1,096</u>

- (A) Mae ôl-ofal o hen safleoedd tirlenwi'n darparu ar gyfer costau ôl-ofal amgylcheddol ar gyfer hen safleoedd gwaredu gwastraff yn Standard a Brookhill, Bwcle, wedi ei rannu dros ddyled gyfredol a dyled anghyfredol. Mae'r costau arfaethedig wedi eu hymgorffori mewn gweithredoedd perfformiad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd gynt). Mae'r gweithredoedd yn ffurfio sail rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i ariannu'r ôl-ofal am 60 mlynedd o ddyddiad cau'r safle tirlenwi. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei diwygio trwy fynegio blynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu, ac yn cael ei hadolygu ar gyfer digonolrwydd. Mae'r ddarpariaeth yn cyfateb i'r rhwymedigaeth gyfreithiol a gynhwysir yn y gweithredoedd perfformiad.
- (B) Roedd y Cyngor yn ddigon ymrwymedig gyda rhai cynigion ar ddyddiad y fantolen i warantu creu darpariaeth yn 2025/26 ar gyfer buddion terfynu gweithwyr a fyddai'n gadael eu swyddi yn y Cyngor yn 2026/27.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Absenoldebau Cronedig

Darpariaeth ychwanegol ar y fantolen yw'r ddarpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig. Mae absenoldebau digolledol cronedig byrdymor yn cyfeirio at fuddiannau y mae gweithwyr yn eu derbyn fel rhan o'u contract cyflogaeth, hawliad sy'n cronni wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor. Y budd mwyaf arwyddocaol dan y pennawd hwn yw hawl i wyliau blynyddol y mae cyflogaion yn cronni wrth iddynt weithio. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gost darparu gwyliau a buddion tebyg gael eu cydnabod pan fydd gweithwyr yn cyrraedd cam yn eu gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau digolledol i'r dyfodol. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gronni ar gyfer gwyliau blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n mynnu bod awdurdodau lleol i ariannu hawl i wyliau blynyddol a budd-daliadau eraill pan fyddant yn cael eu defnyddio, yn hytrach na phan maent yn cael eu hennill gan weithwyr. Caiff symiau eu trosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig nes caiff y buddiannau eu defnyddio.

20. BENTHYCIADAU TYMOR HIR

Dadansoddiad	Cyfraddau Llog		31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
	Lleiafswm %	Uchafswm %	£000	£000
Yn ol math o Fenthyciad (Cyfradd Sefydlog)				
Salix Finance (Effeithlonrwydd Ynni)	2.05	2.05	1,242	1,786
Llywodraeth (PWLb)	1.16	9.50	302,361	288,586
Sefydliadau ariannol eraill	4.48	4.58	18,950	18,950
Llywodraeth Cymru		Di-log	1,722	1,810
			324,275	311,132
Yn ol cyfnod aeddfedu				
Rhwng 1 a 2 flynedd			13,007	9,307
Rhwng 2 a 5 mlynedd			38,715	31,055
Rhwng 5 a 10 mlynedd			93,050	68,169
Mwy na 10 mlynedd			179,503	202,601
			324,275	311,132

21. CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o gronfeydd wrth gefn ar y Fantolen. Mae rhai yn cael eu dal am resymau statudol, mae angen rhai i gydymffurfio ag arfer cyfrifeg priodol ac mae eraill wedi'u sefydlu yn wirfoddol i glustnodi adnoddau ar gyfer cynlluniau gwario yn y dyfodol. Mae'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi'u nodi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ac yn Nodyn 7.

Mae arian wrth gefn wedi'i glustnodi yn cynnwys y canlynol:-

- Balansau gwasanaeth - yn cynrychioli adrannau gwasanaeth sy'n dwyn cyllid heb ei wario ymlaen i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf a mathau perthnasol penodol eraill o incwm / tanwariant o natur unwaith yn unig sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn i bwrpas penodol.
- Balansau ysgolion – mae'r swm hwn yn cynrychioli'r balans net o dan ddirprwyaeth cyllidebau i ysgolion a oedd yn parhau i fod heb eu gwario neu a oedd wedi gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hefyd yn cynnwys gor/tan wariant cyfun mewn perthynas â Chynllun Yswiriant Salwch Ysgolion.
- Yswiriant Wrth Gefn – yswiriant wrth gefn amrywiol gan gynnwys Cronfa Yswiriant Fewnol y Cyngor i fodloni costau hunan yswiriant islaw lefelau dros ben polisi unigol.
- Hawliadau Cyflogaeth – i ariannu costau amcangyfrifedig cyflogwyr yn erbyn y Cyngor.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

- Ymyrraeth Ysgolion - Arian wrth gefn gan ysgolion i gefnogi ysgolion yn dilyn arolygon Estyn a hefyd i gywiro unrhyw wallau ac anghysondebau mewn fformiwla cyllid.
- Disodli Hwb TGC Ysgolion - mae ysgolion yn rhoi arian o'r neilltu ar gyfer disodli offer TGCh yn 2026/27 fel rhan o delerau ac amodau grant TGCh HwB Llywodraeth Cymru.
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Diwedd GwE a chredyd ymadael wedi'i glustnodi i ariannu pwysau ADY.
- Hyfforddeion Sir y Fflint – cronfa wrth gefn i ariannu rhaglen Hyfforddeion Sir y Fflint.
- Costau Gweithlu - cronfeydd wrth gefn cronedig i gyllido costau gweithlu unwaith yn unig pellach.
- Buddsoddi mewn Newid Sefydliadol - arian wrth gefn wedi'i gronni i ariannu costau ailfodelu gwasanaethau a phrosiectau 'Buddsoddi i Arbed'
- Ffioedd Dylunio – cronfa wrth gefn a grëwyd i liniaru colled incwm o'r Rhaglen Gyfalaf
- Diffyg Incwm Rhent – cronfa wrth gefn wedi'i chreu i liniaru'r incwm a gollir o rentu eiddo diwydiannol.
- Etholiadau'r Sir – arian wrth gefn i ariannu costau etholiadau'r dyfodol.
- Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid – i alluogi bod y Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cael ei chyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r Canolfannau sy'n Cysylltu, gwella cyfleusterau hunan-wasanaethu a buddsoddi mewn meddalwedd newydd.
- HwB Seilwaith TG - i gefnogi seilwaith TGCh Ysgolion.
- Ymchwiliad COVID-19 - cronfa wrth gefn i ariannu staff sydd ynghlwm â'r Ymholiad COVID-19, mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor ymateb i unrhyw geisiadau mewn perthynas â'r Ymchwiliad hwn yn brydlon.
- Newid Sefydliadol/ADM - i ddarparu arian at raid a chefnogaeth dechnegol ariannol yn erbyn unrhyw faterion ariannol sy'n codi o ganlyniad i weithredu dulliau darparu gwasanaeth gwahanol.
- Ffermydd Solar - i ariannu gwaith cynnal a chadw parhaus Ffermydd Solar - a'n galluogi i ail-fuddsoddi mewn Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni.
- Ffioedd goruchwyllo – mae'r gronfa wrth gefn hon yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith y Tîm Rheoli Datblygiadau mewn gwaith goruchwyllo datblygiadau tai, mewn cysylltiad â mabwysiadu ffyrdd a/neu waith cysylltiedig arall a ystyrir yn hanfodol.
- Incwm Ffi Weinyddol Cartrefi Cynnes - cronfa er mwyn cefnogi a rhoi adnoddau i'r galw am wasanaethau'r Tîm Ynni Cartrefi Cynnes yn eu gwaith yn cyflwyno gwelliannau arbed ynni i'r rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd.
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - cyfran CSFf o gronfeydd wrth gefn cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a gedwir gan Gyngor Sir Gwynedd. NWEAB wedi'i ymgorffori i'r NWCJC 2025/26.
- Adfywio a Datblygu Canol Tref - cefnogi gweithrediadau a darpariaeth gwasanaeth mewn perthynas â'r saith Cynllun Lleodedd Canol Trefi.
- Gwaredu Gwastraff – defnyddir y gronfa hon yn bennaf i ariannu cyfraniad Cyngor Sir y Fflint i Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.
- Meysydd Parcio - rhannu incwm Meysydd Parcio a neilltuwyd ar gyfer gwaith/gwelliannau yng nghanol tref yr Wyddgrug yn unol â chytundeb Cyngor Tref Yr Wyddgrug.
- Cronfa Mantais Gymunedol – Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru – Cyfraniadau gan Bartneriaeth Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a Wheelabrator Technologies Inc i ariannu prosiectau sydd o fudd i'r amgylchedd yn ardal Sir y Fflint. Dros dro, mae'n cael ei ddefnyddio fel 'Cronfa Adferiad Cymunedol' i helpu cymunedau lleol yn ardal Glannau Dyfrdwy oherwydd effeithiau pandemig Covid-19.
- Tywydd Difrifol - arian wrth gefn wedi'i sefydlu os digwydd tywydd difrifol fel llifogydd a difrod gwynt gan stormydd.
- Ton 4 Plas Derwen - disodli'r offer gafodd ei gaffael drwy'r cyllid ton a bodloni unrhyw safonau digidol newydd yn unol â thelerau ac amodau cyllid grant HwB.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

- Grantiau a Chyfraniadau – grantiau a chyfraniadau amrywiol gan ddarparwyr allanol y dylid eu gwario yn unol â chyfyngiadau defnyddio.

Mae'r symudiadau rhwng y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi'u crynhoi yn y tabl isod:-

	Balans ar 31 Mawrth 2024	Trosglwyddiadau Allan 2024/25	Trosglwyddiadau i Mewn 2024/25	Balans ar 31 Mawrth 2025	Trosglwyddiadau Allan 2025/26	Trosglwyddiadau i Mewn 2025/26	Balans ar 31 Mawrth 2026
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balansau gwasanaeth	3,326	(1,271)	234	2,289	(400)	2,437	4,326
Balansau ysgolion*	3,038	(8,744)	4,693	(1,013)	(11,341)	7,075	(5,279)
Yswiriant Wrth Gefn	2,382	(1,252)	1,304	2,434	(594)	713	2,553
Hawliadau Cyflogaeth	110	(18)	0	92	(31)	0	61
Ymyrraeth Ysgolion	349	(14)	119	454	(57)	53	450
Disodli Hwb TGC Ysgolion	789	0	263	1,052	0	263	1,315
ADY	0	0	0	0	0	1,161	1,161
Hyfforddeion Sir y Fflint	322	(249)	0	73	(28)	0	45
Costau Gweithlu	843	(388)	0	455	0	0	455
Buddsoddi mewn Newid Sefydliadol	972	(90)	0	882	(292)	0	590
Ffioedd Dylunio	239	(88)	0	151	0	0	151
Diffyg Incwm Rhent	131	0	0	131	0	0	131
Etholiadau'r Sir	375	0	0	375	(295)	0	80
Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid	7	0	0	7	0	0	7
Hwb Seilwaith TG	140	(56)	0	84	0	0	84
Ymchwiliad COVID-19	142	(101)	0	41	0	0	41
Newid Sefydliadol/ADM	601	(315)	1,587	1,873	(478)	1,035	2,430
Ffermydd Solar	181	0	122	303	0	53	356
Ffioedd goruchwyllo	49	(49)	0	0	0	0	0
Incwm Ffi Weinyddol Cartrefi Cynnes	295	0	78	373	(164)	0	209
NWEAB	691	0	326	1,017	(1,017)	0	0
Adfywio a Datblygu Canol Tref	0	0	0	0	0	156	156
Gwaredu Gwastraff	0	0	0	0	(32)	67	35
Meysydd Parcio	88	(88)	16	16	0	16	32
Cronfa Mantais Gymunedol – Prosiect	913	(236)	290	967	(246)	249	970
Tywydd Difrifol	250	(250)	0	0	0	0	0
Ton 4 Plas Derwen	6	0	2	8	0	1	9
Grantiau a Chyfraniadau	6,768	(4,652)	3,730	5,846	(1,520)	1,124	5,450
	23,007	(17,861)	12,764	17,910	(16,495)	14,403	15,818

*2024/25 wedi'i aildatgan i gyfuno gor/tan wariant mewn perthynas â'r Cynllun Yswiriant Salwch Ysgolion gy da Balansau Ysgolion o Ymyrraeth Ysgolion.

NODIADAU YNGLŷN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

22. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Mae'r balansau ar gyfer cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio fel a ganlyn -

Cronfa Adbrisio Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion y Cyngor a ddeilliodd o'r cynnydd yng ngwerth ei eiddo, peiriannau ac offer. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronol eu -

- hadbrisio i lawr neu eu gwanhau gan golli'r enillion,
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau gan golli'r enillion drwy ddibrisio, neu
- gwerthu gan wireddu'r enillion.

Mae'r gronfa wrth gefn adbrisio yn cofnodi enillion adbrisio nas gwiredwyd ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y gronfa. Mae'r gronfa'n cael ei chyfateb gan asedau anghyfredol o fewn y Fantolen - nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion cyllido.

	2025/26		2024/25	
	£000	£000	£000	£000
Balans Ar 1 Ebrill		266,911		231,312
Adbrisio asedau yn uwch	63,101		53,742	
Adbrisio asedau yn is a cholledion nam ddim yn cael eu talu o'r Gweddill/Diffyg Darpariaeth Gwasanaethau	<u>(23,864)</u>		<u>(8,628)</u>	
Gwarged neu (ddiffyg) ar adbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol nas postwyd at y gwarged/ diffyg ar ddarparu gwasanaethau		39,237		45,114
Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol	<u>(11,202)</u>		<u>(9,515)</u>	
Swm a ddiddymwyd yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		(11,202)		(9,515)
Balans ar 31 Mawrth		<u>294,946</u>		<u>266,911</u>

Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn darparu mecanwaith cydbwysu rhwng y gwahanol gyfraddau y mae enillion a cholledion (fel premiymau ar dalu dyledion yn gynnar) yn cael eu cydnabod dan y Cod ac yn ofyniad statudol ar gyfer cronfa'r Cyngor. Unwaith eto, mae'r gronfa'n cael ei chyfateb gan fenthyciadau a buddsoddiadau yn y Fantolen, ac nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion cyllido.

	2025/26		2024/25	
	£000	£000	£000	£000
Balans Ar 1 Ebrill		(3,933)		(4,292)
Cyfan y premiymau a gafwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol i'w codi ar y balans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r gofynion statudol	<u>359</u>		<u>359</u>	
Swm y mae costau cyllid a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i gostau cyllid sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion		359		359
Balans ar 31 Mawrth		<u>(3,574)</u>		<u>(3,933)</u>

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Y Gronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn gyfrif addasiadau sy'n cynnwys y gwahaniaeth amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer buddiannau ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â'r darpariaethau statudol.

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – mae'r buddiannau'n cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth. Mae'r dyledion sy'n cael eu cydnabod yn y cyfrifon yn cael eu diweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillon buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau.

Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i ariannu buddiannau a enillwyd wrth i'r Cyngor wneud cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn neu dalu unrhyw bensiwn y mae'n gyfrifol amdano yn uniongyrchol. Felly, mae balans debyd y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg yn y manteision a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w diwallu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi'i neilltuo erbyn amser talu'r buddion.

	2025/26 £000	2024/25 £000
Balans Ar 1 Ebrill	(25,186)	(28,711)
Enillion ar asedau'r cynllun	(18,320)	(38,666)
Enillion a (Cholledion) Actiwaraid	9,251	122,144
Taliadau net i warged / diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(16,169)	(21,648)
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	23,452	22,693
Cyfran Cyngor Sir y Fflint o ail-fesuriadau ased budd-dal pensiwn net diffiniedig yn ymwneud â NWEAB*	0	(8)
Addasiad terfyniad asedau	3,102	(80,990)
Balans ar 31 Mawrth	<u>(23,870)</u>	<u>(25,186)</u>

*NWEAB wedi'i ymgorffori i'r NWCJC 2025/26

Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn cynnwys y gwahaniaethau fyddai'n codi fel arall ar falans Cronfa'r Cyngor sy'n deillio o absenoldebau a enillwyd, ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr effaith ar falans Cronfa'r Cyngor wedi'i niwtralu gan drosglwyddiadau i neu o'r cyfrif.

	2025/26 £000 £000	2024/25 £000 £000
Balans Ar 1 Ebrill	(5,872)	(4,151)
Setlo neu ganslo'r cronid a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	5,872	4,151
Symiau cronedig ar ddiwedd y flwyddyn bresennol	<u>(6,139)</u>	<u>(5,872)</u>
Y swm y mae taliadau swyddogion a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronidau yn wahanol i'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(267)	(1,721)
Balans ar 31 Mawrth	<u>(6,139)</u>	<u>(5,872)</u>

NODIADAU YNGLŷN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae cost caffael, adeiladu neu wella'n cael eu debydu o'r cyfrif gan fod dibrisiad, colledion lleihad gwerth ac amorteiddiadau'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostiadau cysoni o'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r symiau a neilltuwyd gan y Cyngor ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar eiddo buddsoddi ac enillion adbrisio cronedig ar eiddo, peiriannau ac offer cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Adbrisio ar gyfer enillion o'r fath.

Mae Nodyn 7 yn darparu manylion ffynhonnell yr holl drafodion sy'n rhan o'r cyfrif, ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys y Gronfa Adbrisio wrth gefn.

	2025/26		2024/25	
	£000	£000	£000	£000
Balans Ar 1 Ebrill		563,248		516,775
Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â gwariant cyfalaf sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
- Y tâl a godir am ddibrisio ac amharu ar asedau anghyfredol	(68,536)		(46,051)	
- Colledion adbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer	(69,487)		(2,162)	
- Symudiadau yng ngwerth marchnad yr Eiddo Buddsoddi a ddebydwyd neu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2,105		699	
- REFCUS	(4,206)		(6,106)	
- Addasiadau Cyfrifo Benthyciad Meddal	105		103	
- Symudiadau yng ngwerth teg asedau a gânt eu dal i'w gwerthu wedi'u debydu neu eu credydu i CIES	(67)		0	
- Symiau o asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthu fel rhan o'r enillion / colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(549)		(630)	
	(140,635)		(54,147)	
Addasu symiau a adawyd allan o'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	11,202		9,515	
Swm net a adawyd allan o gost asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn		(129,433)		(44,632)
Ariannu Cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn:				
- Defnyddio'r gronfa derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0		1,837	
- Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi cael eu cymhwyso i ariannu cyfalaf	48,331		71,031	
- Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf a godir yn erbyn Cronfa'r Cyngor a'r CRT	12,340		9,298	
- Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Cronfa'r Cyngor a Balansau'r CRT	10,386		9,053	
- Defnyddio'r gronfa derbynebau cyfalaf i ad-dalu dyled	217		208	
Addasiadau dyledwyr tymor hir - Ad-daliadau Benthyciad	(235)		(322)	
		71,039		91,105
Balans ar 31 Mawrth		504,854		563,248

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

23. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Mae'r llifoedd arian parod net yn sgil gweithgareddau gweithredol yn cynnwys yr elfennau llog canlynol:

	2025/26 £000	2024/25 £000
Llog a gafwyd	2,437	2,572
Llog a dalwyd	(20,562)	(18,415)

24. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

	2025/26 £000	2024/25 £000
Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(148,513)	(92,522)
Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	(15)	(862)
Elw o werthiant eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol.	688	1,686
Elw o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	0	5,000
Derbynebaw eraill o weithgareddau buddsoddi	48,743	70,645
Llifoedd arian net o Weithgareddau Gweithredol	(99,097)	(16,053)

25. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

	2025/26 £000	2024/25 £000
Derbynebaw arian parod o fenthycha tymor byr a thymor hir	51,200	68,159
Taliadau i leihau'r ddyled sy'n weddill mewn perthynas â phrydlesau ariannol	74,520	6,321
Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	(50,659)	(38,678)
Llif arian net o weithgarwch ariannu	75,061	35,802

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

26. TÂL SWYDDOGION

Uwch Dâl Cyflogeion

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn am ddatgeliad (mewn bandiau o £5,000) o nifer y cyflogeion y mae eu taliadau - pob symiau a delir neu a dderbynnir gan y gweithiwr cyflogedig, gan gynnwys taliadau ar derfynu cyflogaeth, lwfansau treul sy'n daladwy i dreth, a'r arian gwerth y budd-daliadau - yn fwy na £60,000 (gan gynnwys gweithwyr rhan amser neu swyddog a gaiff ei gyflogi dros dro. Tâl wedi'i grosio). Nid yw'r gwerthoedd band yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr. Mae colofnau ar gyfer ysgolion yn cynnwys yr holl ysgolion a gynhelir gan gynnwys Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig.

Band Taliadau Cydnabyddiaeth	2025/26		2024/25	
	Dim ysgolion	Ysgolion	Dim ysgolion	Ysgolion
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
£60,000 - £64,999	23	85	16	62
£65,000 - £69,999	22	38	19	32
£70,000 - £74,999	8	29	3	29
£75,000 - £79,999	1	35	2	21
£80,000 - £84,999	3	16	2	12
£85,000 - £89,999	1	5	0	8
£90,000 - £94,999	0	9	0	3
£95,000 - £99,999	0	2	0	2
£100,000 - £104,999	0	5	0	2
£105,000 - £109,999	0	2	0	3
£110,000 - £114,999	0	1	0	3
£115,000 - £119,999	0	3	0	1
£120,000 - £124,999	0	1	0	1
£125,000 - £129,999	0	1	0	0
£130,000 - £134,999	0	1	0	0
£135,000 - £139,999	0	0	0	1
£140,000 - £144,999	0	1	0	0
	58	234	42	180

Mae rhai swyddi a lenwir yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau Soulbury a gytunwyd yn genedlaethol. Gall Cyrff Llywodraethu ddefnyddio eu doethineb wrth osod cyflogau Penaethiaid o fewn terfynau Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol 2015.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) hefyd yn mynnu datgelu'r manylion tâl unigol ar gyfer cyflogeion hŷn drwy'r post lle mae'r cyflog rhwng £60,000 a £150,000 ac enw lle mae'r cyflog yn fwy na £150,000. At ddiben y datganiad, mae uwch weithwyr yn cynrychioli'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion (gan gynnwys Rheolwyr Corfforaethol a Swyddogion Statudol).

Mae cyflogau tîm y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog wedi'u gosod gan y Cyngor llawn yn unol â Datganiad ar Bolisiau Tâl y Cyngor (ar gael ar wefan y Cyngor). Nid yw cyfraddau tâl wedi amrywio o gwbl yn ystod y flwyddyn oni bai am gynydd chwyddiant ar gyfer gweithredu cyflogau blyneddol a gytunwyd yn genedlaethol i gynrychioli'r cynnydd mewn cost byw. Ni dderbyniodd y Prif Swyddogion unrhyw fonysau, lwfansau treuliau trethadwy, taliadau iawndal na buddion trethadwy eraill.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Teitl Swydd	2025/26			2024/25		
	Nodyn	Taliadau Cydnabyddiaeth	Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr	Taliadau Cydnabyddiaeth	Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr	
		£	£	£	£	
Prif Weithredwr - Neal Cockerton	1	156,901	29,968	147,925	28,254	
Prif Swyddog Llywodraethu	1 & 2	118,250	22,376	108,642	20,751	
Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid		112,119	21,415	108,642	20,751	
Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol	3	103,467	19,762	92,710	17,708	
Prif Swyddog Lle a Thwf	4 & 5	56,682	10,826	0	0	
Cyn Brif Swyddog, Cynllunio, Amgylchedd ac Economi	6	46,716	8,923	108,642	20,751	
Prif Swyddog Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth		112,119	21,415	108,642	20,751	
Prif Swyddog Tai a Chymunedau		112,119	21,415	103,851	19,836	
Rheolwr Cyllid Corfforaethol (Swyddog Adran 151)		85,517	16,334	82,865	15,827	
Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygu Sefydliadol		85,517	16,334	82,865	15,827	
Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau	7	58,617	11,196	37,877	7,325	
Cyn Reolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau	8	24,726	4,723	80,780	15,429	
		1,072,750	204,687	1,063,441	203,210	

Nodyn 1 : Nid yw cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys unrhyw symiau a ddaw i law ar gyfer Rolau Swyddog Canlyniadau a Dirprwy Swyddog Canlyniadau mewn etholiadau (costau ar gyfer etholiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a refferenda wedi'i ad-dalu gan Lywodraeth berthnasol yn seiliedig ar fformiwla talu gosodedig cenedlaethol).

Nodyn 2 : 2025/26 tal yn cynnwys symiau a dderbyniwyd ar gyfer rol Clerc Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (£6,131), trefniant dan gcontract gwasanaeth sydd wedi bod yn ei le ers sawl blwyddyn (costau wedi'u had-dalu).

Nodyn 3 : Dyddiad dechrau cyflogaeth 1 Gorffennaf 2024. Mae'r gydnabyddiaeth ariannol cyn 1 Gorffennaf 2024 yn ymwneud â'r rôl flaenorol.

Nodyn 4 : Dyddiad dechrau cyflogaeth 29 Medi 2025.

Nodyn 5 : Portfolio a enwyd Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi yn flaenorol.

Nodyn 6 : Dyddiad diwedd cyflogaeth 31 Awst 2025.

Nodyn 7 : Dyddiad dechrau cyflogaeth 1 Chwefror 2026. Mae'r gydnabyddiaeth ariannol cyn 1 Chwefror 2026 yn ymwneud â'r rôl flaenorol.

Nodyn 8 : Dyddiad diwedd cyflogaeth 18 Gorffennaf 2025.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) hefyd yn mynnu bod y gymhareb tal cydnabyddiaeth rhwng y Prif Weithredwr ac enillydd cyflog cyfwerth â llawn amser canolrifol yn cael eu datgelu (£28,598); ar gyfer 2025/26 roedd hwn yn 1:5.49 (ar gyfer 2024/25 roedd hefyd yn 1:5.34).

Pecynnau Gadael

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu (mewn bandiau £20,000 hyd at £100,000 a £50,000 bandiau wedi hynny) nifer y pecynnau gadael a gytunwyd a chost y pecynnau i'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol. Mae costau gadael yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo iddynt ar 31 Mawrth 2025 a 2026, ond talwyd ar ôl y dyddiad hwn, hefyd wedi eu cynnwys yn y datgeliad. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys ar gyfer bob ysgol a gynhelir gan gynnwys Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig.

Mae'r cyfansymiau a ddatgelir yn cynnwys taliadau a roddwyd i'r unigolyn ac unrhyw daliadau gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol yn gynnwys heb ostyngiad actiwaraid mewn pensiwn yn unol â Pholisi lawndal Yn Ôl Disgresiwn y Cyngor.

Band Cost Pecyn Gadael	Colli swydd Gorfodol		Ffyrdd Eraill o Adael y Cytunwyd Arnynt		Cyfanswm Pecynnau Gadael yn ôl Band		Cyfanswm Pecynnau Gadael ym Mhob Band	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£	£
£0 - £20,000	16	14	1	2	17	16	147,891	138,216
£20,001 - £40,000	9	4	1	0	10	4	269,998	114,076
£40,001 - £80,000*	3	5	0	0	3	5	172,878	230,900
£80,001 - £100,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£100,001 - £150,000	0	2	0	0	0	2	0	244,895
	28	25	2	2	30	27	590,767	728,087

*Band wedi'i gyfuno i gynnal cyfrinachedd.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

27. LWFANSAU AELODAU

Roedd y Cyngor wedi talu'r lwfansau a chostau canlynol i Aelodau yn ystod y flwyddyn:

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Cyflogau	2,047	1,856
Treuliau Aelodau	15	20
	<u>2,062</u>	<u>1,876</u>

28. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Cyngor yn gorfod datgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor, neu i'w rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu darllenwyr i asesu'r graddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu efallai â'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i ymdrin yn rhydd â'r Cyngor.

Cymru a'r Llywodraeth Ganolog

Mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad sylweddol drwy ddeddfwriaeth a chyllid grant - mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo, yn darparu'r mwyafrif o'i gyllid ar ffurf grantiau, ac yn rhagnodi telerau sawl trafodyn sydd gan y Cyngor â phartïon eraill fel biliau treth y cyngor a budd-daliadau tai. Mae grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac adrannau llywodraeth eraill wedi'u nodi yn y dadansoddiad pynciol yn Nodyn 6 a 18.

Aelodau:

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyngor.

Mae cyfanswm y lwfansau a dalwyd i Aelodau wedi'u dangos yn Nodyn 27. Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol a gwirfoddol allanol neu mae Aelodau wedi datgan cysylltiad â sefydliadau, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau. Mae cyfanswm y trafodion gyda chyrff dan y pennawd hwn fel a ganlyn:

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	2,731	2,811
Derbynebau	10	4
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	91	9
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	1,719	3,547

Mae trafodion sy'n fwy na £0.100 miliwn i'w gweld isod:

Nifer yr Aelodau sy'n datgan buddiant			Talwyd		Derbyniadau		Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor		Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	
2025/26	2024/25	Llog	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
			£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	1	Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig	590	568	0	0	0	0	0	0
1	1	Thrafnidiaeth Gymunedol Y Gororau	195	202	5	2	0	0	0	0
4	4	Theatr Clwyd	1,769	1,954	3	0	90	0	1,719	3547

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae Aelodau wedi datgan cysylltiad neu berthynas mewn cwmnïau neu fusnesau a allai fod wedi ymwneud â'r Cyngor. Mae cyfanswm y taliadau a wnaed i gwmnïau dan y pennawd hwn fel a ganlyn:

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	90	131
Derbynebaw	8	11
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	38	0
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	1	1

Mae trafodion sy'n fwy na £0.100 miliwn i'w gweld isod:

Nifer yr Aelodau sy'n datgan buddiant		Llog	Talwyd		Derbyniadau		Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor		Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	
2025/26	2024/25		2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
			£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	1	Cwmni dylunio ac argraffu	89	128	8	9	38	0	1	1

Mae cysylltiadau personol pob Aelod yn cael eu cofnodi yn y Gofrestr Gyhoeddus o Gysylltiadau Aelodau, yn unol â'r gyfraith a Chod Ymddygiad y Cyngor. Mae'r gofrestr ar gael ar wefan y Cyngor.

Swyddogion

Gellir gweld Tâl Uwch Swyddogion yn Nodyn 26. Mae Uwch Swyddogion wedi datgan yn ôl y galw a lle bo'n briodol, gysylltiad neu berthynas mewn cwmni, corff gwirfoddol, elusennol, neu gyhoeddus sy'n derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae chwe datganiad sydd angen eu cynnwys wedi'u cynnwys yn 'Aelodau' uchod, 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol' isod ac 'Is-gwmnïau' isod. Mae cyfanswm y trafodion ar gyfer y datganiadau sy'n weddill gyda chyrrff o'r fath fel a ganlyn:

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	789	750
Derbynebaw	67	116
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	36	78
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	5	6

Mae trafodion sy'n fwy na £0.100 miliwn i'w gweld isod:

Nifer yr Uwch Swyddogion yn datgan diddordeb		Llog	Talwyd		Derbyniadau		Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	
2025/26	2024/25		2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
			£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	0	Groundwork Gogledd Cymru Cyf	156	168	0	0	1	44
1	0	Ailosod Sir y Fflint	623	563	51	67	35	21

Mae'r holl ddatganiadau gan Uwch Swyddogion yn cael eu cefnogi gan gofnodion yn y gofrestr buddiannau ar gyfer Uwch Swyddogion sy'n galluogi'r Cyngor i gymryd camau priodol i reoli'r buddiannau.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT)

Mae gan nifer o Aelodau ac Uwch Swyddogion diddordeb mewn grwpiau cymunedol lleol sy'n cyfranogi yng nghynllun CAT y Cyngor. Mae'r cynllun yn cynnwys trosglwyddo prydles (ar werth enwol) asedau penodol y Cyngor, i sefydliadau gyda phwrpas cymunedol sy'n bwriadu defnyddio'r asedau er budd y gymuned leol. Mae'r asedau wedi aros ar fantolen y Cyngor a gyda gwerth net ar bapur cyfun o £19.806 miliwn (£14.035 miliwn yn 2024/25).

Mewn rhai amgylchiadau mae'r Cyngor wedi, neu'n bwriadu, cyhoeddi grantiau cyfalaf ar gyfer unrhyw waith cyfalaf angenrheidiol. Y trafodion gyda'r grwpiau hyn yw:

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Grantiau a ddyfarnwyd	531	360
Taliadau	87	163
Derbynebaw	10	24
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	10	7
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	6	7

Mae trafodion sy'n fwy na £0.100 miliwn i'w gweld isod:

Nifer yr Uwch Swyddogion yn datgan diddordeb		Llog	Grantiau a dalwyd		Taliadau eraill		Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	
2025/26	2024/25		2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
			£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	1	Yn briod â chyfarwyddwr Cambrian Aquatics	341	200	22	72	4	5

Is-gwmnïau

Mae gan y Cyngor dri is-gwmni dan berchnogaeth, NEW Homes, Arlwy a Glanhau Newydd Cyf a Llyfrgelloedd (Newydd) a Hamdden Sir y Fflint Cyf (Gwella). Mae'r rhain yn gwmnïau cyfyngedig gan gyfranddaliadau ac wedi'u cynnwys yn ffin cyfrifo grŵp y Cyngor. Mae gan NEW Homes gyfleuster benthyca â'r Cyngor, ac ar 31 Mawrth 2026 cyfanswm hwn oedd £13.686 miliwn (£13.903 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

Trafodion eraill gydag is-gwmnïau yw -

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Cymhorthdal wedi'i dalu	4,491	3,282
Taliadau eraill	17,868	10,395
Derbynebaw	3,959	1,272
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	1,899	1,155
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	2,230	2,017

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae trafodion sy'n fwy na £0.100 miliwn i'w gweld isod:

Nifer Uwch Swyddogion ac Aelodau sy'n datgan buddiant			Llog		Cymhorthdal wedi'i dalw		Taliadau eraill		Derbynebaw		Yn ddyledus gan y Cyngor		Yn ddyledus i'r y Cyngor	
2025/26	2024/25				2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
					£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
2	1	Cyfarwyddwr Gwella			4,191	2,894	8,318	89	3,727	753	1,414	695	1,976	1,659
3	2	Cyfarwyddwr Newydd			300	388	9,544	9,977	179	153	486	460	19	139
2	1	Cyfarwyddwr NEW Homes			0	0	6	329	53	366	0	0	235	220

Cronfa Bensiynau Clwyd

Y Cyngor yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd. Mae manylion y trafodion gyda Chronfa Bensiwn Clwyd i'w cael yng nghyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd sydd ar gael yn www.clwydpensionfund.org.uk

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Chynghorau Tref / Cymuned

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac Awdurdodau Tân ac Achub yn pennu eu ffioedd eu hunain i drethdalwyr y cyngor sydd wedyn yn cael eu cynnwys yn y bil treth y cyngor – mae'r taliadau hyn yn cael eu hadnabod fel y praesept. Cyfanswm y praeseptau a dalwyd i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru oedd £24.732 miliwn (£23.105 miliwn yn 2024/25).

Cyfanswm yr ardollau a dalwyd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd £11.661 miliwn (£10.906 miliwn yn 2024/25).

Cyfanswm praeseptau yn cynnwys praeseptau mynwentydd wedi'u talu i 34 o gynghorau cymuned/tref oedd £3.901 miliwn (£3.617 miliwn yn 2024/25).

Trafodion eraill gyda'r cyrff hyn yw:

	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru		Awdurdod Tân Gogledd Cymru		Cynghorau Cymuned	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Taliadau	27	26	23	73	128	81
Derbynebaw	359	352	57	8	533	512
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	24	0	0	0	0	1
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	72	39	0	0	59	111

Mae ardoll eraill a dalwyd gan y Cyngor wedi'u nodi yn Nodyn 4.

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (gweithgareddau gofal iechyd cysylltiedig)

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	1,938	2,085
Derbynebaw	9,274	8,854
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	2,094	1,336
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	7,406	6,830

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Cydbwyllgor Addysg Cymru

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	115	254
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	242	147

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Taliadau	167	159
Derbynebaw	760	733
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	416	309

29. FFIOEDD ARCHWILIO

Darparwyd gwasanaethau archwilio allanol gan Archwilio Cymru.

	2025/26	2024/25
	£000	£000
Ffioedd ar gyfer y cyfrifon	254	242
Ffioedd ar gyfer Gwaith Archwilio Perfformiad	124	117
Ffioedd ar gyfer grantiau	62	45
	<u>440</u>	<u>404</u>

30. DEDDF GWASANAETHAU IECHYD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2006

Mae gan y Cyngor gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn unol ag Adran 33 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, er mwyn darparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig dan drefniant cronfa gyfun. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy staff Cyngor Sir y Fflint (fel partner lletyol) o Uned 3, Ystâd Ddiwydiannol Penarlâg, Penarlâg, Sir y Fflint.

Partneriaeth	2025/26	2024/25
	£000	£000
Gwariant Gros	1,275	1,145
Incwm Gros	(1,345)	(1,327)
(Gweddill) / diffyg ar gyfer y flwyddyn	<u>(70)</u>	<u>(182)</u>
Cyfraniad at y Gyllideb		
Cyngor Sir y Fflint	341	322

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae Uned 3 yn ar brydles i Gyngor Sir y Fflint (50.25%) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (49.75%). Mae'r safle wedi'i gynnwys ym Mantolen Cyngor Sir y Fflint:-

	Gros £000	Net £000	%
Cyngor Sir y Fflint	756	650	50.25
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	748	643	49.75
	<u>1,504</u>	<u>1,293</u>	<u>100.00</u>

31. CYLLIDBAU CYFUN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Dan reoliad 19 (1) Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, mae angen trefniant cyllideb gyfun anffurfiol rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartref gofal i bobl hŷn ar gyfer 2025/26. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019, a Chyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod cynnal. Mae'r trafodion ar gyfer Cyngor Sir y Fflint yn unig wedi'u cynnwys yn llinell Gwasanaethau Cymdeithasol y datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dyma'r incwm a'r gwariant tybiannol ar gyfer y gyllideb gyfun -

	2025/26 £000	2024/25 £000
Cartrefi Gofal I Bobl Hyn		
Gwariant		
Costau'r Cartref Gofal	147,652	136,047
	<u>147,652</u>	<u>136,047</u>
Cyllid		
Cyngor Sir Dinbych	(13,600)	(12,423)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(19,835)	(18,090)
Cyngor Sir y Fflint	(17,767)	(14,980)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(15,975)	(16,470)
Cyngor Gwynedd	(15,282)	(13,084)
Cyngor Sir Ynys Môn	(8,320)	(7,126)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(56,873)	(53,874)
	<u>(147,652)</u>	<u>(136,047)</u>
(Gwarged) / Diffyg wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn	0	0

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

32. GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o wyth partner Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, y partneriaid eraill yw Cyngorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Wrecsam, Powys a Ceredigion. Mae Portffolio Strydwedd a Chludiant Cyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â gwaith cefnffyrdd ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae ad-daliadau am waith a wnaed dan y Cytundeb Asiantaeth Prifffyrdd yn dod i £3.746 miliwn (£3.774 miliwn yn 2024/25).

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gyngorau Cymru i ddarparu benthyciadau ailgylchu o dan y Cynllun Troi Tai yn Gartrefi er mwyn atgyweirio eiddo sydd wedi bod yn wag ers amser hir, gyda'r nod o gael defnydd ohonyn nhw unwaith eto. Cânt eu trin fel trefniadau asiantaeth yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor. Rhoddwyd cyfran o'r arian am byth i'r Cyngor. Mae cyllid hefyd wedi'i ddarparu yn ymwneud â Gwella Tai a Benthyciad Eiddo Gwag ar gyfer gwaith gwneud eiddo preswyl yn saff, cynnes a/neu ddiogel, a'r arian i'w ddychwelyd rhwng 4 ac 9 mlynedd. Mae arian ychwanegol hefyd wedi'i dderbyn i gefnogi adfywio canol y dref yn Sir y Fflint. Dylid dychwelyd yr arian hwn ymhen 9 mlynedd.

	Benthyciadau a roddwyd		Ad-dalwyd	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
	£000	£000	£000	£000
Troi Tai yn Gartrefi - Cyfran 1af	210	140	75	225
Gwella Tai a Benthyciad Eiddo Gwag	193	520	420	224
Adfywio Canol y Dref	481	0	20	0

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu ffioedd gwresogi gan denantiaid sy'n byw mewn adeiladau cymunedol sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn casglu yswiriant cynnwys tŷ ar gyfer eiddo tenantiaid os ydynt yn dymuno.

Ffioedd	Casglwyd 2025/26	Casglwyd 2024/25
	£000	£000
Yswiriant Cynnwys Aelwydydd	56	59
Gwresogi	166	206

Gweithredodd y Cyngor fel asiant ar ran rhanbarth Gogledd Cymru ar gyfer y grantiau canlynol. Dangosir hefyd gyfran pob grant sy'n ymwneud â Chyngor Sir y Fflint ac a gynhwyswyd yn natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor. Cafodd y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau/Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau ei ddisodli gan y Grant Rhwydwaith Bysiau yn 2024/25.

Teitl y grant	Disgrifiad	Arian a dderbyniwyd		Cyfran Cyngor Sir y Fflint		Tâl gweinyddu a dderbyniwyd	
		2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Grant Cefnogi Gwasanaethau Bysiau	Cymorth i wasanaethau bws a chludiant cymunedol.	6,686	6,102	740	647	48	48
Cynllun Argyfwng Bws/Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau	I gefnogi gweithredwyr bysiau lleol i ymdopi â'r refeniw a gollwyd yn sgil y pandemig COVID-19 ac effeithiau pellach prinder gyrwyr a chostau tanwydd.	0	350	0	17	0	0
Grant Rhwydwaith Bysiau	Cyllid i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn y Rhanbarth yn sicrhau Gwasanaethau Bysiau Lleol sy'n fforddiadwy ac yn parhau i fodloni anghenion lleol trwy osod contractau gwasanaeth ar gyfer gweithredu gwasanaethau lleol.	6,014	5,707	1,195	1,332	30	30

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill, wrth dderbyn a dosbarthu grantiau amrywiol. Crynhoir y rhain yn y tabl isod:

Teitl y grant	Disgrifiad	Arian a dderbyniwyd		Tâl gweinyddu a dderbyniwyd	
		2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000
Grant Gofal Plant	Cyllid i ddarparu gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio a gyda phlant 3-4 oed. Mae'r elfen cymorth ychwanegol yn cael ei weinyddu ar ran Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych.	276	283	352	352
Cynllun Ymateb Wcraïn - taliad cymorth brys o £200 a taliad o £350/£500 i'r rhai sy'n rhoi llety a taliad ychwanegol o £150 i ddiolch	Taliad o £200 fesul unigolyn o Wcraïn sy'n cyrraedd. £350 (llai na 12 mis)/£500 (dros 12 mis) fesul unigolyn o Wcraïn bob mis i'r rhai sy'n rhoi llety. £150 o daliad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan fydd yr unigolyn o Wcraïn wedi bod yn y DU am lai na 12 mis (cynnydd o £350 i £500)	101	150	0	0
Taliad Cynllun Cymorth Gostyngiad Band i Bobl Anabl ar Incwm Isel	Cyllid i ddarparu taliad cymorth untro o £100 i aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gostyngiad Band i Bobl Anabl yng Ngaeaf 2025-26.	9	0	1	0

Rhoddodd y Cyngor hefyd 40% (40% yn 2024/25) o ryddhad ardrethi annomestig i'r sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Ariannwyd y rhyddhad ardrethi hwn gan Lywodraeth Cymru ac ni effeithiwyd ar yr hyn a dderbyniodd y Cyngor o'r gronfa ardollau annomestig. Roedd y cyfanswm a dderbyniodd y Cyngor o'r gronfa ardrethi annomestig yn £55.799 miliwn (£56.364 miliwn yn 2024/25). £2.843 miliwn (£2.562 miliwn yn 2024/25) o hwnnw'n arian i ad-dalu'r Cyngor am y rhyddhad ardrethi hwn. Derbyniodd y Cyngor £0.014 miliwn (£0.014 miliwn yn 2024/25) hefyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gweinyddu'r rhyddhad hwn.

33. CRONFEYDD ERAILL A WEINYDDIR GAN Y CYNGOR

Mae portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol – Adain Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn cadw cyfrifon banc unigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu rheoli eu materion ariannol; mae aelodau unigol o'r tîm Dirprwyath yn cael eu cymeradwyo i weithredu fel penodai corfforaethol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Y cyfanswm a ddelir gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 oedd £6.962 miliwn, mewn 378 o gyfrifon ar wahân (£6.634 miliwn mewn 374 o gyfrifon yn 2024/25).

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr Adain Oedolion hefyd yn rheoli cyfrifon banc mewn perthynas ag Eiddo Byw â Chymorth lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn byw. Defnyddir y cyfrifon banc i dderbyn budd-daliadau tai a chaiff unrhyw daliadau mewn perthynas â'r eiddo eu talu o'r cyfrif banc hwn h.y. rhent a chyfleustodau. Y cyfanswm yn y 53 o gyfrifon hyn ar 31 Mawrth 2026 oedd £0.646 miliwn (£0.649 miliwn mewn 51 o gyfrifon yn 2024/25).

34. DYLEDION DIGWYDDIADOL

Yn unol â darpariaethau Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a Strategaeth Arolygu Tir Halogedig y Cyngor, bydd safleoedd o fewn y Sir yn cael eu hystyried a bydd cyflwr pob un yn cael ei asesu maes o law. Gall yr asesiadau ddod i'r casgliad bod y Cyngor yn gyfrifol am ym gymryd ag unrhyw waith adfer angenrheidiol neu gyfran o unrhyw waith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw daliadau a wneir yn y dyfodol gan Municipal Mutual Insurance (MMI) yn cael eu gwneud ar gyfradd ostyngedig o 75% ac mae wedi creu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu'r rhan o'r 25% sy'n weddill y bydd angen i'r Cyngor ei ariannu mewn unrhyw hawliad a setli'r yn y dyfodol. Mae rhagweld hawliadau yn y dyfodol yn ansicr oherwydd natur aneglur nifer o'r hawliadau y mae MMI yn parhau i'w derbyn. Mae'r ardoll yn destun adolygiad o leiaf unwaith bob 12 mis gan weinyddwr y cynllun.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae nifer fach o gyn-weithwyr yn hawlio yn erbyn y Cyngor mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a bydd gwrandawiaidau'n digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r achosion mae'n bosibl y bydd gofyn i'r Cyngor dalu pob un, rhai neu ddim o'r hawliadau.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu amrywiaeth o fodolau darparu gwasanaeth amgen sydd wedi cynnwys trosglwyddo gweithwyr y Cyngor i'r darparwyr gwasanaeth newydd. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwarantau pensiwn i Newydd, Gwella, Canolfan Hamdden Treffynnon ac Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd. Mae'r gwarantau hyn yn golygu os na all y cyrff hyn ddiwallu eu rhwymedigaethau pensiwn rywbryd yn y dyfodol, y bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb drostynt.

Mae nifer fach o denantiaid y Cyngor yn hawlio yn ei erbyn am gyflwr gwael eu tai. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r achosion mae'n bosibl y bydd gofyn i'r Cyngor dalu pob un, rhai neu ddim o'r hawliadau.

Ar unrhyw adeg, bydd y Cyngor a'i yswirwyr yn ymateb i nifer o hawliadau yswiriant. Efallai y bydd yn rhaid i'r Cyngor dalu'r holl hawliadau hyn, rhai ohonynt neu ddim ohonynt. Mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o'r neilltu i ariannu'r costau hyn wrth iddynt ddod yn ddyledus i'w talu.

Mae'r Cyngor yn asesu canlyniad a goblygiadau tebygol Dyfarniad diweddar gan y Goruchaf Lys a allai gael effaith ariannol yn sgil y posibilrwydd o ddiwygiad i'r cyfrifiadau tâl gwyliau ar gyfer y rhai sydd â chontract i weithio yn ystod y tymor yn unig. Mae nifer o hawliadau byw ac o ganlyniad efallai bydd yn rhaid i'r Cyngor dalu'r hawliadau i gyd, rhywfaint ohonynt neu ddim o gwbl.

Ni wnaeth y Cyngor fodloni'r targed ailgylchu gwastraff gofynnol statudol yn 2022/23, 2023/24 nac yn 2024/25. Gall Llywodraeth Cymru felly gymryd camau i roi dirwy i'r Cyngor drwy gyflwyno dirwy torri rheol. Derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2025/26, bod y ddirwy ar gyfer 2022/23 a 2023/24 wedi'i hepgor oherwydd yr ymdrechion a wnaed gan yr awdurdod i wneud newidiadau i'w wasanaethau er mwyn lleihau faint o wastraff gweddilliol y cartref a gasglwyd a chynyddu ailgylchu. Bydd y Gweinidog yn ystyried gosod iawn posibl ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed yn erbyn gwelliannau gwasanaeth sydd wedi'u nodi o fewn cynllun a gytunwyd arno i gael effaith ar gyfradd ailgylchu'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn aelod o sefydliad llywodraeth leol sy'n cael ei erlyn gan Gyngor Thurrock am fuddsoddiadau sydd wedi methu. Mae'r camau cyfreithiol wedi cael eu cyflwyno yn erbyn 23 aelod o'r sefydliad, gan gynnwys y Cyngor, fel cynrychiolwyr o'r aelodaeth gyfan. Nid yw gwerth terfynol yr hawliad wedi'i gadarnhau eto gan fod Cyngor Thurrock yn ceisio ad-ennill o gyrrff buddsoddi yn y lle cyntaf. Mae gweithdrefnau wedi'u gohirio wrth aros am ganlyniad gweithdrefnau yn erbyn y prif gyrrff.

Mae hawliad yn erbyn y Cyngor mewn perthynas â newid dros dro i batrymau sifft o fewn y portffolio Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth dros gyfnod y Nadolig. Dadleuir y dylai rhai dyddiad dros gyfnod y Nadolig gael eu cyfrif fel "amser gwaith" yn hytrach nac Amser Gwyliau Cyhoeddus a Banc.

35. ASEDAU DIGWYDDIADOL

Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu cytundebau cyfreithiol fel rhan o ganiatâd cynllunio sy'n ymrwymo'r datblygwr i wneud gwaith neu gyfraniadau mewn ffyrdd eraill tuag at amrywiaeth o isadeiledd neu wasanaethau. Mae cynllun tai fforddiadwy o'r enw 'Ecwiti a Rennir' yn ymrwymiad o'r fath; mae'r datblygwr yn gwneud nifer o'r eiddo ar gael i'w prynu gan y rheiny ar y gofrestr tai fforddiadwy am 70% o werth y farchnad. Mae'r 30% sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor ar ffurf pridiant cyfreithiol yn erbyn yr eiddo. Ar unrhyw adeg yn y dyfodol gall perchennog y tŷ brynu cyfran 30% y Cyngor neu werthu'r eiddo. Dylid ceisio gwerthu'r eiddo yn y lle cyntaf i bobl ar y gofrestr tai fforddiadwy. Os nad yw'r eiddo wedi'i werthu o fewn cyfnod penodol, gellir ei werthu ar y farchnad agored. Mae'n debygol y bydd y Cyngor yn cael budd o'r cytundebau hyn yn y dyfodol ar ffurf derbyniadau cyfalaf, fodd bynnag, mae'n rhaid defnyddio'r dderbynneg ar gyfer darparu tai fforddiadwy.

36. DYFARNIADAU BEIRNIADOL A RHAGDYBIAETHAU

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar gyfer eitemau penodol sy'n effeithio ar ei bolisiâu ac wedi adrodd ar lefelau asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill sy'n cael eu hystyried i fod yn rhesymol ac yn cael eu defnyddio i lywio'r sail ar gyfer dyfarniadau am werthoedd cario asedau a dyledion, lle nad yw'r rhain ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r rhain â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r amcangyfrifon cyfrifeg sylweddol o fewn y Datganiad Cyfrifon yn ymwneud ag asedau anghyfredol a lleihad mewn gwerth asedau ariannol. Mae rhagdybiaethau a thybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg o ganlyniad i'r asesiad o statws presennol a buddion a rhwymedigaethau a ddisgwylir yn y dyfodol gydag asedau a rhwymedigaethau wedi eu hadlewyrchu yn addasiadau o'r swm a gynhelir o ased neu rwymedigaeth, neu raddfa defnydd ased. Mae newidiadau i amcangyfrifon cyfrifeg yn cael eu cydnabod yn y cyfnod mae'r amcangyfrif yn cael ei adolygu os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol os yw'r adolygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

Y dyfarniadau cyfrifeg beirniadol a nodwyd gan y Cyngor sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yw -

- Lefelau Ariannu'r Llywodraeth yn y dyfodol a Lefelau Wrth Gefn - Mae lefel uchel o ansicrwydd ynglŷn â lefelau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol, ac yn enwedig, derbyn referniw penodol a grantiau cyfalaf. Mae'r Cyngor wedi neilltuo symiau mewn balansau gweithio a chronfeydd wrth gefn y mae'n credu sy'n briodol yn seiliedig ar amgylchiadau lleol, gan gynnwys ei gyllideb gyffredinol, risgiau, cadernid yr amcangyfrifon cyllideb, mentrau mawr ar y gweill, rhagdybiaethau cyllideb, arian wrth gefn a eraill wedi'u clustnodi ac enw da'r Cyngor o ran rheolaeth ariannol.
- Darpariaethau - Mae'n ofynnol i'r Cyngor fynegi barn wrth asesu a ddylai dyled bosibl gael ei chyfrif fel darpariaeth neu ddyled ddigwyddiadol. Mae'r Cyngor hefyd yn ymarfer yr hawl i gyfrifo lefel darpariaethau; maent yn cael eu mesur ar amcangyfrif gorau'r Cyngor o'r costau gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen.
- Eiddo Buddsoddi - Mae'r Cyngor yn dosbarthu eiddo buddsoddi yn unol â gofynion y Cod Ymarfer, sef bod asedau'n cael eu dal ar gyfer incwm rhentu adbrisiant cyfalaf yn unig. Mae asesu eiddo fel hyn yn golygu rhoi dyfarniadau a allai gael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd.
- Prisiadau Asedau - Mae'r Cyngor yn prisio ei Stoc Dai drwy amcangyfrif y 'Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol'. Y fethodoleg brisio a gymhwyswyd yw'r Gwerth Meddiant Gwag Wedi'i Addasu (a elwir yn Dull Goleufa). Ar hyn o bryd nid oes canllawiau yng Nghymru sy'n diffinio cydrannau'r fethodoleg hon yn benodol, mae rhai ohonynt yn dibynnu ar ddyfarniadau proffesiynol sy'n benodol i amgylchiadau lleol.

Mae'r dull yn prisio'r ased yn seiliedig ar werth teg (gwerth y farchnad) gan dybio 'meddiant gwag' yr ased sydd yna'n cael ei addasu i adlewyrchu defnydd o'r ased ar gyfer tai cymdeithasol gyda thenant cyfredol. Egwyddorion tanategol y dull hwn yw -

- Caiff ased cynrychioladol ei defnyddio fel arfer fel sail i brisio cyfres o asedau tebyg.
- Penderfynir ar Werth Teg yr ased (gwerth y farchnad) o dystiolaeth ynglŷn â gwerthiant eiddo cymharol. Mae hyn yn rhoi gwerth 'meddiant gwag'.
- Addasir gwerth y farchnad gan ffactor i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rhenti / arenillion y sector preifat a rhenti / arenillion y sector tai cymdeithasol. Y bwriad y tu ôl i hyn yw adlewyrchu'r llifodd arian gwahaniaethol a fyddai'n digwydd rhwng y ddau fath o landlord o ystyried fod tenant eisoes yn yr eiddo a bod unrhyw werth datblygol yn cael ei anwybyddu wrth i barhad y defnydd presennol gael ei gymryd yn ganiataol.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

- Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) - Mae'r cynllun yn cynnwys trosglwyddo prydles (ar werth enwol) asedau penodol y Cyngor, i sefydliadau gyda phwrrpas cymunedol sy'n bwriadu defnyddio'r asedau er budd y gymuned leol. Mae cytundebau'r brydles wedi'u hystyried; er bod risg a gwobrau gweithredol yn trosglwyddo i'r grŵp cymunedol, mae'r Cyngor o'r farn bod risg a gwobrwyo perchnogaeth yn aros gyda'r Cyngor ac felly mae gwerth yr asedau wedi aros ar Fantolen y Cyngor.
- Prydlesi eiddo Theatr Clwyd a Hamdden a Llyfrgelloedd – yn cynnwys trosglwyddo prydles asedau Cyngor penodol i sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli Theatr Clwyd a'r mwyafrif o ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd a oedd yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol yn flaenorol gan y Cyngor. Mae cytundebau'r brydles wedi'u hystyried; er bod risg a gwobrau gweithredol yn trosglwyddo i'r sefydliadau, mae'r Cyngor o'r farn bod risg a gwobrwyo perchnogaeth yn aros gyda'r Cyngor ac felly mae gwerth yr asedau wedi aros ar Fantolen y Cyngor. Mae dosbarthiad yr asedau hefyd wedi aros yn gyson ag ymdriniaeth y flwyddyn flaenorol. Cânt eu cydnabod fel Eiddo, Offer a Pheiriannau gweithredol, sy'n unol â'r dosbarthiad mwyaf addas i ddefnyddio'r asedau wrth eu cymharu â diffiniadau eraill asedau er enghraifft asedau dros ben ac asedau buddsoddiad.

Y prif ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif a nodwyd gan y Cyngor sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yw -

- Rhwymedigaethau Buddiannau Ymddeol - mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn datgelu ei rwymedigaeth buddiannau ymddeol yn unol â mesur a gofynion "Buddiannau Gweithwyr" SCRh 19. Mae amcangyfrif o'r ddyled bensiwn net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau ac amcangyfrifon cymhleth sy'n ymwneud â chyfradd y gostyngiad a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n codi, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiynau. Mae cwmni o actiwariaid yn ymwneud â hyn i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w defnyddio. Gwelir manylion pellach sy'n asesu sensitifrwydd amcangyfrifon yn Nodyn 43.
- Lleihad yng Ngwerth Asedau Ariannol - Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer amhariad ei symiau sy'n daladwy yn seiliedig ar oedran, math a pha mor adenilladwy yw pob dyled. Mae amcangyfrif rhesymol ar gyfer dyledion amheus a cholledion credyd disgwylidig wedi'u cwmpasu o fewn cyfrifon y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen, fodd bynnag yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni nid oes sicrwydd y bydd lwfans o'r fath yn ddigonol.
- Eiddo, Peiriannau ac Offer - Mae asedau'n cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ac yn adlewyrchu materion megis lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â mathau unigol o asedau, cost adnewyddu a chynnal a chadw tybiedig, amcangyfrif o oes ddefnyddiol heb ddarod yr ased.
- Defnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg asedau dros ben, asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu ac eiddo buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys datblygu amcangyfrifon a thybiaethau sy'n cyd-fynd â sut y byddai cyfranogwyr y farchnad yn prisio asedau tebyg. Cyhyd ag sy'n bosibl, mae thybiaethau'n seiliedig ar ddata gweladwy. Os nad oes data gweladwy ar gael defnyddir y wybodaeth orau sydd ar gael. Gan hynny, gall gwerthoedd teg amcangyfrifol amrywio o brisiau gwirioneddol a fyddai'n cael eu cyflawni mewn trafodion hyd braich ar y dyddiad adrodd.
- Mae ailbrisiad ar gyfer y categorïau ased anghyfredol canlynol yn cael eu cwblhau bob pum mlynedd ac yn cael eu cefnogi gan ymarfer mynegeo blynyddol yn y blynyddoedd cyfamserol, gan osgoi'r angen am ailbrisiadau mwy rheolaidd:
 - Tir ac Adeiladau Eraill
 - Asedau Dros Ben
 - Asedau Hawl i Ddefnyddio wedi'u mesur ar y gwerth presennol

Fel arall, cwblheir prisiad bwrdd gwaith ym mlwyddyn tri mewn achosion prin lle nad oes mynegai ar gael. Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw'r gwerth presennol yr asedau anghyfredol yn wahanol iawn i'r gwerth cario, ni fydd mynegeo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae cyfrifeg ar gyfer mynegeo yn dilyn yr un driniaeth â buddion a cholledion prisiad eraill. Mae mynegeion yn seiliedig ar sail prisio sy'n berthnasol i'r ased anghyfredol, er enghraifft defnyddir Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu fel mynegai ar gyfer asedau anghyfredol wedi'u prisio o dan y sail Costau Adnewyddu Dibrisiedig.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

37. DARPARIAETH AR GYFER AD-DALU BENTHYCIADAU ALLANOL

Mae Adran 22 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) (Diwygiad) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi isafswm darpariaeth refeniw o'r neilltu mewn perthynas ag ariannu gwariant cyfalaf a grëwyd y flwyddyn honno neu mewn unrhyw flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn honno.

	2025/26 £000	2024/25 £000
Cronfa'r Cyngor	10,563	7,568
CRT	1,777	1,729
Neilltuwyd o'r Derbyniadau Cyfalaf	217	209
	<u>12,557</u>	<u>9,506</u>

38. GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF

Mae cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn wedi'i nodi yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a gafaelwyd dan brydlesi ariannol a chontract Model Buddsoddi Cydweithredol (MIM)), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Pan ariennir gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau i refeniw gan fod asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn golygu bod cynnydd yn y gofyniad cyllido cyfalaf, mesuriad o'r gwariant cyfalaf a wnaed yn hanesyddol gan y Cyngor nad yw wedi'i ariannu eto. Roedd gofyniad cyllid cyfalaf y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 yn £454.561 miliwn (£373.118 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

	2025/26 £000	2024/25 £000
Buddsoddiad Cyfalaf		
Eiddo, peiriannau ac offer	67,416	92,390
Investment properties	612	433
REFCUS	4,206	6,967
Asedau Hawl i Ddefnyddio a gydnabuwyd ym flwyddyn	80,485	5,774
	<u>152,719</u>	<u>105,564</u>
 Ffynonellau Cyllid		
Derbyniadau cyfalaf	0	(1,838)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	(48,332)	(71,030)
Cronfeydd Cyfalaf / Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw	(10,386)	(9,053)
	<u>(58,718)</u>	<u>(81,921)</u>
 Cynnydd/(Lleihad) yn y gofyniad cyllido cyfalaf	 <u>94,001</u>	 <u>23,643</u>
 Cynnydd mewn benthyca â chymorth	 4,012	 4,017
Cynnydd mewn benthyca arall (digymorth)	9,504	13,852
Asedau Hawl i Ddefnyddio a gafwyd	80,485	5,774
	<u>94,001</u>	<u>23,643</u>

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

39. YMRWYMIADAU CYFALAF YN Y DYFODOL

O 31 Mawrth 2026, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i nifer o contractau adeiladu neu wella Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn 2026/27 a'r dyfodol. Mae'r prif ymrwymadau, sy'n fwy na £1.000 miliwn, i'w gweld isod:

Manylion Y Contract	Swm y contract £000	Taliadau hyd 31 Mawrth 2026 £000	Balans yn Eithriadol £000
Cronfa'r Cyngor			
B5129 – Cynllun Lon Fysiau Shotton.	3,735	1,348	2,387
	3,735	1,348	2,387

Yn ogystal â'r ymrwymadau a restrwyd yn y tabl uchod, mae gan y Cyngor nod strategol o fodloni targed Llywodraeth Cymru i gael holl dai cymdeithasol i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae cynlluniau gwaith SATC y Cyngor yn unol â'r Strategaeth Rheoli Asedau wedi cael eu tendro ac mae atodlenni prisio wedi cael eu cytuno gyda chontractwyr. Nid yw'r Cyngor o dan unrhyw ymrwymiad i adnewyddu unrhyw nifer o dai yn amodol.

40. PRYDLESU

Bu i'r Cyngor fabwysiadu SAARh 16 (Prydlesi) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024. Prif effaith gofynion SAARh 16 yw, ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd amdanynt yn flaenorol fel prydlesi gweithredu (h.y. heb gydnabod y cerbydau, peiriannau, offer, eiddo a thir ar brydles fel ased, a rhenti yn y dyfodol fel atebolrwydd), mae ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles bellach wedi'u cynnwys ar y fantolen o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Mae'r Cyngor wedi dewis cymhwyso eithriadau i asedau gwerth isel (o dan £0.010 miliwn) ac i brydlesi tymor byr h.y. prydlesi presennol sy'n dod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2026, a phrydlesi newydd gyda hyd o lai na 12 mis.

Rhenti Prydlesai

Fel prydlesai, mae'r Cyngor wedi dosbarthu prydlesi yn flaenorol fel prydlesi gweithredu neu gyllid yn seiliedig ar ei asesiad ynghylch a wnaeth y brydles drosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n berthnasol i berchnogaeth yr ased gwaelodol i'r Cyngor. O dan SAARh 16, mae'r Cyngor yn cydnabod asedau hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydlesi ar gyfer y rhan fwyaf o brydlesi.

Prydlesi Eithriedig SAARh 16

Dosbarthiad Asedau	2025/26 £000	2024/25 £000
Tir	4	4
Adeiladau	0	29
Cerbydau, peiriannau ac offer	193	170
	197	203

Mae isafswm taliadau'r prydlesau sy'n ddyledus yn y dyfodol fel a ganlyn –

	Tir £000	Adeiladau £000	Cerbydau, Peiriannau ac Offer £000	Cyfanswm £000
Llai na blwyddyn	4	0	179	183
1 - 5 mlynedd	14	1	485	500
Mwy na 5 mlynedd*	5	0	179	184
	23	1	843	867

* Cyfrifir unrhyw gytundeb penagored hyd at 2032/33 yn unol ag oes cyfartalog cyffredinol y prydlesi hiraf

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Prydlesi SAARh 16

Mae isafswm taliadau'r prydlesau'n cynnwys y symiau canlynol –

	31 Mawrth 2026 £000	Ad-dalwyd £000	Newydd £000	31 Mawrth 2025 £000
Rhwymedigaethau prydles ariannol (gwerth net presennol yr isafswm taliadau prydles)				
Cyfredol	7,159	(1,004)	4,131	4,032
Anghyfredol	75,810	(2,157)	73,549	4,417
	82,969	(3,161)	77,680	8,449
Costau cyllid sy'n daladwy yn y blynyddoedd i ddod	78,533	(789)	76,835	2,487
	161,502	(3,950)	154,515	10,936

Bydd isafswm taliadau prydles a dyledion prydles ariannol yn daladwy dros y cyfnodau canlynol -

	Isafswm Taliadau Prydles		Rhwymedigaethau Prydles Ariannol	
	31 Mawrth 2026 £000	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2026 £000	31 Mawrth 2025 £000
Dim mwy nag un flwyddyn	12,706	4,403	7,159	4,032
Mwy nag un flwyddyn ond dim mwy na phum	30,597	2,800	11,062	2,206
Mwy na phum mlynedd	118,198	3,733	64,748	2,211
	161,501	10,936	82,969	8,449

MIM

Mae cynlluniau MIM yn brosiectau ar gyfer dylunio, adeiladu, cyllido a chynnal asedau'r sector cyhoeddus gan bartner sector preifat, yn achos y Cyngor hwn, Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCO). Ar ddiwedd y contract 25 mlynedd, bydd yr asedau'n cael eu trosglwyddo i berchnogaeth y Cyngor. Yn gyfnewid, mae'r Cyngor yn gwneud taliadau gwasanaeth blynyddol, sy'n cynnwys cost adeiladu, cynnal a chadw, cylch bywyd ac ariannu'r prosiect. Mae ysgolion a ariennir gan MIM yn cael eu cydnabod fel Asedau Hirdymor ar y Fantolen ynghyd â'r elfen atebolrwydd heb ei fynegeo (cyfalaf) o'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol. Mae'r elfen gyfalaf o'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol (y 70% cychwynnol heb ei fynegeo) wedi'i rannu rhwng Isafswm Darpariaeth Refeniw a llog ac fe godir ffi gwasanaeth (30% cychwynnol heb ei fynegeo) i refeniw yn flynyddol. Mae LIC yn ariannu 84.4% o gyfanswm y Tâl Gwasanaeth Blynyddol.

Rhenti Prydleswr

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo dan brydlesi gweithredu. Yn 2025/26, cyfanswm y rhenti prydlesi a dderbyniwyd oedd £2.607 miliwn (£2.606 miliwn yn 2024/25).

Yr isafswm taliadau prydles sy'n dderbyniadwy dan brydlesi gweithredu yn y dyfodol yw:

	Tir £000	Adeiladau £000	Cyfanswm £000
Prydlesau Gweithredu Prydleswr			
Dim mwy nag un flwyddyn	413	1,744	2,157
Mwy nag un flwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd	1,572	7,002	8,574
Mwy na phum mlynedd*	20,826	4,598	25,424
	22,811	13,344	36,155

*Cyfrifir unrhyw gyntdeb penagored hyd at 2032/33 yn unol ag oes cyfartalog cyffredinol y prydlesi hiraf

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

41. SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI'U CYFLWYNO OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU 2026/27 wedi cyflwyno'r newidiadau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol i'r safonau cyfredol. Mae'r newidiadau hyn yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu'r Cyngor sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2026 neu gyfnodau diweddarach ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i bolisiau cyfrifo yng nghyfrifon y flwyddyn nesaf, ond mae'r Cyngor wedi dewis peidio â'u mabwysiadu'n gynnar.

- Diwygiadau yn FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygio Asedau treftadaeth) a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2024.
- Diwygiadau mewn Dosbarthu a Mesur Offerynnau Ariannol (diwygio IFRS 9 ac IFRS 7) a gyflwynwyd ym mis Mai 2024.
- Gwelliannau blynyddol mewn safonau cyfrifyddu IFRS – cyhoeddwyd Rhifyn 11 ym mis Gorffennaf 2024.
- Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Dibynnu ar Natur (diwygio IFRS 9 ac IFRS 7) a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Ni ddisgwyli'r newidiadau hyn gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Cyngor

42. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae offerynnau ariannol sydd wedi'u cynnwys ar y Fantolen yn cynnwys y dyledion ariannol a'r asedau canlynol:

Credydwy'r (nodyn 17) yn cynnwys £16.978 miliwn arall (£15.330 miliwn yn 2024/25) nad yw'n cwrdd â'r diffiniad angenrheidiol i'w gynnwys fel offeryn ariannol.

Dyledwy'r (nodiadau 12 & 13) yn cynnwys £75.504 miliwn arall (£87.843 miliwn yn 2024/25) nad yw'n cwrdd â'r diffiniad angenrheidiol i'w gynnwys fel offeryn ariannol.

	Tymor Hir		Cyfredol	
	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio				
Prif	324,274	311,132	38,057	50,659
Llog a Gronnwyd	0	0	3,671	3,339
Fenthyciadau	324,274	311,132	41,728	53,998
Dyled arian parod	0	0	6,475	1,926
Arian parod ac arian cyfwerth ag	0	0	6,475	1,926
Phrydlesau	75,810	4,417	7,159	4,032
Dyledion gohiriedig	75,810	4,417	7,159	4,032
Masnachu Derbyniadwy	493	614	37,905	37,604
O Fewn Credydwy'r	493	614	37,905	37,604
Cyfanswm Dyledion Ariannol	400,577	316,163	93,267	97,560
Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio				
Prif	3,664	3,664	0	0
Llog a Gronnwyd	0	0	0	0
Buddsoddiadau	3,664	3,664	0	0
Arian parod a chywerthoedd arian parod	0	0	26,578	16,810
Llog a Gronnwyd	0	0	97	95
Arian parod a chywerthoedd arian parod	0	0	26,675	16,905
Symiau Masnachu Derbyniadwy	49	49	24,355	21,471
Benthyciadau	12,261	12,391	0	0
O Fewn Dyledwy'r	12,310	12,440	24,355	21,471
Cyfanswm yr Asedau Ariannol	15,974	16,104	51,030	38,376

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Yn y llinell arian a chyfwerth ag arian ar y fantolen mae asedau a dyledion ariannol yn cael eu gosod yn erbyn:-

	31 Mawrth 2026 Cyfanswm Net £000	31 Mawrth 2025 Cyfanswm Net £000
Asedau ariannol-cyfrifon banc mewn credyd	26,675	16,905
Rhwymedigaethau ariannol - gorddrafft arian parhau	(6,475)	(1,926)
Adroddwyd sefyllfa net ar y Fantolen	20,200	14,979

Benthyciadau Meddal Materol

Benthyciadau meddal yw'r rhai hynny a roddir ar gyfraddau is na'r farchnad i gefnogi blaenoriaethau gwasanaeth y Cyngor. Ystyrir bod y benthyciadau i NEW Homes i adeiladu cartrefi fforddiadwy i'w rhentu yn Sir y Fflint yn fenthyciadau meddal. Y symudiadau ym malansau benthyciadau meddal materol yn ystod y flwyddyn yw –

	2025/26 £000	2024/25 £000
Swm dwyn ymlaen agoriadol benthyciadau	10,890	10,133
Benthyciadau newydd a wnaed yn y	0	861
Addasiad gwerth teg ar adnabyddiad	0	(5)
Llog wedi cronni	(2)	6
Symiau a ad-dalwyd	(217)	(208)
Symudiadau mewn symiau disgownt	105	103
	10,776	10,890

Cafodd benthyciadau meddal eu priso drwy roi disgownt ar y taliadau cytundebol ar gyfradd amcangyfrifedig y farchnad ar gyfer benthyciad tebyg. Pennwyd cyfradd llog y farchnad gan ddefnyddio arweiniad Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn -

	2025/26		2024/25	
	Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol	Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol
	Mesurir ar Gost Amorteiddiedig		Mesurir ar Gost Amorteiddiedig	
	£000	£000	£000	£000
Treuliau llog	(20,917)	0	(15,521)	0
Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg	(20,917)	0	(15,521)	0
Incwm llog	0	1,480	0	2,814
Llog ac incwm buddsoddiadau	0	1,480	0	2,814
Elw/(colled) net ar gyfer y flwyddyn	(20,917)	1,480	(15,521)	2,814

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Gwerth Teg Asedau a Dyledion ar Gost wedi'i Hamorteiddio

Mae asedau ariannol a phob ymrwymiad ariannol nad ydynt yn ddeilliannol yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio. Mae eu gwerthoedd teg yn y tabl isod wedi'u hamcangyfrif drwy gyfrifo gwerth net presennol y ffrydiau arian parod cytundeb sy'n weddill fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026, gan ddefnyddio'r dulliau a'r tybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau gan y Cyngor wedi'u prasio trwy roi gostyngiad ar gyfer y llif arian cytundebol dros oes gyfan yr offeryn ar y gyfradd farchnad briodol i fenthyciadau i awdurdodau lleol.
- Mae cyfraddau gostyngiad ar gyfer benthyciadau "Opsion Benthyciwr Opsion Benthycwr" (LOBO) wedi eu gostwng i adlewyrchu gwerth y dewisiadau creiddiol. Mae maint y gostyngiad wedi ei gyfrifo yn defnyddio meddalwedd perchnogol.
- Nid yw ad-daliad cynnar yn cael ei gydnabod ar gyfer unrhyw offeryn ariannol.
- Cymerir bod gwerth teg offerynnau byrdymor, yn cynnwys taladwyon masnachu a symiau i'w derbyn, tua'r un faint â'r swm cario o ystyried yr amgylchedd cyfraddau llog isel a sefydlog.

Cyfrifir y gwerthoedd teg fel a ganlyn, esbonnir yr hierarchaeth gwerth teg ym Mholisiau Cyfrifo'r Cyngor.

Lefel Gwerth Teg	31 Mawrth 2026		31 Mawrth 2025	
	Swm i'w gario	Gwerth Teg	Swm i'w gario	Gwerth Teg
	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau Ariannol				
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	2	313,586	285,703	296,702
LOBO	2	18,950	19,455	18,950
		332,536	305,158	315,652
Asedau ariannol				
Tystysgrifau Adneuon	2	0	0	0

Mae'r gwerth teg yn is na'r swm cario oherwydd mae'r gyfradd llog sydd i'w thalu yn is na'r cyfraddau sydd ar gael ar fenthyciadau tebyg ar ddyddiad y Faint Cynhwysol. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog isod na chyfraddau presennol y farchnad yn lleihau swm y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dalu petai'r benthyciwr yn gofyn, neu'n cytuno i ad-dalu'r benthyciad yn gynt.

Mae'r Cyngor yn derbyn Benthyciadau gan y cynllun Salix Energy Efficiency a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Salix Finance a'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu benthyciadau di-log a llog isel. Nid yw'r Cyngor yn cyfrif y benthyciadau hyn fel benthyciadau meddal oherwydd nid yw'r addasiad gwerth teg yn sylweddol. Defnyddiwyd y dull hwn hefyd ar gyfer benthyciadau eraill Llywodraeth Cymru

Datgelu natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd CIPFA a Chod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, y ddau wedi'u hadolygu yn Rhagfyr 2021.

Yn unol â Chod Rheoli Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheoli Trysorlys sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn er mwyn rheoli'r risgiau hyn.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi yn unol â Chanllaw i Lywodraeth Leol ar Fuddsoddi, gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Canllaw yn amlygu y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'i Ymarferion Rheoli Trysorlys yn gobeithio cyflawni cydbwysedd addas rhwng risg a dychwelyd a chost. Mae'r arferion yn cynnwys risgiau ariannol megis, risg credyd, risg hylifedd a risg marchnad.

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei adael yn agored i amryw o risgiau ariannol -

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor.
- Risg hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor arian ar gael i gyflawni ei ymrwymiad i wneud taliadau.
- Risg y farchnad - y posibilrwydd y gallai'r Cyngor wynebu colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risg gyffredinol y Cyngor yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol ac mae'n ceisio lleihau unrhyw effaith bosib' ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau. Mae rheoli risg yn cael ei wneud gan dîm trysorlys canolog, dan bolisiau a gymeradwyir gan Gyngor Sir y Fflint yn y Datganiad Polisi a Strategaeth. Mae Sir y Fflint yn darparu egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg cyffredinol, yn ogystal â pholisiau ysgrifenedig ar feysydd penodol fel risg cyfraddau llog, risg credyd a buddsoddi arian dros ben.

Risg - Rhwymedigaethau

Mae'r Cyngor wedi codi cyllid tymor hir naill ai drwy fenthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus neu'r farchnad drwy LOBO.

- PWLB – Mae'r ddyled hon ar gyfradd sefydlog, felly mae perygl cyfradd llog. Os bydd y cyfraddau'n disgyn yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn talu mwy na chyfradd bresennol y farchnad, ond, ystyrir ei bod yn fwy o fudd cael sicrwydd cyllideb ar daliadau llog y dyfodol mewn amgylchedd cyfradd llog isel. Rheolir risg hylifedd drwy'r proffil aeddfedu dyled a dangosydd darbodus nad yw'n caniatáu mwy nag 20% o ddyled i gyrraedd aeddfedrwydd mewn unrhyw flwyddyn.
- LOBO - Mae gan bob LOBO gyfradd llog sefydlog rhwng 12 a 23 mis ac yna gyfradd sefydlog bellach ar gyfer y cyfnod y benthyciad. Fodd bynnag gall y benthyciwr alw'r benthyciad yn ôl ar ôl cyfnod penodol o amser. Defnyddir LOBO oherwydd bod ganddynt gyfradd llog is na Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y risgiau o ran cyfraddau'n codi a gorfod ad-dalu'r benthyciad, sy'n arwain at risg ail-ariannu ar adeg o gyfraddau llog uwch.

Risgiau - benthyciadau a symiau derbyniadwy

Buddsoddiadau hirdymor -

- Cyfeirir at fuddsoddiadau o fwy na 1 blwyddyn fel buddsoddiadau amhenodol oherwydd y risg ychwanegol o ran cyfraddau llog. Mae terfyn o £5 miliwn ar gyfer buddsoddiadau hirdymor a gweithdrefnau ychwanegol i'w hawdurdodi gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol.
- Mae adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys rhywfaint o risg credyd ac mae hyn yn cael ei reoli yn defnyddio tri asiantaeth sgorio. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol, ac mae buddsoddiadau yn cael eu gwneud yn amodol ar y cyfyngiadau ariannol a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Sector	Terfyn amser	Terfyn cyd-barti	Terfyn sector
Llywodraeth y DU	50 mlynedd	Diderfyn	n/a
Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth	25 mlynedd	£4miliwn	Diderfyn
Buddsoddiadau sicredig*	25 mlynedd	£3miliwn	Diderfyn
Banciau (ansicredig)*	13 mis	£3miliwn	Diderfyn
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)*	13 mis	£3miliwn	Diderfyn
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)*	5 mlynedd	£2miliwn	Diderfyn
Cronfeydd marchnad arian*	n/a	£4miliwn	Diderfyn
Cronfeydd cyfun strategol	n/a	£1miliwn	£5miliwn
Ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tŷrol	n/a	£1miliwn	£1miliwn
Buddsoddiadau eraill*	5 mlynedd	£2miliwn	£10miliwn

* Isafswm statws credyd: Bydd buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A-. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth penodol o fuddsoddiad, fel arall defnyddir statws credyd y cyd-barti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi fyth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

Mae'r dadansoddiad isod yn dangos yr effaith ariannol mewn achos o gynydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog yn seiliedig ar fenthyciad net o 31 Mawrth 2026.

Effaith cynnydd o 1% yn y gyfradd £000

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
(0.074)	(0.029)	0.007

Effaith gostyngiad o 1% yn y gyfradd £000

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
0.220	0.219	0.182

Symiau derbyniadwy eraill

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid wneud trefniadau i dalu arian sy'n ddyledus i'r Cyngor, ar sail eu gallu i dalu. Gofynnir i gwsmeriaid lenwi ffurflen asesiad ariannol a chadarnhau'n ysgrifenedig y swm y cytunwyd arno a'r dyddiad y bydd y trefniant yn dechrau. Mae gofyn iddynt hefyd roi gwybod i swyddogion y Cyngor am amgylchiadau mewn perthynas â'u gallu i dalu y maent yn dymuno i'r swyddogion eu hystyried wrth wneud yr asesiad.

Benthyciadau i Is-gwmnïau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu tai fforddiadwy newydd ar draws y sir i fynd i'r afael â'r prinder tai a nodwyd. Mae benthyciad wedi'i ganiatáu i NEW Homes i adeiladu tai fforddiadwy i'w gosod ar rent yn y Fflint ar gyfraddau llog is na'r farchnad. Bydd y benthyciad yn cael ei ad-dalu o renti. Mae NEW Homes yn eiddo llwyr i'r Cyngor ac mae gan y Cyngor lefel uchel o reolaeth dros ei weithredoedd, gyda'r Cabinet yn gorfod cymeradwyo ei gynllun busnes bob blwyddyn. Mae'r holl asedau sy'n eiddo i NEW Homes yn cael eu darparu fel sicrwydd yn erbyn y benthyciad ac ar ddyddiad y fantolen roedd gwerth yr asedau'n fwy na'r benthyciad. Mae hyn oll yn lliniaru y erbyn y risg credyd posibl pe na bai NEW Homes yn cyflawni ei ddyletswydd i ad-dalu'r benthyciad.

43. PENSIYNAU

Pensiynau – Athrawon

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon; cynllun aml-gyflogwr â buddion diffiniedig sy'n darparu buddion penodol i athrawon ar eu hymddeoliad. At ddibenion cyfrifyddu caiff ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig gan nad yw'r Cyngor yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gyda digon o ddibynadwyedd. Nid yw'r Cynllun wedi'i gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa ddybiannol i gyfrifo cyfradd gyfraniadau cyflogwyr.

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at y cynllun drwy wneud cyfraniadau ar sail canran cyflogau pensiynadwy athrawon. Yn 2025/26 talodd y Cyngor £18.978 miliwn (£18.498 miliwn yn 2024/25), sy'n cynrychioli 28.68% (cyfartaledd) o dâl pensiynadwy athrawon (28.68% yn 2024/25). Amcangyfrifir y bydd cyfraniad 2026/27 yn £18.793 miliwn, sef 28.49% o dâl pensiynadwy athrawon.

Nid yw'r Cyngor yn atebol i'r cynllun dros unrhyw rwymedigaeth endidau arall dan y cynllun.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â'r buddiannau y mae wedi'u dyfarnu yn ôl disgrisiwn yn dilyn ymddeoliadau cynnar (h.y. ychwanegu blynedd), ynghyd â'r cynnydd cysylltiedig, y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Maent yn cael eu cyfrifo ar sail buddiannau diffiniedig fel y manylir yn yr adran ganlynol.

Pensiynau – Gweithwyr Eraill

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ar ôl cyflogaeth. Mae swyddogion a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Cronfa Bensiynau Clwyd, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir y Fflint. Mae hwn yn gynllun â buddion diffiniedig a gaiff ei gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriedir i gydbwysu dyledion pensiynau gydag asedau buddsoddi.

Mae trefniadau ar gyfer rhoi buddiannau â disgrisiwn ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar yn drefniant buddiannau diffiniedig na chaiff ei ariannu, lle caiff dyledion eu cydnabod pan gaiff y buddiannau eu rhoi. Nid oes unrhyw asedau wedi'u cynllunio i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn hyn.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Panel Cronfa Bensiynau Clwyd yw trefniadau llywodraethu'r cynllun. Gosodir y polisi yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn.

Prif risgiau'r cynllun i'r Cyngor yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. codi arian ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, llog bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun.

Mae gwybodaeth bellach am gyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd ar gael yn Adroddiad Blyneddol Cronfa Bensiynau Clwyd sydd ar gael yn mss.clwydpensionfund.org.uk.

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Trafodion yn ymwneud â Buddiannau Ymddeol

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i chydhabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu yn y pendraw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae angen ei wneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ymddeol ei wrthdroi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trosglwyddiadau sydd wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad am Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau buddion dewisol	
	2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Dadansoddiad o Wariant Gwasanaethau -				
Costau cyfredol darparu gwasanaethau	14,309	19,572	0	0
Costau darparu gwasanaeth yn y gorffennol/(elw)	3	0	0	0
Cwtogiadau	127	307	0	0
Gwariant Gweithredu Arall				
Treuliau gweinyddu	959	916	0	0
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi				
Treuliau llog net	(5,961)	(1,019)	1,367	1,334
Llog ar derfyn asedau	5,365	538	0	0
Tâl net ar y gweddill/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau -	14,802	20,314	1,367	1,334
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				
Ailfesur rhwymedigaeth y buddion diffiniedig net -				
Elw ar asedau'r cynllun	(18,320)	(38,666)	0	0
Elw a (cholled) actwaraidd - ennill neu golli profiad	(4,988)	(61)	(454)	2
Elw a (cholled) actwaraidd - rhagdybiaethau ariannol	10,696	118,543	155	1,768
Elw a (cholled) actwaraidd - rhagdybiaethau demograffig	3,755	1,793	87	99
Addasiad terfyniad asedau	3,102	(80,990)	0	0
Cyfran Cyngor Sir Y Fflint o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall sy'n ymwneud â NWEAB*	0	(8)	0	0
Tâl net ar incwm a gwariant cynhwysfawr arall -	(5,755)	611	(212)	1,869
Tâl Net Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant -	9,047	20,925	1,155	3,203
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
Gwrthdroi taliadau a wnaed ar y gweddill/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer buddion ymddeol yn unol ag IAS 19	(14,802)	(20,314)	(1,367)	(1,334)
Gwir swm a godwyd ar falans cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn				
Cyfraniad cyflogwyr sy'n dyladwy i'r cynllun	20,557	19,695	2,895	2,990
Rhan Cyngor Sir y Fflint o ffioedd NWEAB yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor o fewn blwyddyn*	0	8	0	0
Debyd/(credyd) net i'r symudiad yn y datganiad o gronfeydd wrth gefn	5,755	(611)	1,528	1,656

*NWEAB wedi'i ymgorffori i'r NWCJC 2025/26

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Aседau Pensiynau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Buddiannau Ymddeol cydnabyddedig yn y Fantolen

Mae'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y Fantolen yn codi o rwymedigaeth y Cyngor mewn perthynas â'i gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	Gwerth y rhwymedigaethau presennol		Gwerth Teg asedau		Addasiad terfyniad asedau		Ymrwymiad net sy'n deillio o rhwymedigaeth buddion diffiniedig	
	2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(762,221)	(746,090)	856,986	838,592	(94,765)	(92,502)	0	0
Trefniadau buddion dewisol	(23,870)	(25,186)	0	0	0	0	(23,870)	(25,186)
	(786,091)	(771,276)	856,986	838,592	(94,765)	(92,502)	(23,870)	(25,186)

Mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn adlewyrchu'r ymrwymïadau tymor hir gwaelodol sydd gan y Cyngor mewn perthynas â buddiannau ymddeol sy'n ddyledus.

Cysoni gwerth presennol dyledion y cynllun:-

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau buddion dewisol	
	2025/26 £000	2024/25 £000	2025/26 £000	2024/25 £000
1 Ebrill	746,090	837,377	25,186	28,711
Costau cyfredol darparu gwasanaethau	14,309	19,572	0	0
Costau llog	42,368	40,269	1,367	1,334
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	7,421	7,064	0	0
(Elw) a cholled actwaraidd - ennill neu golli profiad	4,988	61	454	(2)
(Elw) a cholled actwaraidd - rhagdybiaethau ariannol	(10,696)	(118,543)	(155)	(1,768)
(Elw) a cholled actwaraidd - rhagdybiaethau demograffig	(3,755)	(1,793)	(87)	(99)
Buddion a dalwyd	(38,634)	(38,224)	(2,895)	(2,990)
Costau darparu gwasanaethau yn y gorffennol	3	0	0	0
Cwtogiadau	127	307	0	0
31 Mawrth	762,221	746,090	23,870	25,186

Cysoniad o'r gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun:-

	2025/26 £000	2024/25 £000
1 Ebrill	838,592	848,351
Incwm llog	48,329	41,288
Treuliau gweinyddu	(959)	(916)
Elw ar asedau'r cynllun	(18,320)	(38,666)
Cyfraniadau'r cyflogwr	20,557	19,695
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	7,421	7,064
Buddion a dalwyd	(38,634)	(38,224)
31 Mawrth	856,986	838,592

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol:-

	2025/26		2024/25	
	£000	£000	£000	£000
Buddsoddiadau ecwiti:				
Byd-Eang dyfynedig*	137,975		128,934	
		137,975		128,934
Bondiau:				
Tramor Arall	137,118		110,778	
Buddsoddiadau a yrrir gan rwymedigaethau*	246,812		198,325	
		383,930		309,103
Eiddo:				
DU*	27,424		31,741	
Tramor	0		4,277	
		27,424		36,018
Arian Parod:				
Offerynnau Arian Parod	77,986		40,001	
		77,986		40,001
Arall:				
Ecwiti Preifat	135,404		128,975	
Isadeiledd	68,559		66,333	
Coed ac Amaeth	1,714		2,516	
Credyd Preifat	23,996		28,261	
Gronfa Twf Amrywiol	0		98,451	
		229,673		324,536
		856,986		838,592

* Dosbarth ased sydd â phris marchnad wedi'i ddyfynnu mewn marchnad weithredol.

Mae'r cynllun yn cadw ymrwymïadau mewn amrywiaeth o offerynnau ariannol sydd yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys risg credyd, risg cyd-barti, risg hylifedd, risg y farchnad a risg y gyfradd gyfnewid. Adolygir gweithdrefnau rheoli risg yn flynyddol ac maent yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol ac ar weithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hyn. Mae'r polisi presennol yn ceisio gostwng y risg drwy arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau ased, rhanbarthau buddsoddi a rheolwyr cronfeydd.

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymïadau

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati. Mae'r rhwymedigaethau wedi'u hasesu gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni annibynnol o actiwariaid; ac mae amcangyfrifon ar gyfer y Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2025. Mae'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari fel a ganlyn –

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau buddion dewisol	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
Rhagdybiaethau Marwolaeth				
Hirhoedledd pensiynwyr cyfredol 65 oed -				
Dynion	21.0bl	21.1bl	21.0bl	21.1bl
Merched	23.6bl	23.6bl	23.6bl	23.6bl
Hirhoedledd pensiynwyr 65 oed yn y dyfodol -				
Dynion	22.1bl	22.4bl	n/a	n/a
Merched	25.2bl	25.4bl	n/a	n/a
Cyfradd Chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr)	2.9%	2.6%	2.9%	2.7%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.2%	3.9%	n/a	n/a
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	3.0%	2.7%	3.0%	2.8%
Cyfradd gostwng rhwymedigaethau'r cynllun	6.2%	5.8%	6.0%	5.7%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u cyfrifo trwy newid rhagdybiaethau perthnasol, gan dybio bod yr holl newidynnau eraill yn aros yr un fath. Nid yw'r dull hwn o reidrwydd yn realistig gan fod rhai rhagdybiaethau yn gysylltiedig; er enghraifft, os yw'r senario yn dangos chwyddiant uwch na'r disgwyl, efallai y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'r cynnyrch nominal ar fondiau corfforaethol hefyd yn uwch. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn ynysu un effaith o un arall.

	£000
Ymrwymiad net sy'n deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig (ac eithrio effaith terfyn asedau)	70,895
<u>Darlun o'r ddyled net - newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraid/enillion ar fuddsoddiad</u>	
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	54,423
Cyfradd Chwyddiant (cynnydd o 0.25%)	44,639
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.25%)	77,339
Cyfradd gostwng (cynnydd o 0.5%)	120,872
Newid yn Enillion Buddsoddi 25/26 (cynnydd o 1%)	89,289
Newid yn Enillion Buddsoddi 25/26 (lleihad o 1%)	72,255

Effaith ar Lifoedd Arian

Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r cynllun yn gofyn am brisiad actiwaraid pob tair blynedd. Mae cyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr wedi'u pennu gan ystyried eu hamgylchiadau unigol. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfraniadau gael eu pennu gyda golwg ar dargedu diddyledrwydd y cynllun, ac mae'r darpariaethau manwl wedi'u nodi yn Natganiad Strategaeth Cyllido Cronfa Bensiwn Clwyd. Cafodd y prisiad diweddaraf ei wneud ar 31 Mawrth 2025, a dangosodd ddiffyg asedau yn erbyn rhwymedigaethau o £72.438 miliwn ar y dyddiad hwnnw; sy'n cyfateb i lefel ariannu o 109.8%. Mae cyflogwyr y cynllun yn talu cyfraniadau ychwanegol am gyfnod o 12 mlynedd.

Cyfanswm y cyfraniadau y disgwylir y cânt eu gwneud i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor yn y flwyddyn at 31 Mawrth 2027 yw £16.674 miliwn.

Hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw 14 mlynedd, 2025/26 (17 mlynedd yn 2024/25).

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Effaith Dyfarniad 'McCloud'

Daeth y datrysiad ar gyfer McCloud yn gyfraith o fis Hydref 2023. Un o nodweddion allweddol y datrysiad yw ymestyn y cynllun cyflog terfynol cynhaliol i bob aelod a oedd mewn cynllun sector cyhoeddus ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac sydd naill ai'n parhau i fod yn weithredol neu wedi gadael gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae effaith amcangyfrifedig dyfarniad McCloud wedi'i gynnwys yng nghyfrifon y Cyngor ers 2018/19 yn unol â'r datrysiad, ac mae'n seiliedig ar y data a ddarparwyd ar gyfer y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar.

Achos Llys Virgin Media

Ym mis Mehefin, canfu'r Uchel Lys yn yr achos Virgin Media bod newidiadau i fuddion aelodau mewn contractau â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio rhwng 1996 a 2016 angen tystysgrif actiwari yn unol ag adran 37 Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993, a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn yn cael eu hystyried yn annilys. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i hawliau gwasanaeth y gorffennol a hawliau gwasanaeth y dyfodol, ac i newidiadau er niwed neu fudd aelodau'r cynllun. Cafodd y dyfarniad ei apelio ym mis Mehefin 2024, ond cafodd ei wrthod.

Yn fwy diweddar, ar Fehefin 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth ei fwriad i gyflwyno deddfwriaeth i roi gallu i'r cynlluniau pensiwn a effeithiwyd arnynt, i gael cadarnhad actiwaraid ysgrifenedig ôl-weithredol bod y newidiadau i fuddion hanesyddol yn bodloni'r safonau angenrheidiol. Mae deddfwriaeth drafft wedi cael ei gyflwyno i addasiadau'r Llywodraeth i'r Bil Cynlluniau Pensiwn, ond mae hyn yn destun newid ac ni fydd y Bil yn cael ei weithredu nes o leiaf Gwanwyn 2026.

O ystyried yr uchod, nid yw'r actiwari yn ceisio gwneud unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniad Virgin Media.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI

Mae Datganiad Incwm a Gwariant y CRT yn dangos y gost economaidd yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o renti a grantiau'r llywodraeth. Mae cynghorau codi rhenti i dalu am wariant yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol; gallai hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y cynnydd neu'r gostyngiad yn y flwyddyn, ar y sail y mae'r rhenti yn cael eu codi, yn Natganiad Symudiadau'r Cyfrif Refeniw Tai.

	2025/26 £000	£000	2024/25 £000	£000
Gwariant				
Atgyweirio a chynnal a chadw		15,463		21,085
Rheoli a goruchwyllo		5,587		5,527
Gwasanaethau Arbenigol		2,852		2,737
Rhenti, ardrethi, trethi a thaliadau eraill		484		296
Dibrisiant ac amhariad yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol		100,163		25,113
Costau rheoli dyledion		43		48
Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyddion		165		401
		<u>124,757</u>		<u>55,207</u>
Incwm				
Rhenti anheddau (gros)	42,552		42,516	
Rhenti safleoedd heblaw anheddau (gros)	<u>286</u>		<u>321</u>	
		42,838		42,837
Taliadau am wasanaethau a chyfleusterau		740		483
Ad-dalu costau		492		454
Cyfraniad tuag at wariant		689		832
		<u>44,759</u>		<u>44,606</u>
Cost net gwasanaethau y CRT fel y mae wedi ei gynnwys yn natganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yr awdurdod cyfan		79,998		10,602
Gwariant Gweithredu Eraill				
Rhwyd (elw) / colled ar waredu asedau cyfredol		0		(47)
Gwaith gweinyddol, treuliau ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net		59		57
Ariannu a Buddsoddi Incwm a Gwariant				
Llog taladwy a thaliadau tebyg		5,498		5,414
Llog ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net		14		20
Symudiad mewn colledion credyd disgwylledig ar asedau ariannol		(1)		(236)
Trethiant Lleol ac (Incwm) Grant Amhenodol				
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau sy'n Dderbyniadwy		(17,697)		(16,517)
Cyfanswm (gwarged)/diffyg ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y CRT		<u>67,871</u>		<u>(707)</u>

CYFRIF REFENIW TAI - DATGANIAD YNGLŶN Â'R SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN A NODIADAU I'R DATGANIAD INCWM A GWARIANT

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae'r arian dros ben / diffyg ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y CRT ar gyfer y flwyddyn yn cysoni i'r arian dros ben / diffyg ar gyfer y flwyddyn ar y CRT statudol.

	Nodyn (o nodiadau craidd)	2025/26 £000	2024/25 £000
Ar 1 Ebrill		6,065	7,302
Gwarged/(diffyg) ar ddatganiad incwm a gwariant y CRT		(67,871)	707
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		(67,871)	707
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau	7	70,144	(1,944)
Cynnydd/(gostyngiad) yn ystod y flwyddyn ar y CRT		2,273	(1,237)
Ar 31 Mawrth		8,338	6,065

1. DEDDFWRIAETH

Mae'r CRT, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn adlewyrchu rhwymedigaeth statudol i roi cyfrif ar wahân am ddarpariaeth tai awdurdod lleol. Mae'n dangos yr elfennau mawr o wariant refeniw tai (cynnal a chadw, ad-daliadau rhent a gweinyddu) a chostau ariannu cyfalaf, a sut mae'r rhain yn cael eu bodloni drwy rent, cymhorthdal ac incwm arall.

2. STOC TAI

Y math a nifer o anheddau oedd:-

Math	31 Mawrth 2026 Nifer	31 Mawrth 2025 Nifer
Tai	4,122	4,116
Fflatiau	1,436	1,436
Maisonettes	10	10
Byngalos	1,805	1,805
	7,373	7,367

3. ÔL-DDYLEDION RHENT

Mae cyfanswm y rhenti yn cynnwys, yn ogystal â'r elfen rhent sylfaenol, y symiau sy'n ddyledus am filiau dŵr / carthffosiaeth, ffioedd gwresogi, yswiriant cartref, trwyddedau teledu cymunedol a TAW ar rai rhenti garejis. Ni ellir nodi'r elfennau rhent unigol hyn ar wahân i'r cyfanswm cyfan.

Dadansoddiad o ôl-ddyledion	31 Mawrth 2026 £000	31 Mawrth 2025 £000
Rhent		
Tenantiaid cyfredol	1,518	1,891
Cyn-denantiaid	161	93
	1,679	1,984

NODIADAU AR DDATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI

	2025/26 £000	2024/25 £000
Darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (drwgddyledion)		
Darpariaeth agoriadol	420	657
Dilewyd yn ystod y flwyddyn	(161)	(400)
Cynnydd yn y ddarpariaeth	158	163
	<u>417</u>	<u>420</u>

4. CYFRIFYDDU ASEDau NAD YDYNT YN ASEDau CYFREDOL

Gwariant Cyfalaf a Chyllido

Roedd gwariant cyfalaf y CRT fel a ganlyn:-

	2025/26 £000	2024/25 £000
Anheddau'r Cyngor	28,011	25,411
Asedau dan Adeiladu	205	695
Offer	14	95
Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	0	318
	<u>28,230</u>	<u>26,519</u>

Ariannwyd fel a ganlyn:-

	2025/26 £000	2024/25 £000
Cyfraniadau a Grantiau Cyfalaf	17,102	16,755
Cyfraniadau Refeniw	10,031	8,601
Benthyca	1,097	1,163
	<u>28,230</u>	<u>26,519</u>

Lwfans Atgyweiriadau Mawr

Cynhwysir yng nghyfanswm y cyfraniadau a'r grantiau cyfalaf y swm a ddyrannwyd ar gyfer atgyweiriadau mawr yn 2025/26, sef £6.629 miliwn (£6.406 miliwn yn 2024/25). Mae'r ffigwr yn y dyraniad MRA wedi'i gynnwys ar linell Trethu ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cafodd y grant hwn gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio'n llawn yn 2025/26 i ariannu gwariant cyfalaf cymwys.

Derbyniadau Cyfalaf

Gwireddwyd derbyniadau cyfalaf drwy werthu anheddau, gwerthu tir, gwerthu perchnogaeth a rennir:-

	2025/26 £000	2024/25 £000
Sales Perchnogaeth a Rennir	0	70
Gwerthu tir	0	0
	<u>0</u>	<u>70</u>

NODIADAU AR DDATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI

Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig, nad yw'n ased cyfredol yn y CRT, ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio. Seilir ar brisiadau mantolen net agoriadol 2025/26 (rhestr brisio namyn dibrisiant cronrus) gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol.

	2025/26 £000	2024/25 £000
Anheddau	7,283	6,389
Garejys	15	17
Tir ac Adeiladau Eraill	77	70
Peiriannau a chyfarpar	668	668
	<u>8,043</u>	<u>7,144</u>

Colledion Amhariad a Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud

Cyfrifwyd cyfanswm addasiad amhariad CRT o £27.997 miliwn yn 2025/26 (£24.183 miliwn yn 2024/25). £0.000 miliwn chyfrifwyd unrhyw wariant refeniw a gyllidwyd gan gyfalaf o dan statud yn 2025/26 (£0.318 miliwn yn 2024/25).

5. CYFRAN CYFRIF REFENIW TAI O GYFRANIADAU I / WRTH GEFN PENSIYNAU

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i chydabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu yn y pendraw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl sy'n ofynnol i'r CRT yn seiliedig ar gyfraniadau cyflogwyr yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ymddeol ei gwrthdroi yn y datganiad ynglŷn â'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn.

Mae'r trafodion CRT yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr a'r datganiad ynglŷn â'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:-

	2025/26 £000	2024/25 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Dadansoddiad Gwariant Gwasanaeth -		
Cost gwasanaeth cyfredol	814	1,110
Gwariant Gweithredol Arall -		
Costau gweinyddol	59	57
Cyllido a Buddsoddi, Incwm a Gwariant		
Gwariant llog net	(314)	(13)
Llog ar derfyn asedau	328	33
Cyfanswm Tâl CRT	<u>887</u>	<u>1,187</u>
Symudiadau yn y Datganiad Cronfeydd wrth gefn		
Dadwneud taliadau net ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer budd-daliadau ymddeol yn unol â IAS 19	(887)	(1,187)
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn y CRT cydbwyso ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:		
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	1,400	1,352

DATGANIAD O BOLISIŌAU CYFRIFO

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion ariannol y Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 a'i sefyllfa ar 31 Mawrth 2026. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blyneddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Cod a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Y confensiwn cyfrifyddu sydd wedi'i fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol wedi'i addasu drwy ailbrisiu categorïau penodol o asedau heb fod yn gyfredol ac offerynnau ariannol.

Croniadau Incwm a Gwariant

Caiff cyfrifon refeniw a chyfalaf y Cyngor eu paratoi ar sail croniadau. Caiff symiau eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i ddangos incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn am nwyddau a dderbyniwyd a gwaith a wnaed, ond na chafwyd arian/nad ydynt wedi'u talu amdanynt erbyn 31 Mawrth 2026. Lle bo incwm a gwariant wedi'u cydnabod ond arian parod heb ei dderbyn neu ei dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Yn benodol, cofnodir cyflenwadau fel gwariant lle maent wedi'u defnyddio. Os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn y cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen.

Costau Benthycia

Mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r addasiad i'r Cod mewn perthynas ag IAS 23 sy'n caniatáu i gostau benthycia perthnasol i asedau cymwys fod yn dreuliau yn hytrach na'u cyfalafu. Felly caiff yr holl gostau benthycia eu cydnabod fel treuliau wrth iddynt ddigwydd.

Derbyniadau Cyfalaf

Mae Derbyniadau Cyfalaf yn codi o waredu asedau eiddo ac ad-dalu blaendaliadau, ac maent yn cael eu cyfrif amdanynt ar sail croniadau; caiff symiau nad ydynt yn fwy na £0.010 miliwn o unrhyw warediad eu trin fel incwm refeniw, yn unol â rheoliadau cyfalaf. Mae balans y derbyniadau nad ydynt wedi'u defnyddio at ddibenion ariannu cyfalaf wedi'i gynnwys yn y fantolen fel derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy.

Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod yn cael ei gynrychioli gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sydd yn ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau hylifol iawn sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o'r dyddiad caffael ac yn trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian, mae arian parod a chywerthoedd arian parod yn cael eu dangos fel symiau net o orddrafftiau banc sy'n cael eu talu pan ofynnir amdanynt ac maent yn rhan annatod o reoli arian y Cyngor.

Codi ar Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Codir y symiau canlynol ar y Portffolios Gwasanaeth, i gofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn -

- Dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion ailbrisiu ac amhariad ar werth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisiu Wrth Gefn y gallir dileu colledion yn eu herbyn.
- Amorteiddio asedau annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion amhariad neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o refeniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthycia cyffredinol cyfwerth â swm a gyfrifir ar sail ddarbodus wedi'i bennu gan y Cyngor yn unol â'r canllawiau statudol. Felly caiff dibrisiant, ailbrisiad a cholledion amhariad eu disodli gan gyfraniad i falans y Gronfa Gyffredinol - MRP - ar ffurf trafodyn addasu yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ar y Datganiad Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Caiff MRP y Cyngor ei gyfrifo'n unol â Datganiad Polisi 2016/17 fel y'i cytunwyd gan y Cyngor yn Chwefror 2016, a'i ddiwygio ym mis Mehefin 2016, Chwefror 2017, Mawrth 2018 a Mawrth 2021, sy'n cael ei osod yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru ar MRP. Mae polisi'r Cyngor fel a ganlyn -

- Codi 2% o'r ddyled Cronfa'r Cyngor sy'n weddill, fel y'i pennwyd ar 31 Mawrth 2017, ar wariant cyfalaf cyn 1 Ebrill 2008 a gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthycia â chymorth rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2016 gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal.
- Bydd gwariant cyfalaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008 a ariennir gan fenthycia darbodus, gwariant cyfalaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016 a ariennir gan fenthycia â chymorth, a'r holl wariant cyfalaf yn y dyfodol a ariennir gan ddyled yn cael ei ad-dalu drwy dâl blyneddol i Gronfa'r Cyngor yn seiliedig ar oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal.
- Codi 2% o ddyled y Cyfrif Refeniw Tai sy'n weddill, wedi'i osod ar 31 Mawrth 2021, ar wariant cyfalaf cyn y dyddiad hwn gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal, ac o 1 Ebrill 2021 ymlaen gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal dros nifer briodol o flynyddoedd, yn dibynnu ar y cyfnod o amser mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o gynhyrchu buddion.
- Bydd derbyniadau cyfalaf a dderbynnir gan NEW Homes yn cael ei roi o'r neilltu i ad-dalu benthyciadau i NEW Homes sydd wedi'u dosbarthu'n wariant cyfalaf mewn statud.

Yn ogystal, gall y Cyngor dalu neu ddisodli'r benthyciadau'n gynt na'r hyn a drefnwyd yn wreiddiol, fel rhan o'i strategaeth rheoli dyledion, yn dibynnu ar amodau'r farchnad ar y pryd, risgiau a buddion ariannol. Mae dadansoddiad o'r MRP a godwyd am y flwyddyn wedi'i nodi yn Nodyn 37.

Buddion Gweithwyr

Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai y disgwylir iddynt gael eu talu o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel tâl a chyflogau, gwyliau blyneddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl ar gyfer gweithwyr cyfredol, ac fe'u cydnabyddir fel costau am wasanaethau yn ystod y flwyddyn pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser hyblyg, amser mewn llaw) a enillir gan weithwyr ond nad ydynt wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Caiff y cronriad ei godi ar Warged neu Ddiffyg yn Narpariaeth y Gwasanaethau, (ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn) fel bod buddiannau gwyliau'n cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

Buddion Terfynu Swydd

Mae Buddion Terfynu Swydd yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol yn lle'r buddion hynny. Maent yn cael eu codi ar sail cronriadau pan nad oes modd i'r Cyngor bellach dynnu'r cynnig ar gyfer y buddiannau hynny neu pan fydd y Cyngor yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFO

Pan fydd buddion terfynu swydd yn cynnwys ychwanegu at bensiwn, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar Gronfa'r Cyngor, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i ac o'r Gronfa Bensiwnau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwnau a'r pensiwnwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ar ôl gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân -

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiwnau Athrawon Capita ar ran yr Adran Addysg (DfE).
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Cronfa Bensiwn Clwyd (a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint).

Mae'r cynlluniau yn rhoi buddion diffiniedig i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau) a enillir wrth iddynt weithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu na ellir fel arfer pennu'r rhwymedigaeth am y buddion hyn yn benodol ar y cyngor. Felly, caiff y cynllun ei gyfrif fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes unrhyw rhwymedigaeth am daliadau buddion y dyfodol wedi'i gydnabod yn y Fantolen. Codir y cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy ar bensiwnau athrawon yn y flwyddyn ar y llinell gwasanaeth portffolio Addysg ac Ieuencid.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Caiff Cynllun y Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddion wedi'u diffinio -

- Mae rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio dull gwiriad credyd cost actiwaraid amcanol - asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr ac ati, a rhagamcanion enillion gweithwyr presennol.
- Mae dyledion yn cael eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol yn defnyddio cyfradd ddisgownt sy'n seiliedig ar arenillion y farchnad ar y dyddiad adrodd ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg, fel y'i pennir gan actiwari'r Gronfa.
- Mae'r newid yn y dyledion pensiwn net yn cael ei ddadansoddi'n naw cydran -
 - Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt.
 - Cost gwasanaeth y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n codi o benderfyniadau'r flwyddyn gyfredol y mae eu heffeithiau'n ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol – wedi'i debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
 - Enillion neu golledion ar setliadau a chwtogiadau - canlyniad camau i ryddhau'r Cyngor rhag dyledion neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth neu groniad buddion gweithwyr a ddisgwylir yn y dyfodol - wedi'u debydu neu eu credydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFO

- Llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net – cost y llog net i'r Cyngor, y newid yn ystod y cyfnod sy'n codi o dreigl amser – a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyfrifir hyn fel llog ar ddyledion pensiwn namyn y llog ar asedau. Caiff gwerth y dyledion ei gyfrifo drwy ddisgowntio'r taliadau buddiannau a ddisgwyllir yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod rhwng y dyddiad talu disgwylliedig a'r dyddiad y pennir eu gwerth. Y llog ar asedau yw'r llog ar asedau sy'n cael eu dal ar ddechrau'r cyfnod a'r llif arian sy'n digwydd yn ystod y cyfnod, a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd ostyngol ar ddechrau'r flwyddyn.
- Costau gweinyddu – nid yw costau rhedeg y gronfa a briodolir i'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli buddsoddiadau – a ddebydir i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar y ddyled buddiannau diffiniedig net – codir ar y Gronfa Bensiynau.
- Enillion a cholledion actiwaraid – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariad wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn.
- Addasiad terfyniad asedau - gostwng unrhyw asedau pensiwn net i'r ased terfynol a gyfrifwyd os yw hyn yn llai na safle'r ased - a godir gan Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn. Caiff llog ar y gwarged dros y terfyn asedau hefyd ei gyfrif yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.
- Cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo dyledion; ni chyfrifir am hyn fel traul.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar falans Cronfa'r Cyngor/CRT, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol.

Yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i ac o'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i ddileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol pensiwn a'u disodli â debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor / CRT o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag fel buddion a enillir gan weithwyr.

Buddiannau â Disgresiwn

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif amdano drwy ddefnyddio'r un polisiâu ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Digwyddiadau Ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad -

- Y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n nodi amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, datgelir yn y nodiadau natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Mesur Gwerth Teg

Mae'r Cyngor yn mesur rhai o'i asedau nad ydynt yn ariannol megis asedau dros ben ac eiddo buddsoddi a rhai offerynnau ariannol am werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased neu a fyddai'n cael ei dalu i drosglwyddo atebolrwydd mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. A chymryd bod -

- Trafodion yn digwydd yn y brif farchnad, neu'r farchnad fwyaf manteisiol.
- Prisiau'n cael eu gosod gan gyfranogwyr y farchnad sy'n gweithredu er eu lles economaidd gorau.
- Asedau nad ydynt yn ariannol yn cael eu defnyddio am eu defnydd uchaf a gorau i'r prynwr a'r gwerthwr.

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac y mae data digonol ar eu cyfer, gan gynyddu'r defnydd a wneir o fewnbynnau gweladwy perthnasol a lleihau'r defnydd o fewnbynnau anweladwy.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau prisio o ran asedau a rhwymedigaethau lle mae'r gwerth teg yn cael ei fesur neu ei ddatgan yn natganiadau ariannol y Cyngor yn cael eu categorio yn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn -

- Mewnbynnau Lefel 1 – dyfynbrisiau (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sy'n union yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau heblaw am y dyfynbrisiau a gynhwysir yn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu'r ddyled

Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw contract sy'n creu ased ariannol i un endid a dyled ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion digyfnewid, megis y rheiny sy'n ymwneud â threthi a grantiau llywodraeth, yn arwain ar yr angen am offerynnau ariannol.

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae rhwymedigaeth ariannol yn golygu gorfodaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd a reolir gan y Cyngor ac y gellir ei chynrychioli gan orfodaeth gytundebol i ddarparu arian parod neu asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosibl yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan mae'r Cyngor yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, ac maent yn cael eu mesur i gychwyn ar werth teg ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ar gyfer y llog sy'n daladwy, yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig) a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthg.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu o, neu ei ychwanegu at gost wedi'i amorteiddio'r benthyciad newydd neu wedi'i addasu, ac mae'r effaith ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Pan godir premiymau neu ddisgowntiau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt a oedd yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Ased ariannol yw hawl i fuddiannau economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor a gynrychiolir gan arian neu offerynnau eraill neu rwymedigaeth dan contract i dderbyn arian neu ased ariannol arall.

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail ymdriniaeth dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu model busnes y Cyngor ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar -

- gost wedi'i amorteiddio,
- gwerth teg drwy elw neu golled a
- gwerth teg drwy incwm cyffredinol arall.

Model busnes y Cyngor yw dal buddsoddiadau i gasglu llif arian contractiol. Caiff asedau ariannol felly eu dosbarthu fel costau wedi'u hamorteiddio. Caiff asedau ariannol felly eu dosbarthu fel costau wedi'u hamorteiddio.

Asedau Ariannol wedi'u Mesur ar Gost wedi'i Amorteiddio

Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i amorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan fydd y Cyngor yn dod yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac yn cael eu mesur i gychwyn ar werth teg. Byddant wedyn yn cael eu mesur ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am log derbyniadwy'n seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi gyda'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Mewn perthynas â'r rhan fwyaf o asedau ariannol sy'n cael eu dal gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm yn y Fantolen yw'r prif swm derbyniadwy sydd i'w dalu (ynghyd â llog cronedig) a llog wedi'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy ar gyfer y flwyddyn a nodwyd yng nghytundeb y benthyciad.

Mae'r Cyngor wedi caniatáu benthyciadau i is-gwmni sy'n eiddo llwyr iddo, sef NEW Homes am gyfraddau is na'r farchnad (benthyciadau meddal). Pan gaiff benthyciadau meddal eu rhoi i is-gwmniau, caiff y gwahaniaeth ei gofnodi fel Buddsoddiad Hirdymor Ychwanegol ym Mantolen endid sengl y Cyngor am werth cyfredol y llog a fydd wedi'i flaenori dros oes yr offeryn, gan arwain at gost wedi'i amorteiddio is na'r prif swm sydd i'w dalu. Caiff llog ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfradd llog uwch na'r gyfradd sy'n dderbyniadwy gan NEW Homes, gyda'r gwahaniaeth yn cynyddu cost wedi'i amorteiddio'r benthyciad ym Mantolen endid sengl y Cyngor. Mae darpariaethau statudol yn gofyn mai effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog derbyniadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol. Caiff cysoniad symiau wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (ar y gyfradd llog effeithiol uwch) i'r gyfradd llog cytundebol derbyniadwy angenrheidiol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ei reoli drwy drosglwyddiad drwy'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae asedau ariannol wedi'u dal ar gost wedi'i amorteiddio'n cael eu dangos net o golled lwfans sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu diwallu eu hymrwymadau cytundebol i'r Cyngor.

DATGANIAD O BOLISIŌAU CYFRIFO

Caiff Colledion Amhariad eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad na fydd llifoedd arian parod y dyfodol o bosibl yn digwydd oherwydd diffygdlu ar ran y benthyciwr. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r model colledion credyd disgwylidig ar ei holl asedau ariannol sy'n cael eu dal ar gost wedi'i amorteiddio. Mae'r model colledion credyd disgwylidig hefyd yn berthnasol i dderbyniadau prydles. Mae gan asedau ariannol y Cyngor nodweddion risg cyffredin. Mae'r asesiad ar y cyd o'r colledion credyd disgwylidig ar gyfer y portffolio asedau ariannol yn seiliedig ar fatrics sy'n defnyddio data diffygdlu hanesyddol ar gyfer y portffolio, wedi'i addasu gyda gwybodaeth leol berthnasol i addasu'r cyfraddau colledion ac unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau penodol o asedau ariannol lle gallai'r risg credyd gynyddu. Cyfrifir y lwfans colledion fel cynnyrch cronus y matrics hwn.

Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau

Pa un a ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol -

- Y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- Y derbynir y grantiau neu'r cyfraniadau.

Ni chaiff symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm â'r grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodau yw rhagnodiadau sy'n mynnu bod manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n cael eu gwireddu o ganlyniad i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y rhagnodwyd, neu rhaid eu dychwelyd i'r trosglwyddwr.

Mae arian sy'n cael ei roi fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau perthnasol wedi'u bodloni'r cael eu cario yn y Fantolen fel credydwr (Derbyn Grantiau Ymlaen Llaw).

Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle credydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei glustnodi i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei glustnodi i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

Asedau Treftadaeth

Asedau treftadaeth yw'r asedau hynny y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae asedau treftadaeth y Cyngor yn cynnwys adeiladau hanesyddol, casgliadau archifau (sy'n cael eu cadw gan Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru) a chasgliadau amgueddfeydd.

Adeiladau Hanesyddol

Mae adeiladau hanesyddol y Cyngor wedi'u lleoli yn bennaf ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. Mae adeiladau hanesyddol yn cael eu dosbarthu fel rhai gweithredol neu anweithredol.

Gweithredol

Os yw adeilad, yn ogystal â chael ei ddal oherwydd ei nodweddion treftadaeth, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill neu i ddarparu gwasanaethau eraill yna mae'n cael ei brisio yn yr un modd ag adeiladau eraill o'r math hwnnw ac yn cael ei gyfrif yn ased gweithredol.

DATGANIAD O BOLISIŌAU CYFRIFO

Anweithredol

Os yw adeilad yn cael ei ddal oherwydd ei nodweddion treftadaeth yn unig; yna mae'n cael ei brisio yn unol â FRS 30 (Asedau Treftadaeth). Rhoddwyd ystyriaeth i ddosbarthiad a gwerth yr asedau hyn ar sail eu defnydd presennol ac unrhyw ddefnydd arall posibl. Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn gofyn am werth marchnad ac o ystyried eu natur ni ellir rhoi gwerth o'r fath arnynt ar sail costau adnewyddu; oherwydd hynny, lle cedwir cofnodion, ystyrir bod eu prisio ar sail cost hanesyddol yn briodol. Wrth gyfrifo'r asedau hyn, cydnabyddir y caffaelwyd y rhan fwyaf ohonynt cyn dyddiad bodolaeth yr awdurdod gweinyddol cyfredol (h.y. cyn ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996) a bod hynny felly'n atal casglu gwybodaeth gywir ynghylch costau hanesyddol at ddibenion cyfrifo.

Casgliadau -

Archifau'r Sir

Mae'r archifau, sy'n amrywio o un darn o bapur i filoedd o ddogfennau, yn cael eu cadw dan amrywiaeth o dermau, y rhai mwyaf cyffredin yw adnau (benthyciad tymor hir), rhodd neu bryniant.

Mae'r rhan fwyaf o archifau yn cael eu cadw ar adnau. Nid oes ymgais wedi'i gwneud i bennu gwerth arian parod neu yswiriant y dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol unigryw, er mewn achosion lle prynwyd archifau, mae'n bosibl bod cofnod o'u gwerth ar adeg eu gwerthu'n bodoli. Byddai prisio holl asedau yn cymryd cryn dipyn o amser, adnoddau ac arian, ac ni fyddai unrhyw werth marchnad a roddir ar yr asedau hyn yn adlewyrchiad cywir o werth yr asedau i dreftadaeth y Sir, h.y. pe baent yn cael eu colli ni fyddai'n bosibl cael rhai yn eu lle na'u hailgreu/ailgodi. Am y rheswm hwn felly, nid yw'r Cyngor yn cydnabod yr asedau hyn ar y Fantolen.

Mae nifer fechan o eitemau yn arteffactau yn hytrach na deunydd dogfennol sy'n ffurfio mwyafrif helaeth y daliadau, ac fel y cyfryw yn eithriadau. Mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol yswirio'r arteffactau er nad yw'n berchen arnynt; eu gwerth yswirio hanesyddol yw £174,415 ac nid ystyrir bod hyn yn faterol i ddibenion adrodd/datgelu.

Amgueddfa'r Sir

Mae casgliad amgueddfa'r Sir yn cynnwys oddeutu 6,800 o eitemau neu grwpiau o eitemau. O'r rhain mae oddeutu 260 yn cael eu harddangos yn Amgueddfa'r Wyddgrug, 200 yn Amgueddfa Bwcle a grŵp o oddeutu 580 o eitemau ar fenthyg i Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas. Mae'r gweddill mewn storfa oddi ar y safle. Rhoddion yw mwyafrif helaeth yr eitemau yn y casgliad. Nid yw'n bosib prisio'r rhan fwyaf o'r casgliad oherwydd natur amrywiol ac unigryw'r eitemau. Nid yw dulliau prisio confensiynol yn ddigon dibynadwy a byddai cost prisio'r eitemau hyn yn anghymesur o ran y manteision a fyddai i'w cael yn sgil hynny. Fel gyda chasgliad Archifau'r Sir, nid yw'r Cyngor yn cydnabod yr asedau hyn ar y Fantolen. Rheolir casgliadau'r amgueddfeydd gan Gwella dan gytundeb asiantaeth er eu bod yn parhau i fod o dan berchnogaeth y Cyngor.

Asedau Anniriaethol

Asedau anniriaethol yw asedau nad ydynt yn ariannol a heb sylwedd ffisegol. Mae gwariant ar asedau anniriaethol yn cael ei gyfalafu dim ond lle disgwylir y bydd buddiannau economaidd y dyfodol yn llifo i'r Cyngor, neu lle bydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r Cyngor, a lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Gall gwariant datblygu, neu drwyddedau meddalwedd a brynwyd, fodloni'r diffiniad o ased anniriaethol pan fydd mynediad at fuddion economaidd yn y dyfodol yn cael ei reoli gan y Cyngor, naill ai drwy ddalfa neu warchodaeth gyfreithiol; mae lefel gwariant de minimis o £0.020 miliwn na fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn cael ei chymhwyso oddi tani wedi'i sefydlu.

Caiff asedau anniriaethol eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio. Mae swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae amorteiddio yn cychwyn yn y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn caffael/ychwanegiad.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Yr oes ddefnyddiol a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer amorteiddio yw -

	Blynyddoedd
Trwyddedau Meddalwedd	5
Gwariant datblygu	7

Os yw gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i gostau amorteiddio gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor, a gan hynny maent yn cael eu tynnu'n ôl o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u rhoi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Taliadau Llog

Mae llog allanol sy'n daladwy yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ynghyd ag amorteiddiad yr enillion a'r colledion ar ail-brynu neu setliad cynnar benthyciadau a dducwyd ymlaen yn y Fantolen.

Stocrestrau

Mae stocrestrau wedi'u cynnwys yn y fantolen ar lefel isaf y gost neu'r gwerth net gwiredadwy. Mae cost pob stocrestr yn cael ei mesur mewn ffordd wahanol; y mesuriadau a ddefnyddir mewn perthynas â phrif stocrestrau'r Cyngor yw -

- Depo Alltami (Tiroedd a chynnal a chadw cerbydau a halen craig) Cyfartaledd pwysau
- Depo Alltami (tanwydd fflyd) Cyntaf i mewn, cyntaf allan

Mae'r holl stoc arall yn cael ei fesur yn seiliedig ar eu cost.

Buddsoddiadau

Dangosir y buddsoddiadau yn y fantolen yn ôl gwerth teg (gwerth y farchnad) ar gyfer pob dosbarth o offeryn ariannol.

Mae adneuo a buddsoddiadau tymor byr yn cael eu cynnwys efo arian parod a chywerthoedd arian parod, yn hytrach na buddsoddiadau tymor byr, os ydynt yn aeddfedu o fewn 3 mis o ddyddiad eu caffael, dan IAS 7.

Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw wedi'i ddal i'w werthu.

Caiff eiddo buddsoddiad ei fesur i ddechrau yn ôl y gost ac yn ôl gwerth teg ar ôl hynny, sef y pris a fyddai wedi cael ei dderbyn i werthu ased o'r fath mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased heb fod yn ariannol mae eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur ar y defnydd uchaf a gorau.

Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hail-brisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf (ac ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £0.010miliwn, i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn).

DATGANIAD O BOLISIŶAU CYFRIFO

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor.

Cyd-bwyllgorau

Mae'r Cyngor yn cydnabod ar y Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau sy'n dod o weithgaredd unrhyw wasanaeth a ddarperir ar y cyd â phartïon eraill. Mae'n adlewyrchu ei wariant a chyfran yr incwm y mae'n ei ennill o hynny yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Prydlesau

Prydlesau Ariannol

Er mwyn i brydles fod yn brydles ariannol, mae'n rhaid i'r Cyngor gario bron y cyfan o'r risgiau a'r gwobrau a ddaw yn sgil perchnogaeth. Ceir pum sefyllfa y gall, yn unigol neu gyda'i gilydd, arwain at brydles ariannol. Sef -

- y brydles yn trosglwyddo perchnogaeth yr ased yn i'r prydlesi cyn diwedd cyfnod y brydles
- y prydlesai yn cael cynnig prynu'r ased am bris y disgwylir iddo fod yn is na'r gwerth teg er mwyn sicrhau y byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn
- mae cyfnod y brydles ar gyfer y rhan fwyaf o oes economaidd yr ased
- gwerth presennol yr isafswm taliadau prydles yn cyfateb i o leiaf bron y cyfan o werth teg yr ased ar brydles (mae'r Cyngor wedi penderfynu bod 'bron y cyfan' yn cyfateb i 90%, yn ôl cyngor eu hymgynghorwyr prydles annibynnol), ac
- ased a brydlesir yn ased o natur arbenigol a dim ond y prydlesai sy'n gallu ei ddefnyddio heb wneud addasiadau mawr.

Lle bo bron y cyfan o risgiau a gwobrau perchnogaeth ased ar brydles yn cael eu cario gan y Cyngor, caiff yr ased ei gofnodi fel eiddo, peiriant neu offer a chydabyddir y ddyled gyfatebol.

Mae'r gwerth y mae'r ddau yn cael eu cydnabod yn is na gwerth teg yr ased neu werth presennol yr isafswm taliadau prydles, wedi'u gostwng yn defnyddio cyfradd llog sy'n berthnasol i'r les. Mae'r gyfradd llog perthnasol yn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar y ddyled sy'n weddill.

Mae'r eiddo, y peiriannau neu'r offer a gafaelwyd dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros oes yr ased yn unol â'r polisi cyfrifo dibrisiant. Mae'r ased a'r ddyled yn cael eu cydnabod ar ddechrau'r brydles, ac yn cael eu dad-gydnabod pan fydd y ddyled yn cael ei rhyddhau, canslo neu ddibennu.

Mae'r rhent blyneddol yn cael ei rannu rhwng ad-dalu'r ddyled a chostau ariannol. Mae costau ariannol blyneddol yn cael eu cyfrifo yn defnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r ddyled sy'n weddill.

Prydlesau Gweithredu

Mae prydlesau nad ydynt yn bodloni diffiniad prydlesau ariannol yn cael eu cyfrif fel prydlesau gweithredu. Mae rhenti prydlesau gweithredu yn cael eu codi ar gyfrifon referniw, ar sail croniadau, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mar prydlesau eiddo yn cael eu dosbarthu a'u cyfrifo fel prydlesau tir ac adeiladau unigol.

DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFO

Asedau Hawl i Ddefnyddio

Bu i'r Cyngor fabwysiadu SAARh 16 (Prydlesi) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024. Gofyniad SAARh 16 yw, ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd amdanant yn flaenorol fel prydlesi gweithredu (h.y. heb gydnabod y cerbydau, peiriannau, offer, eiddo a thir ar brydles fel ased, a rhenti yn y dyfodol fel atebolrwydd), mae ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles wedi'u cynnwys ar y fantolen. Mae'r Cyngor wedi dewis cymhwyso eithriadau cydnabod i asedau gwerth isel (o dan £0.010 miliwn pan yn newydd) a phrydlesi newydd gyda hyd o lai na 12 mis. Mae contract yn, neu'n cynnwys prydles, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth.

Mae'r atebolrwydd prydles yn cael ei fesur yn ôl gwerth presennol taliadau'r brydles, wedi'i ostwng ar y gyfradd sy'n berthnasol i'r brydles, neu os na ellir penderfynu ar hynny'n hawdd, ar gyfradd fenthycy gynyddrannol (Cyfradd blwydd-dal y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus) y brydles sy'n benodol i dymor a dyddiad dechrau'r brydles. Mae taliadau prydles yn cynnwys: taliadau penodedig; taliadau prydles amrywiol sy'n ddibynnol ar fynegai neu gyfradd, sy'n cael ei fesur i ddechrau yn defnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y dechrau; y pris ymarfer o dan y cynnig prynu os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o ymarfer; cosbau am derfynu'n gynnar os yw tymor y brydles yn adlewyrchu bod y Cyngor yn ymarfer dewis torri; a thaliadau mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r Cyngor yn rhesymol sicr o ymarfer dewis estyniad neu beidio ag ymarfer dewis torri.

Mae'r atebolrwydd prydles yn cael ei fesur wedyn ar gost amorteiddio yn defnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Mae'n cael ei ailfesur, gydag addasiad sy'n cyfateb i'r ased hawl i ddefnyddio, pan mae newid mewn taliadau prydles y dyfodol o ganlyniad i adolygiad rhent, newid mewn mynegai neu gyfradd fel chwyddiant, neu newid yn asesiad y Cyngor o p'un a yw'n rhesymol sicr o ymarfer dewis prynu, estyniad neu dorri.

Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiâu cyfrifo oni bai bod angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer, a dybir sy'n gwella gwerth ased, ei gyfalafu ar sail cronïadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff asedau o'r fath eu hadbrizio yn ystod y flwyddyn a'u gwerth yn cael ei leihau neu ei ailbrizio fel y bo'n briodol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal dan y gwerth cario cywir.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei gyfalafu yn y lle cyntaf, ond wedi hynny gan nam ar y swm cyfatebol. Mae lefel gwariant de minimis o £0.020 miliwn (ni fydd gofynion cyfrifo cyfalaf yn berthnasol i symiau is) wedi'i phennu.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys -

- Pris prynu
- Unrhyw gost a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn iddi allu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu.
- Amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Yna caiff asedau eu cario yn y Fantolen yn defnyddio'r seiliau mesur canlynol -

- Anheddau'r Cyngor - gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (gwerth defnydd presennol - Tai Cymdeithasol).
- Asedau Isadeiledd - cost hanesyddol dibrisiedig.
- Cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer - cost hanesyddol heb fod yn ddibrisiedig.
- Pob ased gweithredu arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).
- Asedau cymunedol - cost hanesyddol ac nid cost dibrisiedig.
- Asedau dros ben - mae'r mesuriad gwerth teg presennol y seiliedig ar werth teg, a amcangyfrifir yn ôl y defnydd uchaf a gorau o safbwynt cyfranogwr y farchnad.
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost hanesyddol.
- Asedau Hawl i Ddefnyddio – ei fesur am gost neu ei ailbrizio i'r gost gyfredol os oes risg sylweddol o newidiadau ar sail cost

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth presennol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig fel amcangyfrif o werth presennol.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig yn lle gwerth ar gyfer gwerth cyfredol.

Ailbrizio

Mae asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrizio ar sail dreigl pum mlynedd. Mae'r Cyngor yn ailbrizio cyfran o gyfanswm y portffolio asedau ar 1 Ebrill bob blwyddyn; yn ystod 2025/26 cafodd tua 20% o'r asedau gweithredol heb fod yn anheddau eu hailbrizio. Caiff prisiadau eu cynnal yn unol â Phrisiad Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) – Safonau Byd-eang 2017: atodiad cenedlaethol y DU. Cynhelir prisiadau gan briswyr RICS mewnol y Cyngor lle bynnag y bo'n bosibl, ond mewn rhai achosion defnyddir priswyr allanol.

Cefnogir hyn gan ymarfer mynegeio blynyddol yn y blynyddoedd cyfamserol ar gyfer y categorïau ased anghyfredol canlynol, gan osgoi'r angen am ailbrisiadau mwy rheolaidd:

- Tir ac Adeiladau Eraill
- Asedau Dros Ben
- Asedau Hawl i Ddefnyddio wedi'u mesur ar y gwerth presennol

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Fel arall, cwblheir prisiad bwrdd gwaith ym mlwyddyn tri mewn achosion prin lle nad oes mynegai ar gael. Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw'r gwerth presennol yr asedau anghyfredol yn wahanol iawn i'r gwerth cario, ni fydd mynegeo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae cyfrifeg ar gyfer mynegeo yn dilyn yr un driniaeth â buddion a cholledion prisiad eraill. Mae mynegeion yn seiliedig ar sail prisio sy'n berthnasol i'r ased anghyfredol, er enghraifft defnyddir Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu fel mynegai ar gyfer asedau anghyfredol wedi'u prisio o dan y sail Costau Adnewyddu Dibrisiedig.

Caiff y dibrisiant cronedig ei ddileu yn erbyn swm cludo gros yr ased mewn perthynas â mynegeo blynyddol.

Y fethodoleg brisio a ddefnyddir ar gyfer Stoc Tai'r Cyfrif Refeniw Tai yw Dull Goleufa, techneg gwerth meddiant gwag wedi'i addasu sy'n seiliedig ar werth yr eiddo gan dybio meddiant gwag, gyda ffactor addasu i adlewyrchu meddiant parhaus gan denant. Mae'r fethodoleg hon - a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru - yn debygol o gynhyrchu prisiadau cyson ar gyfer eiddo Cyfrif Refeniw Tai tebyg mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae gwerth presennol anheddau'r Cyngor yn cael ei fesur yn defnyddio gwerth defnydd presennol - tai cymdeithasol, fel y diffinnir gan Safonau Prisio RICS, sef y swm a amcangyfrifwyd ar gyfer cyfnewid eiddo (ar ddyddiad y prisio) rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich.

Mae cynnydd mewn prisiadau'n cael ei gyfateb gan gredydau i'r Gronfa Adbrisio i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Fel eithriad, gallai enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan nodir lleihad o ran gwerth, caiff ei gyfrif amdano fel a ganlyn -

- pan fo balans enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff gwerth cario'r ased ei ostwng yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio neu pan fo balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei ostwng yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae enillion sy'n deillio o gyfnod cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hadolygu am amhariad, neu leihad mewn gwerth, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cario ar werth uwch na'u swm adferadwy. Mae enghreifftiau o amhariad yn cynnwys gostyngiad sylweddol mewn gwerth asedau penodol a thystiolaeth o ddifrod corfforol (e.e. difrod tân).

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod lleihad mewn gwerth. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm y swm y gellir ei adennill ar gyfer yr ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cario'r ased, caiff colled lleihad mewn gwerth ei chydabod ar gyfer y diffyg. Pan gaiff colledion lleihad gwerth eu nodi, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn -

- pan fo balans enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei ostwng yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio neu pan fo balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei ostwng yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff lleihad mewn gwerth ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer y dibrisiant a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

DATGANIAD O BOLISIŶAU CYFRIFO

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer gydag oes ddefnyddiol gyfyngedig. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol benodol y gellir ei bennu ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu). Mae dibrisiant ar asedau newydd yn cael ei godi o'r flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn ychwanegu'r ased. Yn achos asedau a gafwyd dan brydlesi, lle gwneir darpariaethau o ddyddiad dechrau'r brydles.

Cyfrifir dibrisiant ar sail llinell syth, gan dybio dim gwerthoedd gweddilliol ar gyfer yr holl eiddo, peiriannau ac offer. Yr oes ddefnyddiol fwyaf cyffredin yw -

	Blynyddoedd
Adeiladau	50
Gosodiadau, ffitiadau a gwasanathau	20-25
Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	3-10
Asedau Isadeiledd	40
Caiff Tai Cyngor	100-150 Fel y'i hamcangyfrifwyd gan y prisiwr

Caiff Asedau Hawl i Ddefnyddio a fesurir o dan fodel cost eu dibrisio dros hyd y brydles neu oes ddefnyddiol yr ased gwaelodol.

Caiff asedau sy'n cael eu cyfalafu dan brydlesau ariannol, cyn gweithredu SAARh 16, eu dibrisio dros fywyd penodol yr ased naill ai yn unol â'r contract sydd yn ei le neu, yn absenoldeb y wybodaeth hon, gan ymgynghorwyr prydles annibynnol y Cyngor yn eu hadolygiad o'r brydles.

Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes bydd yr ased yn cael ei ddefnyddio.

Cydrannu

Pan fo gan ased Eiddo, Peiriant neu Offer gydrannau mawr sydd â chost sylweddol o ran cyfanswm cost yr eitem ac sydd ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig wahanol iawn i oes ddefnyddiol y prif ased, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Mae lefel de minimis materiolaeth o £2.500 miliwn ar gyfer gwerth asedau wedi'i bennu. Dan y lefel hon ni fydd eitemau unigol o eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu hystyried fesul cydran; bydd cydrannau arwyddocaol yn cael eu hystyried fel cydrannau y mae eu gwerth cyfredol yn 20% neu fwy o gyfanswm gwerth cyfredol yr ased.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Dad-gydnabod Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff Eiddo, Peiriant neu Offer ei ddad-gydnabod drwy waredu neu pan na ddisgwylir unrhyw fudd economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth o'u defnyddio.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Ddal i'w Werthu unwaith y bodlonir y meini prawf canlynol -

- Mae'n rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol yn amodol ar delerau sy'n arferol ac yn gyffredin i werthu ased o'r fath.
- Mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn debygol iawn; mae'n rhaid i'r lefel briodol o reolwyr fod yn ymrwymedig i gynllun i werthu'r ased ac mae'n rhaid cael rhaglen weithredol i ganfod prynwr a chwblhau'r cynllun.
- Mae'n rhaid i'r ased (neu grŵp gwaredu) gael ei farchnata i'w werthu am bris sy'n rhesymol o ran ei werth teg cyfredol.

Dylid disgwyl i'r gwerthiant fod yn gymwys i'w gydnabod fel gwerthiant wedi'i gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad ac fe ddylai'r cam gweithredu sydd ei angen i gwblhau'r cynllun nodi ei fod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol i'r cynllun yn cael eu gwneud neu y bydd y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.

Caiff yr ased ei ailbrisio ar unwaith cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg namyn costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg namyn costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cydnabyddir enillion mewn gwerth teg dim ond hyd swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiant ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu (wedi addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiad a fyddent wedi'u cydnabod pe na bai'r asedau wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu) a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Nid yw asedau sydd i gael gadael neu eu sgrapio'n cael eu hail-ddosbarthu'n Asedau Sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Wrth waredu neu ddatgomiynu ased, caiff swm cario'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau, Offer neu'n Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) ei glustnodi i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu golledion wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Caiff enillion ailbrisio a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na of £0.010 miliwn eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen credydu balans derbynebau i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio, neu ei neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu (y Nawdd Cyfalaf Gofynnol). Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau yn cael ei osod yn erbyn treth y cyngor na rhenti, gan y darperir yn llawn ar gyfer cost asedau anghyfredol o dan drefniadau cyllido cyfalaf ar wahân. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Darpariaethau, Dyledion Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth honno.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, lle nad yw'n debygol iawn y bydd angen trosglwyddo manteision economaidd (neu lle gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i gredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), ni fydd hyn yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol oni bai ei bod fwy neu lai'n sicr y derbynnir ad-daliad os yw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fo rhywbeth yn digwydd sy'n rhoi dyletswydd bosibl ar y Cyngor. Mae digwyddiad o'r fath yn rhywbeth ansicr na ellir ei gadarnhau tan iddo ddigwydd/beidio digwydd ac ni fydd o fewn rheolaeth lwyr y Cyngor.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth wedi'i wneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Nid yw ymrwymadau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach yn cael eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae asedau digwyddiadol yn codi pan fo rhywbeth yn digwydd sy'n rhoi ased bosibl ar y Cyngor. Mae ased o'r fath yn rhywbeth ansicr na ellir ei gadarnhau tan i rywbeth ddigwydd/beidio digwydd ac ni fydd o fewn rheolaeth lwyr y Cyngor.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn hytrach yn cael eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon pan mae'n debygol y bydd mewnllif o fanteision economaidd neu botensial gwasanaeth.

Ysgolion

Caiff holl ysgolion a gynhelir y Cyngor eu hystyried yn endidau a reolir gan y Cyngor. Yn unol â gofynion y cod mae'r Cyngor yn cynnwys ei ysgolion a gynhelir yn ei ddatganiadau ariannol endidau unigol. Mae hyn yn cynnwys incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion.

Asedau Anghyfredol - Ysgolion

Mae asedau anghyfredol ysgolion cymunedol yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael eu cynnwys ar y Fantolen.

Mae adeiladau Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn perthyn i gyrff crefyddol ac felly nid ydynt yn cael eu cydnabod ar y Fantolen. Mae unrhyw dir a/neu gaeau chwarae sy'n perthyn i'r Cyngor mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr / ysgolion gwirfoddol a reolir yn cael eu cynnwys ar y Fantolen. Mae unig Ysgol Sefydledig y Cyngor yn perthyn i lywodraethwyr yr ysgol a gan hynny mae wedi'i chynnwys ar y Fantolen.

Is-gwmnïau

Mae'r Cyngor yn berchen yn llwyr ar dri chwmni gweithredol, Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru, Newydd a Gwella.

Gan mai'r Cyngor sy'n rheoli'r endidau hyn mae'r Cod yn gofyn bod eu cyfrifon yn cael eu cydgrynhoi yng nghyfrifon Grŵp y Cyngor. Yng nghyfrifon endid unigol y Cyngor, cofnodir buddiannau mewn is-gwmnïau yn ôl y gost.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFO

Cronfeydd Wrth Gefn

Cronfeydd wrth gefn yw'r symiau a neilltuir yn y cyfrifon i'w defnyddio at ddibenion nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad o ddarpariaethau. Maent naill ai'n arian parod wedi'i neilltuo i dalu am wariant annisgwyl yn y tymor byr, adnoddau i helpu i reoli llif arian neu adnoddau cronedig na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo. Mae trosglwyddiadau i'r ac o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u nodi fel dyraniadau yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

REFCUS

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif referniw'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn.

Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu bodloni costau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthycu, bydd trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol / CRT i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf wedyn yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor na rhenti.

Enghreifftiau o wariant REFCUS yw grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, grantiau i fusnesau a chynlluniau gwella eiddo preifat.

Treth Ar Werth (TAW)

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond i'r graddau nad oes modd ei adfer gan Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o incwm.

CYFRIFON GRŴP

Mae'r Cod yn gofyn bod awdurdod lleol a chanddo gysylltiadau materol mewn is-gwmnïau, cyfranogion a mentrau ar y cyd yn paratoi Cyfrifon Grŵp yn ychwanegol at ei gyfrifon endid unigol.

Endid yw is-gwmni, yn cynnwys endid anghorfforedig, megis partneriaeth sydd yn cael ei rheoli gan endid arall (y Cyngor), sy'n cael ei alw'n rhiant.

At ddibenion Cyfrifon Grŵp, mae'r Cyngor wedi cydgrynhoi cyfrifon tri is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Cyngor:

- NEW Homes,
- NEWydd a
- Gwella

Mae trefniadau cydweithio eraill y Cyngor wedi cael eu hadolygu yn erbyn gofynion y Cod a phennwyd nad oes angen cynnwys unrhyw un o'r trefniadau hyn yn y Cyfrifon Grŵp.

Mae'r Cyfrifon Grŵp yn cynnwys:

- Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grŵp
- Mantolen Grŵp
- Datganiad Llif Arian Grŵp

NEW Homes

Sefydlwyd NEW Homes ar 3 Ebrill 2014 i fod yn berchen ar, gosod a rheoli eiddo gyda'r nod o gynyddu nifer a safon y tai fforddiadwy ar draws y sir, gan ddarparu gwasanaeth proffesiynol i landlordiaid a thenantiaid.

Mae NEW Homes yn gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r Cyngor (1 am £1 par-werth), a sefydlwyd o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae gan y Cyngor lefel uchel o reolaeth dros NEW Homes fel y cyfranddaliwr sengl, yn cymeradwyo:

- cyhoeddi cyfalaf cyfrannau
- dosbarthu gwarged masnachu
- cynllun busnes blynyddol
- unrhyw asedau a waredwyd
- unrhyw fenthg yn erbyn asedau
- penodi cyfarwyddwyr ar y bwrdd

Mae gwybodaeth bellach am NEW Homes ar gael ar y wefan www.northeastwaleshomes.co.uk

Mae NEW Homes ar hyn o bryd yn berchen ar, ac yn rheoli, 187 o unedau ar draws Sir y Fflint. Mae'r rhain yn gyfuniad o gynlluniau newydd wedi'u cyflwyno drwy Raglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor (SHARP) ac eiddo a gaffaelwyd gan ddatblygwyr trwy gytundebau Adran 106. Mae 68 eiddo wedi eu rhoi gan ddatblygwyr preifat o dan gytundebau adran 106 i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r cytundebau hyn rhwng datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu trefnu fel rhan o amod caniatâd cynllunio ac maent yn galluogi awdurdodau lleol i drefnu cyfraniad tuag at ystod o isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys tai fforddiadwy. Cyfanswm gwerth yr eiddo hyn ar Fantolen NEW Homes yw £13.703 miliwn. Mae'r 119 eiddo sy'n weddill yn cael eu prynu (26 eiddo) a chartrefi fforddiadwy adeilad newydd (93 eiddo) i'w rhentu yn Sir y Fflint. Cyfanswm gwerth yr eiddo hyn ar Fantolen NEW Homes yw £21.951 miliwn.

CYFRIFON GRŴP

Mae'r Cyngor a NEW Homes yn creu cytundeb hawliau enwebu ar gyfer pob eiddo, sy'n rhoi hawl i'r Cyngor ddewis pob tenant a defnyddio hyn i roi cartref i bobl sydd ar gofrestr tai fforddiadwy Sir y Fflint.

Mae Cynllun Busnes NEW Homes yn cynnig ehangu'r cwmni dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr eiddo sy'n cael eu rheoli gan NEW Homes i 247 yn 2027/28.

NEWydd

Cwmni masnach Awdurdod Lleol yw Arlwy a Glanhau Newydd Cyf wedi'i ymgorffori ar 28 Chwefror 2017 fel cwmni sy'n gyfyngedig i gyfranddaliadau â'r Cyngor yn berchen ar yr holl gyfranddaliadau, 100 ar £1 gwerth par. Crëwyd y gwasanaeth arlwy a glanhau â'r nod i fod yn fwy atebol i alw'r farchnad ac i fod yn rhydd i ddenu cwsmeriaid newydd y tu hwnt i'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor lefel uchel o reolaeth dros Arlwy a Glanhau NEWydd Cyf fel y cyfranddaliwr sengl, yn cymeradwyo:

- unrhyw amcanion a phenderfyniadau strategol
- unrhyw drosglwyddo neu drosglwyddo cyfranddaliadau yn y Cwmni
- cadw neu ddosbarthu unrhyw waged ariannol
- dosbarthiadau gan y Cwmni o unrhyw gyfranddaliadau yng nghyfalaf y Cwmni, a'r hawl a/neu gyfyngiadau i unrhyw gyfranddaliadau
- unrhyw fenthgy yn erbyn asedau

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am Arlwy a Glanhau NEWydd Cyf ar eu gwefan www.newydd.wales.

Gwella

Mae Llyfrgelloedd a Hamdden Sir y Fflint Cyf yn Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol, sy'n masnachu o dan yr enw Gwella. Mae Gwella yn rheoli gwasanaethau hamdden a chwaraeon, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a threftadaeth a chwarae yn Sir y Fflint. Cafodd y cwmni ei ymgorffori ar 2 Hydref 2024 fel cwmni sy'n gyfyngedig gan gyfranddaliadau gyda'r Cyngor yn berchen ar yr holl gyfranddaliadau, 1 am £1 par-werth. Dechreuodd ddarpariaeth weithredol ar 1 Tachwedd 2024.

Mae gan y Cyngor lefel uchel o reolaeth dros Gwella fel y cyfranddaliwr sengl, yn cynnwys cymeradwyo

- unrhyw amcanion a phenderfyniadau strategol
- unrhyw drosglwyddo neu drosglwyddo cyfranddaliadau yn y Cwmni
- cadw neu ddosbarthu unrhyw waged ariannol
- dosbarthiadau gan y Cwmni o unrhyw gyfranddaliadau yng nghyfalaf y Cwmni, a'r hawl a/neu gyfyngiadau i unrhyw gyfranddaliadau
- cynllun busnes blynyddol
- unrhyw fenthgy yn erbyn asedau
- penodi cyfarwyddwyr ar y bwrdd

Mae rhagor o wybodaeth am Gwella ar gael ar eu gwefan www.gwella.wales.

HOLDCO CSFf Cyf

Cafodd HOLDCO CSFf Cyf ei sefydlu fel cwmni dal ar gyfer rhai o is-gwmnïau Cyngor. Cafodd ei ymgorffori ar 3 Hydref 2024 fel cwmni sy'n gyfyngedig gan gyfranddaliadau gyda'r Cyngor yn berchen ar yr holl gyfranddaliadau, 1 am £1 par-werth. Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, daeth FCC HOLDCO Ltd yn gwmni dal Llyfrgelloedd a Hamdden Sir y Fflint Cyf, a'r bwriad yw y bydd yn dod yn gwmni dal ar gyfer Arlwy a Glanhau Newydd Cyf, sydd wedi'u sefydlu ac sy'n eiddo i'r Cyngor.

CYFRIFON GRŴP

Bydd HOLDCO CSFf Cyf yn –

- penderfynu ar Faterion a Gadwyd cwmnïau'r Cyngor (Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol) (y materion hynny sy'n gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw)
- darparu neu oruchwylio rheolaeth contractau y trefniadau cytundebol sydd gan y Cyngor gyda'r Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol eraill
- nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion cost, effeithlonrwydd a rhannu arferion da gan a rhwng Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol y Cyngor

Er nad yn Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gweithredol, mae HOLDCO CSFf Cyf yn gallu darparu neu oruchwylio gwasanaethau eraill y mae'r Cyngor yn gofyn iddo wneud. Felly, mae cyfle i HOLDCO CSFf Cyf oruchwylio mwy o Gwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol yn y dyfodol a/neu wneud mwy i'r Cyngor. Nid oes unrhyw drafodion i HOLDCO CSFf Cyf eu cydgrynhoi.

Rheoli Risg

Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a'i is-gwmnïau yn cynnwys cynlluniau busnes sy'n cael eu datblygu gan yr is-gwmnïau sy'n cael eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor. Mae hyn yn galluogi i'r Cabinet ddeall yr amgylchedd risg eang y mae'r is-gwmnïau'n gweithredu ynddo, ystyried risgiau penodol y mae'r is-gwmnïau yn eu hwynebu ac asesu'r ffordd y mae is-gwmnïau'n rheoli ac yn lliniaru'r risgiau hynny. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru'n briodol a bod amlygiad y Cyngor ei hun i risg yn cael ei leihau.

Mae'r pwyllgor trosolwg a chraffu priodol yn craffu ar berfformiad NEW Homes, Newydd ac Gwella. Mae'r is-gwmnïau yn destun archwiliad gan dîm archwilio mewnol y Cyngor sydd hefyd yn helpu i roi sicrwydd bod risg yn cael ei rheoli a bod tystiolaeth o fecanweithiau rheoli a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Polisiâu Cyfrifo

Mae'r polisiâu cyfrifo ar gyfer y Grŵp yn dilyn y rhai a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint yn y cyfriflenni endid unigol, fel sy'n cael ei nodi ar dudalennau 74 hyd at 90. Lle mae polisiâu cyfrifo'r is-gwmnïau yn wahanol, mae'r cydgrynhoi wedi'i addasu er mwyn unioni unrhyw wahaniaethau mewn ymdriniaeth gyfrifo.

DATGANIAD GRŴP YNGLŶN Â'R SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN

	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Eraill Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor £000	Mae is- gwmni yn cadw'r £000	Grŵp Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000
Ar 31 Mawrth 2025	33,103	32,975	66,078	795,215	861,296	17,651	878,947
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	29,496	(67,870)	(38,374)	33,271	(5,106)	19,334	14,228
Addasiadau rhwng cyfrifon grŵp a Chyfrifon awdurdod	(20,501)	0	(20,501)	0	(20,501)	(17,891)	(38,392)
Cynnydd/(Ileihad) net cyn trosglwyddiadau	8,995	(67,870)	(58,875)	33,271	(25,607)	1,443	(24,164)
Addasiadau rhwng cyfrifyddu a sail o dan y rheoliadau ariannu	(9,024)	71,244	62,220	(62,220)	0	0	0
Cynnydd /(gostyngiad) yn y flwyddyn	(29)	3,374	3,345	(28,949)	(25,607)	1,443	(24,164)
Ar 31 Mawrth 2026	33,074	36,349	69,423	766,266	835,689	19,094	854,783

	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Eraill Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor £000	Mae is- gwmni yn cadw'r * £000	Grŵp Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000
Ar 31 Mawrth 2024	38,277	34,748	73,025	710,979	784,007	15,733	799,740
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	43,818	707	44,525	47,594	92,119	13,151	105,270
Addasiadau rhwng cyfrifon grŵp a Chyfrifon awdurdod	(14,830)	0	(14,830)	0	(14,830)	(11,233)	(26,063)
Cynnydd/(Ileihad) net cyn trosglwyddiadau	28,988	707	29,695	47,594	77,289	1,918	79,207
Addasiadau rhwng cyfrifyddu a sail o dan y rheoliadau ariannu	(34,162)	(2,480)	(36,642)	36,642	0	0	0
Cynnydd /(gostyngiad) yn y flwyddyn	(5,174)	(1,773)	(6,947)	84,236	77,289	1,918	79,207
Ar 31 Mawrth 2025	33,103	32,975	66,078	795,215	861,296	17,651	878,947

*Wedi'i ailddatgan i adlewyrchu newid o £0.002 miliwn rhwng y fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol o'r is-gyfrifon (Gwella).

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR GRŴP

	2025/26		2024/25			
	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
Dadansoddiad Gwariant Gwasanaeth	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Prif Weithredwyr	1,716	(142)	1,574	1,667	(73)	1,594
Addysg ac Ieuenctid	184,499	(44,059)	140,440	179,719	(42,976)	136,743
Llywodraethu	16,332	(1,756)	14,576	16,421	(2,530)	13,891
Tai a Chymunedau	47,683	(35,549)	12,134	46,963	(38,711)	8,252
Pobl ac Adnoddau*	36,207	(8,181)	28,026	33,289	(8,173)	25,116
Lle a Thwf**	14,643	(6,876)	7,767	16,099	(8,041)	8,058
Gwasanaethau Cymdeithasol	166,523	(40,891)	125,632	150,404	(36,476)	113,928
Strydlun a Thrafnidiaeth	88,414	(38,197)	50,217	90,029	(38,333)	51,696
Cyllid Corfforaethol a Chanolog***	9,328	(11,443)	(2,115)	6,926	(6,099)	827
CRT	124,443	(44,735)	79,708	54,889	(44,563)	10,326
Cost Gwasanaethau***	689,788	(231,829)	457,959	596,406	(225,975)	370,431
Gwariant Gweithredol Arall***			41,436			37,992
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi			16,101			11,599
Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol			(457,263)			(450,364)
(Arian Dros Ben)/diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau			58,233			(30,342)
Treuliau treth is-gwmni****			188			241
Grŵp (Gwarged) / Diffyg			58,421			(30,101)
(Arian dros ben)/diffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol			(39,661)			(47,241)
Treth sy'n ymwneud ag incwm			61			489
(Enillion) neu golledion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau			6,094			(2,250)
Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			24,915			(79,103)

*Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i gynnwys gwasanaeth Rhaglen Gyfalaf ac Asedau sydd bellach wedi'u datgan ar wahân Gwariant Net £20.663

**Portfolio wedi'i ail enwi (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi gynt).

***Mae ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan i ail-ddyrannu'r ardoll a dalwyd i Wariant Gweithredu Eraill o Gyllideb Ganolog a Chorfforaethol (£0.173 miliwn).

****Mae ffigurau 2024/25 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu newid rhwng y fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol o'r is-gyfrifon (Gwella). Wedi'i adlewyrchu yng ngwariar net a gros Pobl ac Adnoddau (£0.003 miliwn). Gwariant treth (£0.001 miliwn).

MANTOLEN GRŴP

		31 Mawrth 2026		31 Mawrth 2025	
	Nodyn	£000	£000	£000	£000
ASEDAU ANGHYFREDOL					
Eiddo, Peiriannau ac Offer					
Anheddau'r Cyngor		252,138		332,226	
Tir ac Adeiladau Eraill		706,351		567,084	
Cerbydau, Peiriannau, Ddrefn ac Offer		22,760		18,126	
Asedau dros ben		6,023		3,359	
Asedau Isadeiledd		159,287		155,370	
Asedau Cymunedol		5,827		5,831	
Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd		1,927		94,551	
Asedau Hawl i Ddefnyddio		87,929		15,127	
Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer	1	1,242,242		1,191,674	
Eiddo Buddsoddi ac Ystâd Amaethyddol		31,283		29,356	
Dyledwyr Hirdymor		2,428		2,319	
CYFANSWM ASEDAU ANGHYFREDOL		1,275,953		1,223,349	
ASEDAU CYFREDOL					
Rhestrau Eiddo		1,060		1,177	
Dyledwyr Byrdymor (darpariaeth lleihad mewn gwerth net)*		98,820		107,304	
Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod*		23,004		17,719	
Asedau i'w Gwerthu		308		513	
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL		123,192		126,713	
DYLEDION CYFREDOL					
Benthyciadau i'w Had-dalu ar gais neu o fewn 12 mis		(41,729)		(53,999)	
Credydwyr Byrdymor*		(53,526)		(51,840)	
Darpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig		(6,139)		(5,872)	
Dyledion gohiriedig		(7,159)		(4,032)	
Derbyniadau Grantiau Ymlaen Llaw		(1,260)		(5,604)	
Darpariaethau		(142)		(150)	
CYFANSWM DYLEDION CYFREDOL		(109,955)		(121,497)	
DYLEDION ANGHYFREDOL					
Credydwyr Hirdymor		(1,533)		(1,120)	
Benthyca Hirdymor		(324,275)		(311,132)	
Dyledion gohiriedig		(75,810)		(4,417)	
Darpariaethau		(1,126)		(1,096)	
Dyledion Hirdymor Eraill		(23,870)		(25,186)	
Derbyniadau Grantiau Ymlaen Llaw		(2,762)		(1,734)	
Atebolrwydd Treth Gohiriedig		(5,030)		(4,932)	
CYFANSWM DYLEDION ANGHYFREDOL		(434,406)		(349,617)	
ASEDAU NET		854,784		878,948	

*2024/25 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu newid o £0.002 miliwn rhwng y fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol o'r is-gyfrifon (Gwella).

Dyledwyr byrdymor (£0.003 miliwn), arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod (£3.049 miliwn) a chredydwyr byrdymor (-£3.050 miliwn).

MANTOLEN GRŴP

Nodyn	31 Mawrth 2026		31 Mawrth 2025	
	£000	£000	£000	£000
CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO				
Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	15,682		14,976	
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	12,330		11,936	
Cronfa'r Cyngor	17,257		15,194	
Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clusthodi*	4,413		3,939	
Elw a Chollod Wrth Gefn	15,818		17,910	
CRT	8,337		6,064	
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO		73,837		70,019
CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO				
Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	309,627		280,623	
Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	504,854		563,248	
Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	(3,574)		(3,933)	
Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn	(23,870)		(25,186)	
Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	49		49	
Cyfrif absenoldebau cronedig	(6,139)		(5,872)	
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO		780,947		808,929
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN		854,784		878,948

*2024/25 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu newid o £0.002 miliwn rhwng y fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol o'r is-gyfrifon (Gwella).

DATGANIAD LLIF ARIAN GRŴP

	2025/26		2024/25	
	£000	£000	£000	£000
Gwarged neu (ddiffyg) net ar ddarparu gwasanaethau*	(58,064)		30,739	
Addasiad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol*	137,052		17,385	
Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	<u>(49,414)</u>		<u>(82,218)</u>	
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		29,574		(34,094)
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(99,136)		(17,276)	
Llif arian parod net o weithgareddau ariannu	<u>74,844</u>		<u>36,455</u>	
		<u>(24,292)</u>		<u>19,179</u>
(Cynnydd) / Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		5,282		(14,915)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		17,722		32,637
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd		23,004		17,722

Ffigurau 2024/25 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu newid rhwng y fersiwn drafft a'r fersiwn terfynol o'r is-gyfrifon (Gwella).
Arian dros ben neu ddiffyg net £0.003 miliwn ac addasiad ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod £3.047 miliwn.

NODIADAU YNGLŶN Â'R CYFRIFON GRŴP

1. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

	Cyngor Sir y Fflint £000	NEW Homes £000	NEWydd £000	Gwella £000	Grŵp £000
Llyfrwerth Net 31 Mawrth 2026					
Anheddau cyngor	252,138	0	0	0	252,138
Tir ac adeiladau eraill	671,054	35,297	0	0	706,351
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar	22,685	0	75	0	22,760
Asedau dros ben	6,023	0	0	0	6,023
Asedau isadeiledd	159,287	0	0	0	159,287
Asedau cymunedol	5,827	0	0	0	5,827
Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	1,927	0	0	0	1,927
Asedau Hawl i Ddefnyddio	87,929	0	0	0	87,929
	1,206,870	35,297	75	0	1,242,242

	Cyngor Sir y Fflint £000	NEW Homes* £000	NEWydd £000	Gwella £000	Grŵp £000
Llyfrwerth Net 31 Mawrth 2025					
Anheddau cyngor	332,226	0	0	0	332,226
Tir ac adeiladau eraill	532,867	34,217	0	0	567,084
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar	18,046	0	80	0	18,126
Asedau dros ben	3,359	0	0	0	3,359
Asedau isadeiledd	155,370	0	0	0	155,370
Asedau cymunedol	5,831	0	0	0	5,831
Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	94,551	0	0	0	94,551
Asedau Hawl i Ddefnyddio	15,127	0	0	0	15,127
	1,157,377	34,217	80	0	1,191,674

**ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR Y
FFLINT**

I'w fewnosod yn dilyn archwiliad ariannol gan archwilywyr allanol.

**ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR Y
FFLINT**

I'w fewnosod yn dilyn archwiliad ariannol gan archwilwyr allanol.

**ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR Y
FFLINT**

I'w fewnosod yn dilyn archwiliad ariannol gan archwilwyr allanol.

**ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR Y
FFLINT**

I'w fewnosod yn dilyn archwiliad ariannol gan archwilywyr allanol.

2025/26

Cyngor Sir y Fflint
Ein Dull o Weithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Dogfen Amgaeedig 1

Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein dull o asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor a chwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r ddogfen hon 'Ein Dull o Weithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol' (Dogfen Amgaeedig un) yn esbonio:

- Beth yw Llywodraethu
- Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Sut mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi
- Prif egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfraniadau at Fframwaith Llywodraethu Effeithiol
- Sut ydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu

Mae manylion canlyniadau ein hasesiad i nodi meysydd arfer orau a meysydd i'w gwella ymhellach i'w gweld yn nogfen Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 – Rhan 2

Beth yw Llywodraethu?

“Mae llywodraethu yn ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus. Mae’n sail i’r ffordd y caiff adnoddau eu rheoli, y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud, y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a’r effaith y maent yn eu cael, nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn hydreiddio i’r ffordd y mae sefydliadau yn cael eu harwain a sut maent yn rhyngweithio gyda’r cyhoedd. Mae angen i lywodraethu fod yn gadarn ond mae’n rhaid iddo hefyd fod yn gymesur. Mae sefydliadau a lywodraethir yn dda yn ddeinamig ac yn cymryd risgiau sy’n cael eu rheoli’n dda; nid ydynt yn farwaidd nac yn fiwrocrataidd.”¹

Mae’r fframwaith llywodraethu yn cynnwys diwylliant, gwerthoedd, systemau a phrosesau sy’n sail i’r ffordd y caiff sefydliad ei gyfarwyddo a’i reoli. Mae’r fframwaith yn dod â chyfres sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion arfer da a phrosesau rheoli at ei gilydd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn yn ei lle. Mae’r Cyngor wedi datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy’n diffinio’r egwyddorion sy’n sail i lywodraethu’r sefydliad. Mae’r Cod Lleol yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Mae crynodeb o’r egwyddorion sy’n sail iddo i’w gweld yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn cefnogi ein nod fel corff cyhoeddus modern, sydd â’r **athroniaeth** o weithredu fel busnes cymdeithasol sydd:

- Yn ddarbodus, modern, effeithlon ac effeithiol;
- Wedi’i lunio, ei drefnu a’i weithredu i ddiwallu anghenion cymunedau a’r cwsmer
- Yn gweithio gyda’n partneriaid i gyrraedd y safonau gwasanaeth cyhoeddus uchaf posibl er lles Sir y Fflint fel sir

I wireddu’r dyheadau hyn, rydym wedi gosod y **safonau** canlynol:-

- Cyflawni rhagoriaeth mewn llywodraethu corfforaethol ac enw da
- Cyflawni rhagoriaeth mewn perfformiad yn erbyn ein targedau ein hunain ac yn erbyn targedau sefydliadau eraill tebyg i ni sy’n perfformio ar lefel uchel
- Bod yn fodern ac yn hyblyg, gan addasu’n gyson i ddarparu gwasanaeth a chymorth o’r safon uchaf i’r cyhoedd, cwsmeriaid a chleientiaid
- Defnyddio ei bedwar adnodd – arian, asedau, pobl a gwybodaeth, yn strategol, effeithiol ac effeithlon
- Croesawu a gweithredu systemau a phrosesau busnes darbodus, effeithiol, effeithlon a llai biwrocrataidd

¹Swyddfa Archwilio Cymru: “Papur Trafod: Yr heriau llywodraethu sy’n cael eu creu gan wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru” 2017

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

I gyrraedd y safonau hyn bydd ein **hymddygiad** yn:-

- Dangos arweinyddiaeth strategol yn y sefydliad ac yn ein partneriaethau
- Herio, adolygu, newid a moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn barhaus
- Bod mor ddarbodus ag sy'n bosibl a chadw biwrocratiaeth i'r lefel isaf bosibl
- Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd
- Manteisio i'r eithaf ar drefniadau gweithio hyblyg

Ein **gwerthoedd corfforaethol** yw:

Lles	Rydym yn gofalu am ein hunain, ein gilydd a'r amgylchedd.
Rhagoriaeth	Byddwn yn datblygu ffyrdd cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni ein hanghenion heddiw ac yn y dyfodol a byddwn yn gweithredu heb oedi os credwn ein bod yn gallu gwneud pethau'n well ar gyfer trigolion Sir y Fflint.
Atebol	Rydym yn gweithio ar y cyd â'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni pethau ac rydym yn gwneud yr hyn a ddwedwn rydym am ei wneud.
Cefnogol	Rydym yn gweithio fel un tîm i greu amgylchedd sy'n galluogi ein gweithwyr i weithio'n ddiogel, cadw'n iach a gwarchod eu lles, teimlo o werth a theimlo'n rhan o un sefydliad.
Balchder	Rydym yn angerddol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i Sir y Fflint a'i phobl.
Uniondeb	Rydym yn gweithredu'n gyson ac yn deg ac yn datblygu ymddiriedaeth drwy gamau cyfrifol a pherthnasoedd gonest.
Parch	Rydym yn cyfrif bod gwerth i bawb ac yn trin pobl ag urddas a phroffesiynoldeb.
Cydraddoldeb	Rydym yn ymroi i greu gweithle sy'n deg ac yn gynhwysol, sy'n croesawu amrywiaeth ac yn cydnabod cyfraniad a photensial pob unigolyn.

Rydym yn ymroddedig i'r **egwyddorion** canlynol:-

- Bod yn gyflogwr modern, teg a gofalgar
- Bod yn deg, cyfiawn a chynhwysol yn ein polisiau a'n hymarferion
- Bod yn gydwysbodol wrth gynllunio a rheoli ein gweithgareddau a gwneud penderfyniadau mewn modd cynaliadwy

Rydym yn ymrwymo i werthoedd ac egwyddorion penodol wrth weithio gyda'i bartneriaid a phartneriaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau strategol megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys cytuno ar set o egwyddorion Ariannu'r Sector Gwirfoddol.

Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn mynnu ein bod yn paratoi datganiad ar reolaeth fewnol. Fel sawl awdurdod yng Nghymru, cyfeirir ato fel y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'. Dogfen gyhoeddus yw hon sydd yn adrodd am y graddau rydym ni fel Cyngor yn cydymffurfio â'n cod llywodraethu ein hunain.

Yn y ddogfen hon byddwn ni, y Cyngor yn:

- Cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn mewn lle
- Crynhoi elfennau allweddol y fframwaith llywodraethu a rolau'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu
- Disgrifio sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithlonrwydd ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn, ac unrhyw newid sydd wedi'i gynllunio yn y cyfnod i ddod
- Rhoi manylion ar sut rydym wedi ymateb i unrhyw fater a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd
- Adrodd ar unrhyw fater llywodraethu a nodwyd o'r adolygiad hwn ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw; ac
- Wrth gyfeirio at y Cyngor, mae hyn yn cynnwys ei berthynas grŵp ag endidau eraill megis New Homes, Newydd a Gwella

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y fframwaith llywodraethu sydd wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 ac mae wedi'i ddiweddarau gyda chymeradwyaeth Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

Sut mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi?

Cafodd adolygiad cychwynnol ein fframwaith llywodraethu ei gynnal gan y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol. Fe wnaeth y grŵp hwn baratoi holiaduron ar gyfer pob Prif Swyddog corfforaethol a hefyd rhai swyddogaethau llywodraethu penodol fel cyllid, adnoddau dynol a chyfreithiol. Roedd ein dull yn seiliedig ar y saith egwyddor sy'n dilyn y brif ran o'r ddogfen hon, a chawsant eu hasesu i nodi unrhyw faes ar gyfer gwelliant. Cynhaliwyd gweithdy herio ar gyfer aelodau'r Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn mynd drwy sgorau cychwynnol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a llenwodd aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac aelodau o'r Pwyllgor Safonau holiadur a oedd yn crynhoi themâu o'r gweithdy.

Mae gwaith paratoi a chynnwys y trefniadau llywodraethu eleni wedi eu hystyried gan y swyddogion statudol, gyda chefnogaeth i roi sicrwydd gan Archwilio Mewnol, y Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw ein fframwaith llywodraethu'n gallu dileu pob risg o fethu cyflawni'r targedau yn ein polisïau, nodau ac amcanion ac felly gall ddarparu sicrwydd cymesur ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rydym wedi:

- Adolygu trefniadau llywodraethu presennol y Cyngor yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol
- Diweddarau'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol lle bo hynny'n angenrheidiol, i adlewyrchu newidiadau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor a gofynion newydd CIPFA / Solace 2016 – Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Cymru
- Asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac amlygu unrhyw newid a gynlluniwyd yn y cyfnod sydd i ddod
- Ystyriwyd y canfyddiadau yn yr Hunanasesiad Corfforaethol

Mae Tîm y Prif Swyddogion, dan arweiniad y Prif Weithredwr; hefyd wedi ystyried y materion llywodraethu a'r egwyddorion sy'n wynebu'r Cyngor. Ceir tystiolaeth o'r rhain yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2). Mae egwyddorion a gafodd eu hasesu fel bod angen gwelliant pellach wedi'u manylu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Atodiad B).

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, fframwaith rheoli risg ac amgylchedd rheoli mewnol. Fel rhan o'r rôl hon mae'r Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd i ystyried a rhoi sylwadau am y cynnydd a wnaed ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwethaf ac unrhyw fater pellach i'w hystyried. Roeddent yn fodlon â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyffredinol.

Rhoddodd gweithdy i Aelodau a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026, ar gyfer aelodau'r Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyfle i herio canfyddiadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Beth yw prif egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol?

Rydym yn bwriadu cyflawni safon lywodraethu dda drwy gadw at saith egwyddor CIPFA/Solace 2016 – Nodiadau Canllaw i Awdurdodau Cymru, sy'n ffurfio sail y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Y saith egwyddor allweddol yw:

Egwyddor A	Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
Egwyddor B	Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr
Egwyddor C	Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Egwyddor D	Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl
Egwyddor E	Datblygu gallu ein sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo
Egwyddor F	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf
Egwyddor G	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

Er bod y Cod yn cyfeirio at 'endid', er mwyn sicrhau eglurdeb rydym ni wedi defnyddio 'ein sefydliad' yn lle.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyfraniadau at Fframwaith Llywodraethu effeithiol

Y Cyngor	- Cymeradwyo Cynllun y Cyngor - Cefnogi'r Cyfansoddiad
Y Cabinet	- Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor - Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolios penodol
Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Helpu i godi proffil rheolaeth fewnol, rheoli risg a materion adrodd ariannol o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi fforwm i drafod y materion a godwyd gan archwilyr mewnol ac allanol
Pwyllgor Safonau	- Mae'r Pwyllgor Safonau'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau - Mae Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ac yn cynnig newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol
Portffolio	- Monitro arbedion effeithlonrwydd, amlygu risg a chymau lliniaru - Ystyried cadernid cynllunio rhag argyfwng a rhagweld ac ystyried darparu adnoddau ar gyfer darpariaeth a gynlluniwyd
Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau - Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys partneriaethau - Cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu'r fframwaith Cyllideb a Pholisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi - Sefydlu Grŵp Cyswllt Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion
Tîm y Prif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaeth	- Gosod safonau llywodraethu - Arwain a chymhwyso safonau llywodraethu ar draws portffolios - Cynnal hunanasesiad blynyddol
Archwilio Mewnol	- Darparu barn annibynnol a gwrthrychol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu - Ymchwilio i dwyll ac anghysondebau

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Sut ydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu?

Yn flynyddol, rydym yn adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system reoli fewnol (a'r tair haen o sicrwydd ar dudalen 114). Manylir ar elfennau allweddol sicrwydd sy'n sail i'r adolygiad llywodraethu hwn isod:

Tîm y Prif Swyddogion	Swyddog Monitro	Swyddog Adran 151	Llywodraethu Gwybodaeth	Archwilio Mewnol
- Trosolwg corfforaethol a chynllunio strategol - Asesiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol - Gweithredu a monitro protocolau rheoleiddio a phrotocolau llywodraethu eraill	- Sicrwydd cyfreithiol a rheoleiddiol - Monitro gweithrediad y Cyfansoddiad - Ymchwiliadau'r Ombwdsmon - Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth	Gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol	- Mae'r Swyddog Monitro wedi'i ddynodi fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor - Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw ein Swyddog Diogelu Data - Cydymffurfiaeth Gwybodaeth gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a systemau cysylltiedig (Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth) - Diogelwch Gwybodaeth, Safonau Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion	- Adroddiad barn blynyddol ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu - Cynllun Archwilio Mewnol ac olrhain adroddiadau / perfformiad gan y Pwyllgor Archwilio - Darparu cyngor ac ymgynghoriaeth
Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Rheoli Risg	Archwilio Allanol / Archwiliadau	Gwrth-dwyll
- Adolygu a herio polisi - Trosolwg a chraffu pynciau - Monitro Perfformiad a Risg Corfforaethol a Phortffolios	- Hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Adolygu effeithiolrwydd archwilio mewnol ac allanol - Ystyried digonolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu	- Polisi a Strategaeth Rheoli Risg - Monitro ac adrodd ar Risgiau Strategol bob chwarter i'r Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	- Archwilio Datganiadau Ariannol - Adolygiadau thematig a chenedlaethol - Archwiliadau allanol eraill	- Trefniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth a rhannu pryderon - Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau - Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontractau

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint

Dogfennau Allweddol Cyhoeddus: Adolygiad Blynyddol / Cynhyrchu

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad Cyllid Alldro Blynyddol
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Datganiad Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol
- Y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau
- Cod Llywodraethu Corfforaethol
- Cod Ymarfer Moesegol ar gyfer Caffael
- Rheolau'r Weithdrefn Gontractau
- Strategaeth Ddigidol
- Archwiliad Cyflog Cyfartal (Adroddiadau Cyflogau yn ôl Rhyw)
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Cynllun y Cyngor
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun Lwfansau Aelodau
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu
- Strategaeth Pobl
- Cynlluniau Busnes Portffolio
- Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datganiad Cyfrifon
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Adroddiad Archwilio Cymru
- Datganiad Polisi Tâl

Dogfennau Allweddol: Adolygiad Ad-hoc / Cynhyrchu


- Cynllun Gwaith Gwrth-dwyll
- Cynlluniau Parhad Busnes
- Egwyddorion Cyfathrebiadau
- Y Cyfansoddiad
- Strategaeth Ddigidol
- Polisi Diogelu Data
- Polisiâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisiâu Cyflogaeth
- Polisiâu Iechyd a Diogelwch
- Protocol Archwilio Mewnol/Allanol
- Polisiâu TG
- Cod Ymddygiad Aelodau
- Cod Ymddygiad Swyddogion
- Strategaeth Gaffael
- Y Fframwaith Rheoli Risg
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
- Safonau'r Gymraeg
- Polisi Rhannu Pryderon

Prosesau sy'n Cyfrannu at Fonitro Rheoleiddiol

- Gwerthuso a Goruchwyllo
- Rheoli Presenoldeb
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Adroddiadau Monitro'r Gyllideb
- Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaethau
- Llywodraethu Corfforaethol
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor
- Cyfarfodydd y Cyngor
- Ymgysylltu ac Ymgynghori
- Archwilio Allanol
- Gwefan Cyngor Sir y Fflint
- Adroddiadau Arolygiaeth
- Ymsefydlu (Corfforaethol a Gwasanaethau)
- Archwilio Mewnol
- Swydd-ddisgrifiadau a Manylion am yr Unigolyn
- Pecynnau Gwaith Rheolwyr
- Hyfforddiant i Aelodau
- Swyddog Monitro
- Hunanasesiadau Partneriaethau
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Risg
- Fframwaith Craffu
- Newyddlen Eich Cyngor Chi

Model Sicrwydd Tair Llinell

- Rheoli Perfformiad a Risg a Rheolaeth Ariannol
- Rheolaeth Fewnol
- Data
- Llywodraethu



2025/26

Cyngor Sir y Fflint
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Dogfen Amgaeedig 2

Beth yw Pwrpas y Ddogfen Hon?

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ein hasesiad yn erbyn trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ac mae'n sôn am feysydd o arferion gorau a meysydd sydd angen gwelliant pellach. Mae'r ddogfen yn egluro:

- Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?
- Cymharu Effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu'r Cyngor
- Prif egwyddorion trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a'n datganiad:
 - Egwyddor A – Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
 - Egwyddor B – Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr
 - Egwyddor C – Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
 - Egwyddor D – Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl
 - Egwyddor E – Datblygu capasiti ein sefydliadau, gan gynnwys gallu'r arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
 - Egwyddor F – Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf
 - Egwyddor G – Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol
- Sut yr ydym wedi mynd i'r afael â materion llywodraethu a strategol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25
- Beth yw'r materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2025/26
- Beth yw'r materion strategol a nodwyd yn ystod 2025/26
- Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn mynnu ein bod yn paratoi datganiad ar reolaeth fewnol. Fel sawl awdurdod yng Nghymru, cyfeirir ato fel y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'. Dogfen gyhoeddus yw hon sy'n nodi i ba raddau rydym ni fel Cyngor yn cydymffurfio â'n cod llywodraethu ein hunain.

Yn y ddogfen hon byddwn ni, y Cyngor yn:

- Cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith.
- Crynhoi elfennau allweddol y trefniadau llywodraethu a rolau'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu.
- Disgrifio sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithlonrwydd ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio yn y cyfnod i ddod.
- Darparu manylion ar sut rydym wedi ymateb i unrhyw fater(ion) a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd.
- Adrodd ar unrhyw fater llywodraethu a nodwyd o'r adolygiad hwn ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw; ac
- Wrth gyfeirio at y Cyngor, mae hyn yn cynnwys ei berthynas grŵp ag endidau eraill megis New Homes, Newydd a Gwella.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y trefniadau llywodraethu sydd wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 ac mae wedi'i ddiweddarau hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Sicrwydd Annibynnol

Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru

Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn nodi'r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi'i wneud gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026. Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamwys, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol/cyfrifon y Cyngor ar 26 Mehefin 2025, cyn y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef 30 Mehefin 2025. Mae'r adroddiad yn cadarnhau:

- Cafodd cyfrifon y Cyngor eu paratoi yn gywir a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod arnynt.
- Y paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a'n gwybodaeth ynglŷn â'r Cyngor.
- Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2024-25 wedi'i gwblhau (24 Hydref 2025).

Barn Flynyddol Archwilio Mewnol

Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026, ar sail gwaith y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol wedi'i wneud, fy marn i yw bod gan Gyngor Sir y Fflint, ar y cyfan, fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol.

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu awdurdod. Maent yn darparu ffocws lefel uchel ac annibynnol ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli'r Cyngor. Yn unol ag arferion gorau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mae'r Cyngor yn dwyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyfrif o ran y gwaith mae'n ei wneud. I gefnogi hyn cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn Rhagfyr 2025, , lle cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod wedi ymgymryd â'i ddyletswyddau yn unol â'r cylch gorchwyl, wedi asesu eu heffeithiolrwydd ar wahân fel pwyllgor ac wedi sefydlu cynllun gweithredu i gefnogi'r Pwyllgor, yr aelodau newydd a gwelliant parhaus.

Datganiad y Prif Swyddog Cyllid ynghylch Cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol

Mae Cod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (Cod RhA CIPFA) yn nodi'r egwyddorion a ddylai arwain awdurdodau wrth reoli eu cyllid. Cafodd ei lunio er mwyn cefnogi arferion da o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA yn nodi'r safonau penodol y dylai awdurdodau geisio eu cyflawni ar y lleiaf.

Mae'r Cod wedi'i seilio ar gyfres o egwyddorion yn cynnwys Datganiad Egwyddorion o Reolaeth Ariannol Dda CIPFA. Yr egwyddorion yma yw'r meincnodau er mwyn i'r awdurdodau fesur effeithiolrwydd eu rheolaeth ariannol a chynaliadwyedd er mwyn i awdurdodau allu:

- cadw rheolaeth ariannol ar gyllid awdurdod lleol yn y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir;
- rheoli gwydnwch ariannol er mwyn gallu bodloni galw na ellir ei ragweld ar wasanaethau; a
- chadw rheolaeth ariannol ar unrhyw ddatblygiadau syfrdanol ac annisgwyl yn eu sefyllfaoedd ariannol.

Mae egwyddorion penodol yn y cod yn cynnwys elfennau o Arweinyddiaeth Sefydliadol, Atebolrwydd, Tryloywder, Safonau Proffesiynol, Sicrwydd a Chynaliadwyedd.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ddangos ei fod yn bodloni gofynion y Cod. Fel Swyddog Adran 151 mae arnaf Gyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm y Prif Swyddog ac Aelodau Etholedig) i sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.


Yn rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rwyf wedi adolygu ein hasesiad blaenorol o gydymffurfiaeth Sir y Fflint â'r Cod RhA CIPFA, a gallaf gadarnhau bod Sir y Fflint yn parhau i gydymffurfio â'r Cod yn y mwyafrif o feysydd.

Serch hynny, mae'r asesiad yn cydnabod y bydd y meysydd canlynol angen adolygiad a gwelliant parhaus oherwydd yr heriau ariannol parhaus ar bob awdurdod lleol:

- Mae absenoldeb unrhyw setliad cyllidebol dangosol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2027/28 a thu hwnt yn cyflwyno heriau ac ansicrwydd sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod yn parhau i flaenoriaethu ein gofynion cynllunio'r gyllideb.
- Yn rhan o'r diweddariad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, rhaid i ni gychwyn ystyried yn gynnar opsiynau ar gyfer sicrhau cyllideb gynaliadwy, yn cynnwys datblygu unrhyw gyfleoedd a nodwyd yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r broses ar gyfer rhagor o ymgysylltu â gwasanaethau o ran cymeradwyo a chyfrannu at ddatganiadau dull ar gyfer pwysau costau a lleihau costau.
- Adolygu a datblygu dull ymgynghori ar y gyllideb yn rhan o Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid yn y dyfodol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cymharu Effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraethu'r Cyngor



Bydd cam ar wahân ar gyfer y rhai a sgoriodd 3-4 os nad yw'r mater eisoes wedi'i nodi gan gamau i fynd i'r afael â'r rhai a sgoriodd 3.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Arfer Orau (Sgôr o 5):

	(E52) Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol.
	(G92) Croesawu her cyfoedion, adolygiadau ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddiol a gweithredu argymhellion mewn modd agored a derbyniol.

Angen Camau Gweithredu Pellach (Sgôr o 3 neu is):

	(A01) Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r Sefydliad.
	(A02) Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)
	(A10) Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.
	(B24) Gweithredu dulliau adborth effeithiol er mwyn dangos sut caiff eu barn ei hystyried.
	(B26) Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol
	(C27) Gweledigaeth glir, datganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriedig y sefydliad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol cynlluniau a phenderfyniadau eraill y sefydliad.
	(C28) Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.
	Cyflawni canlyniadau diffiniedig mewn ffordd gynaliadwy yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.
	(C31) Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
	(C32) Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau
	(C33) Ystyried safbwynt hirdymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau tymor byr megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.
	(D36) Sicrhau fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n derbyn dadansoddiad gwrthrychol a manwl o amrywiaeth o opsiynau gan ddangos sut fyddai'r canlyniadau bwriedig yn cael eu cyflawni yn ogystal â'r risgiau sydd ynghlwm â'r opsiynau hynny. Bydd hyn yn sicrhau'r gwerth gorau sut bynnag y darperir gwasanaethau.
	(D40) Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio yn cynnwys risgiau a rennir.
	(D41) Sicrhau fod trefniadau'n hyblyg er mwyn gallu addasu dulliau ar gyfer cyflawni allbynnau i amgylchiadau newidiol.
(D43) Sicrhau bod modd cynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.	

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

(D44)	Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig.
(D45)	Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refferiwl a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy
(D46)	Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwysu gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.
(D47)	Sicrhau bod y broses gyllidebu'n hollgynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor.
(D48)	Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar broblemau cyflawni sylweddol neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol allai godi yn ystod y cyfnod cyllidebol er mwyn cyflawni canlyniadau tra'n manteisio ar ddefnyddio adnoddau.
(E51)	Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincnodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon.
(E54)	Datblygu protocolau i sicrhau fod arweinwyr etholedig a phenodedig yn trafod eu cyfrifoldebau priodol yn gynnar yn y berthynas, a bod gan bawb ddealltwriaeth o rolau ac amcanion.
(E57)	Datblygu gallu aelodau ac uwch-reolwyr i arwain ar y cyd yn llwyddiannus ac i alluogi'r awdurdod i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol
(E59)	Sicrhau fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a'r gefnogaeth briodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus.
(F69)	Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad.
(F70)	Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisiau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt
(F72)	Sicrhau cysondeb rhwng camau manyleb (megis cyllidebau) ac adroddiadau ar ôl gweithredu (e.e. datganiadau ariannol).
(F80)	Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd.
(F81)	Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol tymor byr.
(G83)	Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu.
(G84)	Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall.
(G89)	Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson a phrydlon a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill.
(G90)	Sicrhau fod argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir gan archwilywyr allanol yn cael eu cymryd.

Y Prif Themâu ar gyfer Gwella

Mae'r Cyngor yn wynebu hyd yn oed mwy o heriau fel sefydliad, yn sgil y lefel isel o gyllid a dderbynnir a'r heriau cynyddol a wynebai mewn perthynas â gwydnwch y gweithlu. Mae'r farchnad recriwtio yn un cystadleuol ac nid yw'r Cyngor bellach yn gallu cystadlu, sy'n golygu llawer o swyddi gwag a cholli staff allweddol. Mae hyn, ochr yn ochr â phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio a'r galw am wasanaethau, yn her o ran a oes modd cynnig yr un lefel o wasanaeth yn ogystal â sut fedrwn ni wella gwasanaethau.

Gan roi hyn mewn cyd-destun, yn ystod 2025/26 adolygodd y Gweithgor Llywodraethu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn y 7 Egwyddor Llywodraethu Da a'r 94 o Is-Egwyddorion. Ym mis Mawrth 2026 cynhaliwyd gweithdy i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, a'r Cabinet er mwyn iddynt adolygu sgôr y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â'r Egwyddorion Llywodraethu Da.

Mae'r saith thema a nodwyd ar gyfer gwella yn ystod 2024/25 yn parhau i fod y meysydd lle bydd gwelliannau'n cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn hon;

- **Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith a gwella cyfleoedd hyfforddi**
 - Arwain diwylliant lle bo gweithredu er lles y cyhoedd yn weladwy ac yn cael ei arddangos yn gyson. Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau;
 - Mae gwerthoedd yn cael eu cyflawni'n unol â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan); a
 - Prosesau gwneud penderfyniadau a herio gwell drwy hyfforddiant penodol, mae sesiynau wedi'u hwyluso ar gael i Aelodau ac Uwch Swyddogion.
- **Ymgorffori'r defnydd o Asesiadau o Effaith Integredig ac ymgysylltu â dinasyddion**
 - Y Cyngor yn asesu effaith ei benderfyniadau a'i bolisiau ar grwpiau cydraddoldeb, yr amgylchedd, yr economi ac ar feysydd eraill o ddiddordeb cyn i unrhyw bolisi neu strategaeth newid;
 - Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol; a
 - Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- **Cynaliadwyedd yr Adnoddau a Gwytnwch y Gweithlu**
 - Rheoli disgwyliadau gwasanaeth yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael a'r holl fudd-ddeiliaid yn benodol;
 - Datblygu, recriwtio a chadw capasiti'r gweithlu yn dilyn adolygiad o'r model cyflogau;
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y gweithlu a'r aelodau; ac
 - Ymgorffori moeseg a gwerthoedd o fewn y diwylliant sefydliadol a'r diwylliant gwaith.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

- **Ymgorffori Rheoli Risg ar draws Partneriaethau.**
 - Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio yn cynnwys risgiau a rennir.
- **Datblygu diwylliant data a pherfformiad ar draws y Cyngor**
 - Defnyddio gwybodaeth data a pherfformiad i reoli ac adolygu (a gwella) ansawdd gwasanaeth a darparu sicrwydd ansawdd; ac
 - Annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisiâu ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod.
- **Adolygu adroddiadau Pwyllgor**
 - Sicrhau eu bod mewn arddull sy'n ddealladwy, yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu gan aelodau'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill;
 - Darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall; a
 - Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddiad a chynghor clir, gwrthrychol a pherthnasol, gan dynnu sylw at y goblygiadau a'r risgiau.
- **Cynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor**
 - Ystyried safbwynt hirdymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau tymor byr megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol;
 - Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig;
 - Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau; a
 - Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol tymor byr.

Prif Egwyddorion y Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn bwriadu cyflawni safon llywodraethu dda drwy gadw at saith egwyddor CIPFA/Solace 2016 – Nodiadau Canllaw i Awdurdodau Cymru, sy'n ffurfio sail y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Yn y rhan ganlynol, rydym wedi diffinio sut y byddwn yn cyflawni'r safon yn erbyn y saith prif egwyddor, sef:

Egwyddor A	Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
Egwyddor B	Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr
Egwyddor C	Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Egwyddor D	Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl
Egwyddor E	Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo
Egwyddor F	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf
Egwyddor G	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor A – Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud hyn / Sut ydym ni'n cyflawni hyn
Ymddwyn gydag uniondeb	- Mae codau ymddygiad Aelodau a Swyddogion yn seiliedig ar Egwyddorion Nolan ac mae prosesau a phrotocolau ategol i sicrhau y cânt eu hegluro a'u gweithredu'n llawn. - Mae ymddygiad a disgwyliadau Swyddogion ac Aelodau wedi'u nodi yng Nghod Ymddygiad y Cyngor, y Cyfansoddiad, a chyfres o bolisiau a gweithdrefnau - Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion yn nodi gofynion yn ymwneud â datgan cysylltiad yn ffurfiol ar ddechrau cyfarfodydd, rhoddion, lletygarwch, ac ati. - Rydym yn cymryd twyll o ddifri. Mae polisiau allweddol ar waith er mwyn atal, lleihau a rheoli digwyddiadau o'r fath. - Cydymffurfiaeth â pholisiau a phrotocolau e.e. Rheolau'r Weithdrefn Gontractau - Proffil uwch o Archwilio Mewnol - Mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu cofrestr o fuddiannau ar gyfer uwch swyddogion er mwyn dangos tryloywder pellach ac atal y posibilrwydd i unrhyw beth, oni bai am fudd y cyhoedd, ddylanwadu ar weithredu swyddogaethau'r Cyngor
Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol	- Mae cyfres o gymwyseddau arwain yn cael eu rhoi ym mhob Portffolio a'u harwain gan bob Prif Swyddog - Mae ein polisi recriwtio, hyfforddi a chymwyseddau yn seiliedig ar brosesau gwerthuso'n sail i ymddygiadau personol gyda gwerthoedd moesegol - Mae polisiau a gweithdrefnau cadarn ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol cyn eu mabwysiadu gan bwyllgorau ffurfiol - Mae pob contract a darparwr gwasanaeth allanol, yn cynnwys partneriaethau yn ymgysylltu trwy broses gaffael gadarn ac yn dilyn rheoliadau Rheolau'r Weithdrefn Gontractau - Cymhwyso'r model gweithredu corfforaethol; gweithio'n fewnol i hyrwyddo safonau uchel o berfformiad proffesiynol ac ymddygiad moesegol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol - Mae'r Cyngor wedi ehangu'r canllawiau sydd yn y cod, drwy fabwysiadu protocolau sy'n dangos sut i ddefnyddio ymddygiad moesegol mewn sefyllfaoedd allweddol, megis wrth ddelio â cheisiadau cynllunio neu ddelio â chontractwyr. Mae gweithdrefnau gweithredu allweddol megis cyllid neu reolau'r weithdrefn gontractau hefyd yn cynnwys adrannau ar ymarfer moesegol. - Mae gennym Strategaeth Gaffael foesegol.
Parchu rheol y gyfraith	- Rydym yn sicrhau bod ein Haelodau a Swyddogion yn cyflawni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol - Rydym yn sicrhau y manteisir ar bwerau llawn y Cyngor drwy her reolaidd a dilyn datblygiadau deddfwriaeth newydd i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol sydd â fframwaith Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth Effeithiol - Ein Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn osgoi camweinyddu. Mae ein Cyfansoddiad a'n Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel a gaiff eu monitro gan y Pwyllgor Safonau. - Gwaith partneriaeth i gyfuno pwerau cyfreithiol er mwyn cyflawni diwygiad gwasanaeth

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Dystiolaeth Dda 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
• (A03) Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu egwyddorion gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chmau eraill • (A04) Dangos, cyfathrebu a sefydlu'r gwerthoedd neu egwyddorion gweithredu safonol trwy bolisiau/prosesau priodol a gaiff eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol • (A05) Ceisio sefydlu, monitro a chynnal perfformiad a safonau moesegol y sefydliad • (A06) Tanategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau o weithrediad y sefydliad • (A07) Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig • (A08) Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau allanol ar ran y sefydliad yn gweithredu gydag uniondeb ac yn cydymffurfio â'r safonau moesegol uchel a ddisgwyllir gan y sefydliad • (A09) Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i'r gyfraith yn ogystal â glynu at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol • (A11) Ceisio gwneud y defnydd gorau o bwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod er budd ei ddinasyddion, ei gymunedau a budd-ddeiliaid eraill • (A12) Delio gyda thorri darpariaethau rheoleiddiol a chyfreithiol yn effeithiol • (A13) Sicrhau bod llygredigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol	• (A01) Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson gan amddiffyn enw da'r Sefydliad. • (A02) Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan). • (A10) Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor B – Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Bod yn Agored	• Wedi ymrwymo i fod â diwylliant agored, a ddangosir drwy wefan, polisiau a gweithdrefnau hygyrch a chyfarfodydd amgylchedd agored. ○ Penderfynir ar yr ymyriadau / dulliau gweithredu mwyaf addas ac effeithiol drwy ddefnyddio ymgynghoriad ac ymgysylltiad ffurfiol ac anffurfiol. Egwyddorion ymgynghori ○ Modelau ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol gyda gweithwyr a chymunedau e.e. gweithdai model cyflawni amgen i Aelodau ○ Ymgysylltu cadarnhaol gydag Undebau Llafur yn ffurfiol ac anffurfiol
Ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid sefydliadol	• Rydym yn ymgysylltu'n effeithiol gyda budd-ddeiliaid i sicrhau canlyniadau llwyddiannus a chynaliadwy drwy: ○ Gymhwyso a darparu strategaethau cyfathrebu effeithiol i gefnogi'r ddarpariaeth ○ Targedu gohebiaeth a defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol (cyfyngedig ar hyn o bryd) ○ Ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid ar faterion strategol ○ Holiaduron adborth dan arweiniad gwasanaeth a digwyddiadau • Mae'r Cyngor yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau drwy bartneriaethau anffurfiol a ffurfiol: ○ Amrediad helaeth o bartneriaethau i gefnogi darpariaeth blaenoriaethau strategol y Cyngor, yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ○ Trefniadau partneriaeth agored a chynhyrchiol wedi'u cefnogi gan drefniadau llywodraethu effeithiol ○ Mae ymddiriedaeth a pherthnasau da'n arwain at ganlyniadau arfaethedig e.e. trosglwyddiadau asedau cymunedol
Ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau unigol	• Mae cyflawni'r canlyniadau arfaethedig yn cael ei gefnogi gan ystod o ganllawiau ystyrlon ar ymgysylltiad ymgynghori a thechnegau adborth gyda dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill • Mae gennym strwythurau yn eu lle i annog cyfranogiad cyhoeddus wedi'i lywodraethu drwy'r Polisiau Cyfathrebu a Chyfryngau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys yr elfennau canlynol: E-newyddlenni, gwefan Cyngor, Fforymau Tenantiaid, Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth, Cylchoedd Ansawdd, Defnydd o Ffeithluniau, Arolygon (er enghraifft Arolygon Tenantiaid a Phreswylwyr)

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Dystiolaeth Dda 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
• (B14) Sicrhau diwylliant agored trwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored. • (B15) Gwneud penderfyniadau sy'n agored am gamau gweithredu, cynlluniau, defnyddio adnoddau, rhagolygon, allbynnau a chanlyniadau. Y rhagdybiaeth yw bod yn agored. Os nad hyn yw'r achos, dylid darparu cyfiawnhad am y rhesymeg dros gadw'r penderfyniad yn gyfrinachol • (B16) Darparu rhesymeg glir a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac eglurhad i fudd-ddeiliaid, a bod yn agored am y meini prawf, rhesymeg a'r ystyriaethau a ddefnyddiwyd. Yn ei dro, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir. • (B17) Defnyddio ymgynghoriad ac ymgysylltiad ffurfiol ac anffurfiol i benderfynu ar yr ymyriadau / dulliau gweithredu mwyaf addas • (B18) Ymgysylltu'n effeithiol gyda budd-ddeiliaid i sicrhau bod pwrpas, amcan a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer pob perthynas budd-ddeiliaid yn glir, fel y gellir cyflawni'r canlyniadau yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. • (B19) Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn galluogi adnoddau i gael eu defnyddio'n fwy effeithiol a bod canlyniadau'n cael eu cyflawni'n fwy effeithiol • (B20) Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid, diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn derbyn her ymysg partneriaeth; a bod y gwerth ychwanegol o waith partneriaeth yn glir • (B21) Darparu rhesymeg glir a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac eglurhad i fudd-ddeiliaid, a bod yn agored am y meini prawf, rhesymeg a'r ystyriaethau a ddefnyddiwyd. Yn ei dro, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir. • (B22) Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir am eu rolau o ran ymgysylltu â'r gymuned • (B23) Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol • (B25) Cydbwyso adborth gan grwpiau budd-ddeiliaid mwy actif gyda grwpiau budd-ddeiliaid eraill i sicrhau detholusrwydd	• (B24) Gweithredu dulliau adborth effeithiol er mwyn dangos sut caiff eu barn ei hystyried. • (B26) Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor C – Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Diffinio canlyniadau	- Mae gennym weledigaeth glir yn disgrifio pwrpas a chanlyniadau arfaethedig y sefydliad, a gyflawnir drwy: - Gysylltu'r weledigaeth a bwriad i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig - Ystyriaeth o Gynllunio Gwasanaeth yn cynnwys cynaliadwyedd darparu gwasanaeth - Caiff rheoli risg ei ddefnyddio'n gyson ar bob lefel gan sicrhau defnydd cyson o'r broses risg a therminoleg - Mae datblygu Cynllun Lles y Sir a darparu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ychwanegu gwerth - Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys argymhellion o welliannau neu faes o flaenoriaeth gwaith ar gyfer y flwyddyn ganlynol
Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy	- Tra'n penderfynu ar ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, rydym yn cymryd golwg tymor hwy ac yn cydbwysu effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ynghyd â budd y cyhoedd yn ehangach. Cefnogir hyn drwy: - Gynllunio busnes a chyllidebu hir dymor gan ddefnyddio model rhagamcanu effeithiol - Dull amlddisgyblaeth i ddatblygu polisi gan ddarparu canlyniadau diffiniedig a sicrhau mynediad teg at wasanaethau - Mae'r strategaeth gaffael yn diffinio disgwyliadau o amgylch buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n llywio manylebau, tendrau a chontractau gwasanaeth - Cynlluniau cyfathrebu ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus a chymunedol

Meysydd o Dystiolaeth Dda 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
(C30) Adnabod a rheoli risgiau i gyflawni canlyniadau (C34) Penderfynu ar fudd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwysu buddiannau sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol amrywiol, drwy ymgynghori lle bynnag bosibl, er mwyn sicrhau cyfaddawd addas (C35) Sicrhau mynediad teg at wasanaethau.	(C27) Gweledigaeth glir, datganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriedig y sefydliad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol cynlluniau a phenderfyniadau eraill y sefydliad. (C28) Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy. (C29) Cyflawni canlyniadau diffiniedig mewn ffordd gynaliadwy yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael (C31) Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael (C32) Ystyried a chydbwysu effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisiâu, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau (C33) Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor D – Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Pennu ymyraethau	• Ymgysylltu'n llawn gydag Aelodau ar sail hirdymor, e.e. SATC, Cynllun y Cyngor, Cynllunio Busnes a strategaethau gweithlu allweddol eraill e.e. digidol a chaffael • Mae'r SATC a phroses gosod y gyllideb yn rhoi cyfle i'r cyhoedd, budd-ddeiliaid i ymgysylltu a bod yn rhan o ystyried opsiynau. • Ymgysylltiad gweithredol wrth wneud penderfyniadau allweddol i ddatblygu syniadau cychwynnol, opsiynau a chanlyniadau a risgiau posibl e.e. Rhaglen ADM, Gateways • Gwerthusiadau opsiwn clir, yn cynnwys defnyddio modelau rhagamcanu, er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau • Monitro'r gyllideb yn rheolaidd ar gyfer pob Portffolio • Defnyddio Asesiadau o Effaith Integredig
Cynllunio ymyraethau	• Rydym wedi sefydlu a gweithredu cylchedau cynllunio a rheoli cadarn yn ymwneud ag ymateb ac adferiad drwy'r Tîm Ymateb i Reoli Argyfwng • Monitro cynllunio busnes, effeithlonrwydd a dibynadwyedd rheolaidd, yn cynnwys adborth • Caiff perfformiad gwasanaeth ei fesur drwy sefydlu cyfres o ddangosyddion lleol, sydd yn cael eu monitro, eu hadrodd a'u defnyddio'n rheolaidd ar gyfer monitro adferiad
Cyflawni'r canlyniadau a fwriedir i'r eithaf	• Caiff y gofynion am adnoddau eu nodi drwy'r broses cynllunio busnes, yn cynnwys unrhyw ddiffyg a ragwelir yn y gofynion hynny. • Mae ymgysylltu rheolaidd a pherchenogaeth o'r broses gyllido yn digwydd drwy Dîm y Prif Swyddogion ac mewn ymgynghoriad ag Aelodau trwy weithdai a'r broses graffu • Caiff gwerthoedd cymdeithasol eu cyflawni drwy gomisiynu gwasanaethau yn effeithiol a chydymffurfio â gweithdrefnau'r Cyngor • Digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, yn benodol yn ymwneud â phenderfyniadau parhaus ar faterion cyflawni gwasanaeth neu i newidiadau yn yr amgylchedd allanol a osodir yng nghyd-destun SATC ar gyfer preswylwyr a gweithwyr

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Dystiolaeth Dda 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
• (D37) Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i'r gwasanaeth neu lle nad oes bellach angen gwasanaethau, er mwyn gallu blaenoriaethu gofynion cystadleuol o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau gan ystyried effeithiau yn y dyfodol • (D38) Sefydlu a gweithredu cylchoedd rheoli a chynllunio cadarn sy'n ymdrin â chynlluniau, blaenoriaethau a thargedau gweithredol a strategol • (D39) Ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol wrth benderfynu sut orau i gyflawni gwasanaethau ac ymyraethau eraill • (D42) Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol addas (yn ogystal â rhai statudol neu ddangosyddion perfformiad cenedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn asesu sut caiff perfformiad y gwasanaethau eu mesur • (D49) Sicrhau cyflawniad 'gwerth cymdeithasol' neu 'manteision cymunedol' drwy gynllunio gwasanaethau a chomisiynu. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 yn nodi mai dyma "mantais ychwanegol i'r gymuned yn ogystal â'r pryniant uniongyrchol".	• (D36) Sicrhau fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n derbyn dadansoddiad gwrthrychol a manwl o amrywiaeth o opsiynau gan ddangos sut fyddai'r canlyniadau bwriedig yn cael eu cyflawni yn ogystal â'r risgiau sydd ynghlwm â'r opsiynau hynny. Felly, bydd hyn yn sicrhau'r gwerth gorau sut bynnag y darperir gwasanaethau. • (D40) Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio yn cynnwys risgiau a rennir. • (D41) Sicrhau fod trefniadau'n hyblyg er mwyn gallu addasu dulliau ar gyfer cyflawni allbynnau i amgylchiadau newidiol. • (D43) Sicrhau bod modd cynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. • (D44) Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig. • (D45) Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refeniw a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy • (D46) Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau. • (D47) Sicrhau bod y broses gyllidebu'n hollgynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor. • (D48) Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar broblemau cyflawni sylweddol neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol allai godi yn ystod y cyfnod cyllidebol er mwyn cyflawni canlyniadau tra'n manteisio ar ddefnyddio adnoddau.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor E – Datblygu capasiti ein sefydliadau, gan gynnwys gallu'r arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Datblygu capasiti ein sefydliad	- Rydym yn adolygu ein gweithrediadau, perfformiad a defnydd o asedau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd parhaus drwy adolygiadau cyflawni gwasanaethau, perfformiad a rheoli risg a datblygu a monitro Byrddau Rhaglen. - Rydym yn adolygu digonolrwydd a phriodoldeb adnoddau a ddyrannir drwy dechnegau megis meincnodi yn fewnol yn erbyn perfformiadau blaenorol a chefnogi heriau mewnol, ac yn allanol fel arfer er mwyn adnabod cyfleoedd gwelliant. - Buddion cydweithio a gwaith partneriaeth yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau y cyflawnir gwerth ychwanegol drwy gysylltu blaenoriaethau gwasanaethau a sefydliadau o ran gwaith partneriaeth - Datblygu a chynnal cynllun y gweithle i wella dyraniad strategol adnoddau a gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol
Datblygu gallu arwain ein sefydliad ac unigolion eraill	- Mae arweinyddiaeth ar y cyd effeithiol sydd yn ein galluogi i ymateb yn llwyddiannus i ofynion a risgiau allanol sy'n newid yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o raglenni datblygu rheolwyr ac arweinwyr, sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth gyda Choleg Cambria - Mae gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr rolau arwain gwahanol sydd wedi'u diffinio'n glir - Cefnogir gofynion unigol a sefydliadol drwy: - Gyflwyniadau sefydlu corfforaethol i weithwyr newydd yn y Cyngor a chyfarfodydd sefydlu gwasanaeth penodol i weithwyr mewn swyddi newydd - Cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gyfer gweithwyr - Mae amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gael - Adborth a dysgu a rennir i'r sefydliadau drwy adroddiadau a sesiynau rhyngweithiol fel yr 'Academi' ar gyfer Uwch Arweinwyr - Cefnogi a chynnal lles corfforol a meddyliol y gweithlu, drwy ein Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol mewnol Care First (Rhaglen Cymorth i Weithwyr) ac amrywiaeth o hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth mewnol i gefnogi materion sy'n ymwneud ag iechyd meddyliol, ariannol a chorfforol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Arfer Orau 2025/26 (Sgôr o 5) (E52) Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol
Meysydd o Dystiolaeth Dda, 2025/26 (Sgôr o 4) (E50) Adolygu ein gweithrediadau, perfformiad, a'n defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol (E53) Datblygu a chynnal cynllun gweithlu effeithiol i wella dyraniad strategol adnoddau (E55) Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r mathau o benderfyniadau a ddirprwyir i'r gweithredwr a'r rhai sydd wedi'u cadw ar gyfer penderfyniad yr awdurdod ar y cyd (E56) Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau arweinyddiaeth nodedig ac wedi'u diffinio'n glir o fewn strwythur lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod i weithredu strategaeth a rheoli darpariaeth gwasanaethau ac allbynnau eraill a nodir gan aelodau a bod pob un yn darparu cydbwysedd ar gyfer awdurdod ei gilydd (E58) Sicrhau bod gan weithwyr fynediad at gyfarfod sefydlu addas wedi'i deilwra i'w rôl gyda hyfforddiant a datblygiad parhaus i gyd-fynd â gofynion unigol a sefydliadol ar gael ac yn cael ei annog (E60) Sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a system gyfan, trwy ddysgeidiaeth a rennir, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd o wendidau llywodraethu mewnol ac allanol (E61) Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog y cyhoedd i gymryd rhan (E62) Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol o archwiliadau ac adolygiadau gan gyfoedion (E63) Dwyn gweithwyr i gyfrif trwy adolygiadau perfformiad rheolaidd sy'n ystyried anghenion hyfforddi a datblygu. (E64) Sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnal iechyd a lles y gweithlu a chefnogi unigolion i gynnal eu lles corfforol a meddyliol eu hunain
Meysydd i'w Gwella Ymhellach 2025/26 (Sgôr o 3) (E51) Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincnodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon (E54) Datblygu protocolau i sicrhau fod arweinwyr etholedig a phenodedig yn trafod eu cyfrifoldebau priodol yn gynnar yn y berthynas, a bod gan bawb ddealltwriaeth o rolau ac amcanion (E57) Datblygu gallu aelodau ac uwch-reolwyr i arwain ar y cyd yn llwyddiannus ac i alluogi'r awdurdod i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol (E59) Sicrhau fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a'r gefnogaeth briodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor F – Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Rheoli Risg	- Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli risg clir a chryno. Mae yna nifer o gofrestri risg sydd yn cael eu hadrodd yn rheolaidd sydd yn amlinellu'r risgiau y mae'r Cyngor a'i feysydd gwasanaeth yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys sgoriau risg presennol a sgoriau targed y risg wedi'u cefnogi gan sylwadau lliniaru - Caiff y Fframwaith Rheoli Risg ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn - Mae Modiwl E-ddysgu Rheoli Risg wedi cael ei ddatblygu/cyflwyno i Swyddogion ac i Aelodau
Rheoli perfformiad	- Mae Aelodau ac uwch reolwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a cherrig milltir yn erbyn amcanion - Caiff yr aelodau wybodaeth glir a rheolaidd am y sefyllfa a'r goblygiadau ariannol, gan gynnwys yr effeithiau ar yr amgylchedd ac ar adnoddau - Mae'r amcanion lles wedi cael eu hadolygu fel rhan o Gynllun newydd y Cyngor 2025/30
Rheolaeth fewnol gadarn	- Mae Archwilio Mewnol, drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn rhoi barn flynyddol annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor, ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheolaeth risg, trefniadau llywodraethu a pholisïau cysylltiedig y Cyngor. - Rydym yn ymrwmo i fynd i'r afael â thwyll fel y nodir yn y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, Cynllun Ymateb i Dwyll a'r Polisi Rhannu Pryderon
Rheoli data	- Mae gennym gyfeiriad strategol effeithiol, cyngor a chmau monitro gwybodaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau clir ar ddata personol, ac rydym yn darparu hyfforddiant rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaid â'r rhain. - Mae gennym BroTOCOLau Rhannu Gwybodaeth priodol ar waith o ran yr holl wybodaeth a rennir gyda chyrff eraill. - Mae ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn cael eu cefnogi trwy ganllawiau gan amrywiaeth o gyrff proffesiynol. - Mae Archwilio Mewnol yn adolygu ac yn archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd
Rheolaeth gref o arian cyhoeddus	- Mae ein trefniadau rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad tymor hir o ganlyniadau a pherfformiad ariannol tymor byr drwy ddarparu'r SATC - Gosod Darpariaeth Isafswm Refeniw i ad-dalu dyledion - Cafodd integreiddio'r holl reolaeth ariannol ei adolygu fel rhan o'r prosiect moderneiddio cyllid

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Dystiolaeth Dda 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
• (F65) Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd ac yn cael ei ystyried ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau • (F66) Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig, a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. • (F67) Sicrhau y dyrennir cyfrifoldebau dros reoli risgiau unigol yn glir • (F68) Monitro darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylu, cyflawni a chynnal adolygiad ôl-weithredu annibynnol • (F71) Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch-reolwyr ar gynlluniau darpariaeth gwasanaeth ac ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau • (F72) Sicrhau cysondeb rhwng camau manyleb (megis cyllidebau) ac adroddiadau ar ôl gweithredu (e.e. datganiadau ariannol). • (F73) Alinio'r strategaeth rheoli risg a'r polisiau ar reolaeth fewnol â chyflawni amcanion y Cyngor • (F74) Gwerthuso a monitro rheolaeth fewnol a rheolaeth risg y Cyngor yn rheolaidd • (F75) Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredigaeth effeithiol mewn lle • (F76) Sicrhau bod sicrwydd ychwanegol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheolaeth a rheoli risg yn cael ei ddarparu gan yr archwilydd mewnol. • (F77) Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp/swyddogaeth gyfwerth sy'n annibynnol yn darparu ffynhonnell arall o drefniadau sicrwydd effeithiol ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd reoli effeithiol, a bod eu hargymhellion yn cael eu clywed a'u gweithredu. • (F78) Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn casglu, storio, defnyddio a rhannu data yn ddiogel, gan gynnwys prosesau i sicrhau diogelwch y data personol a ddefnyddir • (F79) Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith wrth rannu data gyda chyrff eraill • (F82) Sicrhau integreiddiad o reolaeth ariannol wedi'i ddatblygu'n dda ar bob lefel cynllunio a rheoli, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol.	• (F69) Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad. • (F70) Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisiau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt • (F80) Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd. • (F81) Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Egwyddor G – Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

Is-egwyddorion	Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn
Gweithredu arferion da ynghylch tryloywder	• Adolygwyd cynllun a chyflwyniad ein hadroddiadau, er mwyn gwella cyflwyniad y wybodaeth allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a monitro hyn yn rheolaidd. • Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i roi'r hynny o wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau tryloywder • Cynhaliwyd adolygiad o brotocolau rhannu gwybodaeth a mabwysiadwyd egwyddorion newydd
Gweithredu arferion da wrth adrodd	• Rydym yn adrodd o leiaf bob blwyddyn ar gyflawniad a chynnydd ein canlyniadau arfaethedig a sefyllfa ariannol. Caiff hyn ei gyflwyno drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn asesu perfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor • Cynnydd yn erbyn y Cynllun Lles • Datganiad Cyfrifon Blynyddol • Cyhoeddir ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dilyn herio cadarn a llym er mwyn asesu a dangos llywodraethu da
Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol	• Drwy ddulliau sicrwydd cadarn, gallwn ddangos atebolrwydd effeithiol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys: ○ Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau annibynnol i roi barn sicrwydd flynyddol ar reolaeth, rheoli risg a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. I ganiatáu hyn, mae gan Archwilio Mewnol fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog ag Aelodau o'r Cyngor. ○ Mae pob cam y cytunir arno o adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy adroddiadau misol i'r Prif Swyddogion, a phob Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. ○ Caiff opsiynau sicrwydd 'cyfyngedig/coch' eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn llawn, a chaiff cynnydd ei fonitro'n agos ○ Heriau cyfoedion ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddio ac adolygiadau cydymffurfriad allanol. Defnyddir deilliannau'r archwiliadau yma i lywio a gwella darpariaeth gwasanaeth ○ Drwy drefniadau comisiynu a monitro effeithiol a chydymffurfriad â gweithdrefnau'r Cyngor, rydym yn cael sicrwydd ar risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau drwy drydydd parti ac unrhyw risgiau trosiannol. ○ Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adborth allanol gan waith rheoleiddiol ac adolygiadau cymheiriaid, ynghyd ag ymatebion y Cyngor

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Meysydd o Arfer Orau 2025/26 (Sgôr o 5)	
(G92) Croesawu her cyfoedion, adolygiadau ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddiol a gweithredu argymhellion mewn modd agored a derbyniol.	
Meysydd o Dystiolaeth Dda, 2025/26 (Sgôr o 4)	Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2025/26 (Sgôr o 3 neu is)
(G85) Adrodd yn flynyddol o leiaf, ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth ei adnoddau (G86) Sicrhau bod aelodau ac uwch reolwyr yn atebol am y canlyniadau (G87) Sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer asesu graddfa y mae'r egwyddorion yn y Fframwaith wedi cael eu defnyddio a chyhoeddi canlyniadau'r asesiad hwn, gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i ddangos llywodraethu da (Datganiad Llywodraethu Blynyddol) (G88) Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydliadau gwasanaeth a rennir neu a reolir ar y cyd fel bo'n briodol. (G91) Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol gyda mynediad uniongyrchol at aelodau ar waith, sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu'r awdurdod ac y gweithredir ar yr argymhellion (G93) Derbyn sicrwydd ar y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trwy drydydd parti a bod hyn yn cael ei dystiolaethu yn y datganiad llywodraethu blynyddol (G94) Sicrhau wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus wedi'i gydnabod a'i ddiwallu	(G83) Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu. (G84) Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall. (G89) Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson a phrydlon a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill. (G90) Sicrhau fod argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir gan archwilwyr allanol yn cael eu cymryd.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Sut ydym ni wedi mynd i'r afael â materion llywodraethu a strategol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25?

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 yn cynnwys 23 mater llywodraethu a 14 mater strategol (Risgiau Corfforaethol). O'r meysydd yma:

- Cafodd tri mater Llywodraethu Mewnol eu cau a'u manylu yn y tabl isod;
- Mae ugain mater Llywodraethu Mewnol yn parhau ar agor ac wedi'u cynnwys isod;
- Mae dau archwiliad Sicrwydd Coch/Cyfyngedig wedi cau ac mae dau yn parhau i fod ar agor ac wedi'u cynnwys isod;
- Mae un ar ddeg o risgiau yn parhau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Mae'r risgiau hyn wedi cael eu dad-uwchgyfeirio o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Gofrestr Risg Portffolio perthnasol
- Mae chwe risg wedi gwella ers hynny
- Mae tri risg wedi dirywio
- Mae pum risg heb newid
- Nid oes unrhyw risg wedi cau

Y diweddaraaf am gynnydd Materion Llywodraethu Sylweddol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

Roedd adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi canfod 23 o faterion llywodraethu (Risgiau Corfforaethol) yn ystod 2024/25 a 4 archwiliad sicrwydd coch/cyfyngedig. Mae manylion ynglŷn â sut yr aed i'r afael â'r risg ac os ydyw'n parhau ar agor wedi'i ddarparu isod:

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraaf am Gynnydd	Cynnydd COG
• (A1) Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn	• Parhau i amlygu rôl a chyfrifoldebau Aelodau • Gweithdy ar gyfer Aelodau (pan fo angen) • Parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu perthnasol	Ar agor	Cyflawnwyd yr Asesiad Perfformiad Panel ym mis Tachwedd 2025 ac o ganlyniad gwnaed nifer o argymhellion. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu yn cynnwys pedwar Swyddog a phedwar Aelod a byddent yn symud yr argymhellion hyn ymlaen yn ystod 2026 gan ganolbwyntio ar gyfathrebu a gwella dealltwriaeth a pherthnasau rhwng swyddogion ac aelodau etholedig.	Gwyrdd

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Cynnydd COG
gyson, gan amddiffyn enw da'r sefydliad (A2) Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) (A10) Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.	Dyluniwyd y sesiynau sy'n cael eu cynnal gan CLILC ddechrau mis Mehefin i gynorthwyo i wella dealltwriaeth o rolau swyddogion a Chynghorwyr. Bwriad y sesiynau yw archwilio a gwella perthnasoedd rhwng swyddogion a Chynghorwyr.		Mae cyfleoedd hyfforddi'n cael eu cyfathrebu gydag Aelodau os a phryd fydd angen. Bydd cyfathrebiad arall yn cael ei roi i Aelodau cyn diwedd Mai 2026 (cyn i'r Pwyllgorau ddechrau'n ôl ym Mehefin 2026) yn amlygu nifer o sesiynau/cyrsiau hyfforddi.	
(B23) Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol (B26) Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol	- Datblygu canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu - Creu Strategaeth Cwsmeriaid ac Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyhoedd - Datblygu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Mae Facebook eisoes wedi ei ddatblygu) - Defnyddio cwynion ac adborth i wella gwasanaethau'r Cyngor	Wedi cau	- Mae canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu yn fyw a gellir ei weld trwy wefan y Cyngor: https://www.sirymfflint.gov.uk/cy/Resident/Consultation-and-Engagement/Home.aspx - Lansiwyd Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori newydd yn Ionawr 2026: https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Consultation-and-Engagement/Engaging-Today-to-Transform-Tomorrow.pdf - Mae'r Cyngor yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth frys. Facebook oedd y llwyfan diweddaraf i gael ei ddefnyddio ac ar hyn o bryd mae dros 10,000 o danysgrifwyr. - Mae Polisi Pryderon a Chwynion y Cyngor yn sianel i gwsmeriaid rannu adborth ar eu profiad: https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Concerns-and-Complaints.aspx	Gwyrdd

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Cynnydd COG
(C28) Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy. (C31) Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael (C32) Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisiâu, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau (C33) Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.	- Adolygu'r model cyflogau - Adolygu'r heriau wrth reoli swyddi gweigion	Ar agor	- Mae model cyflogau a ffefrir yn cael ei brisio, mae'r adolygiad trefniadau cysylltiedig wedi'i gwblhau. Rydym yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau ym mis Gorffennaf fel y gallwn ei weithredu yn ddiweddarach y flwyddyn hon - Mae rheolaeth swyddi gwag yn parhau i weithredu. Mae trafodaethau wedi digwydd gyda TG ar gyfer awtomeiddio'r broses drwy ei ymgorffori i adolygiad ffurflenni AD.	Gwyrdd
	- Defnyddio Asesiadau o Effaith Integredig yn gyson ar draws y portffolios - Datblygu Nodyn Canllaw ar gyfer Cynigion - angen rhagor o wybodaeth gan Swyddogion ac effaith hyn ar y Swyddogion. - Hyfforddiant i Aelodau		- Mae Gweithgor bach o Swyddogion wedi bod yn adolygu defnydd y Cyngor o Asesiadau o Effaith Integredig i archwilio arferion gorau a llunio canllawiau i'w gwblhau. - Bydd gwaith yn datblygu yn hanner cyntaf 2026 i ddyfeisio proses a darparu hyfforddiant mewn perthynas ag Asesiadau o Effaith Integredig. - Cyflawnwyd adolygiad o'r Cyfansoddiad yn ystod 2025. Bydd newidiadau o hyn (gan gynnwys canllawiau ar gyfer NoMs) yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhoi ar waith yn Chwarter 1 2026. - Mae cyfleoedd hyfforddi'n cael eu rhannu gydag Aelodau os a phryd fydd angen. Bydd cyfathrebiad arall yn cael ei rannu gydag Aelodau cyn diwedd Mai 2026 (cyn i'r Pwyllgorau ddechrau'n ôl ym Mehefin 2026) yn amlgu nifer o sesiynau/cyrsiau hyfforddi sydd ar gael. - Bydd Hyfforddi a Sefydlu aelodau yn ganolbwynt yn 2026 yn barod ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2027, gan ddarparu cyfle i weithio gydag aelodau presennol a gwella cyfraddau cwblhau.	Oren

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Cynnydd COG
(D40) Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio yn cynnwys risgiau a rennir.	(D40) Wrth weithio gyda phartneriaid ac yn gydweithredol, bod risgiau (a chyfluoedd hefyd) yn cael eu harchwilio yn gyson.	Ar agor	(D40) Fel rhan o adnabod partneriaid y Cyngor, datblygu strategaeth neu bolisi'r Cyngor ar gyfer gwaith partneriaeth, bydd unrhyw risgiau partneriaeth yn cael eu canfod.	Oren
(D43) Sicrhau bod modd cynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.	(D43) Fel rhan o adolygiad Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data, archwilio sut y gellir defnyddio data / cyflwyno data fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a monitro perfformiad.		(D43) Mae gwaith adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data wedi'i gynllunio i ddigwydd eleni - Academi ym mis Gorffennaf, gweithdy i aelodau ym mis Medi gydag ymgynghoriad a chymeradwyaeth i ddilyn. Mae gwaith y gellir ei weithredu arno yn dibynnu ar ofynion o waith Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data a phrosiectau hwyluso eraill, fel rhan o raglen M365 h.y. SharePoint Power BI ac ati.	Oren
(D44) Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig. (D45) Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refeniw a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy (D46) Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau. (D47) Sicrhau bod y broses gyllidebu'n holl-gynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor.	(D44, D45, D46, D47) Bydd Cynllun diwygiedig y Cyngor yn cefnogi nodi'r adnoddau sydd eu hangen o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r nod o ragamcanu gofynion cyllid ymhellach a sut y gall gwybodaeth am berfformiad gefnogi hyn.		(D44, D45, D46, D47) Mae gan y Cyngor broses gyllideb sefydledig lle mae Portffolios yn bwydo gwybodaeth ariannol berthnasol i ddiweddariadau rheolaidd ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae goblygiadau effeithiau meysydd gwasanaeth penodol a nodir o fewn Cynllun y Cyngor angen ffurfio rhan o'r diweddariadau hyn. (Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o Gynllun y Cyngor gan ystyried pwysau cyllidebol, argymhellion o Adolygiad Archwilio Cymru ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae goblygiadau o ran adnoddau wedi cael eu hystyried yn ystod paratoi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Rhaglen Gyfalaf a bydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod trefniadau adolygu ariannol a monitro cyllideb rheolaidd.	Gwyrdd

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraaf am Gynnydd	Cynnydd COG
(E61) Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog y cyhoedd i gymryd rhan	Mae'r camau lliniaru ar gyfer materion llywodraethu mewnol ar gyfer E51 yr un fath ar gyfer B17, B18, B21, B23, B24, B25, B26	Wedi cau	Gweler y diweddariad uchod ar gyfer B17, B18, B21, B23, B24, B25, B26	Gwyrdd
(F69) Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad. (F70) Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisiau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt (F80) Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd. (F81) Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor.	- Parhau i ymgorffori'r Fframwaith Rheoli Risg - Cyflawni adolygiad blynyddol o'r fframwaith rheoli risg - Datblygu ymhellach ar adrodd risgiau o fewn y system rheoli perfformiad a risg - Adroddiadau i'w cyflwyno i'r Pwyllgorau o Hydref 2024 - Cyflwyno'r modiwl e-ddysgu hyfforddiant rheoli risg ar-lein Awst 2024 ac i'r aelodau ym mis Gorffennaf 2025 - Gweithredu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad - Adolygu arddull adroddiadau i aelodau	Ar agor	Mae trosiant staff o fewn y Tîm Perfformiad a Rheoli Risg wedi golygu bod cynnydd o ran sefydlu Fframwaith Rheoli Risg wedi'i gyfyngu yn sgil capasiti, fodd bynnag, mae ymgysylltiad rhagweithiol gyda gwasanaethau i annog a chefnogi, wedi digwydd ac mae canran y diweddariadau risg portffolio yn cynyddu - 89% ym Mawrth 2026 sef y perfformiad gorau ers dechrau cofnodi ym mis Tachwedd 2023. Cafodd y Fframwaith Rheoli Risg ei adolygu ym mis Rhagfyr 2025 a'i gymeradwyo ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2026. Bellach cyflwynir Adroddiadau Risg bob mis i Brif Swyddogion ac Arweinwyr Perfformiad pob Portffolio mewn perthynas â'r gofrestr risg. Cyflwynir diweddariadau misol ar reoli risgiau i'r Tîm Prif Swyddogion. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bellach yn cael ei adrodd bob chwarter i Dîm y Prif Swyddogion, Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Mae adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r modiwl e-ddysgu Rheoli Risg wedi'i gyflwyno i swyddogion o fewn y Cyngor gyda chyflwyniad 'llai dwys' i Aelodau. Bydd gwaith pellach i gynyddu niferoedd a chyflwyniad i Aelodau yn cael ei gyflawni yn ystod 2026.	Gwyrdd

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Cynnydd COG
			Mae diffyg adnoddau yn sgil trosiant staff, wedi golygu bod datblygu a gweithredu'r Fframwaith Perfformiad wedi oedi. Mae'r tîm bellach yn ôl i gapasiti llawn, a bydd hyn yn cael ei gyflawni yn 2026/27 cynnar. Mae Gweithgor bach o Swyddogion wedi bod yn adolygu templed adrodd y Cyngor er mwyn sicrhau canolbwynt ac ystyriaeth i adrannau perthnasol. Mae'r templed adrodd wedi cael ei ddiwygio, a bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno yn 2026 (diwedd Chwarter 2 / dechrau Chwarter 3). Mae'r Cyngor yn darparu mwy o wybodaeth ariannol fanwl i aelodau na mwyafrif y Cynghorau eraill yng Nghymru. Bydd lefel y manylion ac amllder yn cael ei adolygu ar y cyd â'r ddarpariaeth o system reolaeth ariannol newydd.	
(G83) Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu. (G84) Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall (G89) Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson a phrydlon a bod y	(G83, G84) Adolygu arddull adroddiadau i aelodau (G89) Mae Cyllid Corfforaethol yn archwilio sut y gellir gwella dangosyddion perfformiad, yn enwedig o ran meincnodi.	Ar agor	(G83, G84) Mae Gweithgor bach o Swyddogion wedi bod yn adolygu templed adrodd y Cyngor er mwyn sicrhau canolbwynt ac ystyriaeth i adrannau perthnasol. Bydd newidiadau yn cael eu cyflwyno yn ystod 2026 (diwedd Chwarter 2 / dechrau Chwarter 3). (G89) Mae dangosyddion perfformiad yn parhau i gael eu defnyddio i ychwanegu gwerth ar gyfer dibenion adrodd.	Gwyrdd

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Cynnydd COG
datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill.				
Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Rheoli Asedau Cymunedol a Hamdden	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2025	Wedi cau	Mae'r pum cam gweithredu wedi'u rhoi ar waith.	Gwyrdd
Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Rheoli Plâu	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025	Wedi cau	O'r pum cam gweithredu, mae pedwar wedi'u rhoi ar waith ac mae rheolwyr yn derbyn y risg ar gyfer un cam gweithredu.	Gwyrdd
Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Gwariant Asiantaeth Oddi ar y Matrics	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025	Ar agor	Yn parhau - O'r saith cam gweithredu, mae un cam wedi'i roi ar waith, mae un cam gweithredu wedi cael cais i gau ac mae'r pump sy'n weddill yn mynd rhagddynt.	Oren
Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Gostyngiadau Costau Cyllidebol	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025	Ar agor	Yn parhau - mae tri cham gweithredu yn mynd rhagddynt.	Oren

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Y diweddaraf am gynnydd Materion Strategol Sylweddol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

Wrth adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor daethpwyd o hyd i 14 mater strategol (Risgiau Corfforaethol) ar gyfer 2024/25. Mae'r 14 risg yn parhau ar agor, gyda 11 risg yn parhau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae chwe risg wedi gwella, mae tri risg wedi dirywio ac mae pum risg heb newid. Mae tri risg wedi cael eu dad-uwchgyfeirio a bellach yn cael eu hadolygu / adolygu trwy Gofrestrau Risg Portffolio perthnasol. Manylir ynglŷn â hyn isod:

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenrol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
RCF01 -Cronfeydd wrth gefn Bydd diffyg arian wrth gefn yn effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor	• Monitro ac adrodd ar sefyllfa ariannol y sefydliad yn rheolaidd • Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLLC a rhannu materion allweddol • Trefniadau cynllunio ariannol cadarn ac amserol dros y tymor canolig • Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor • Adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi	Ar agor	Monitro ac adrodd ar sefyllfa ariannol y sefydliad yn rheolaidd yn parhau i gael ei gyflawni. Cyflwynwyd Adroddiad Monitro Refeniw Mis 10 i'r Cabinet ar 24 Mawrth gan hysbysu am orwariant rhagweledig o £2.776 miliwn sy'n symudiad cadarnhaol o (£1.754 miliwn) o'r sefyllfa a adroddwyd ym Mis 9. Bydd unrhyw ostyngiadau pellach i'r gorwariant yn cael effaith cadarnhaol ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn wrth i ni symud trwy 2025/26. Mae Cynlluniau Gweithredu wedi cael eu datblygu ar gyfer y portffolios hynny sy'n rhagweld gorwariant o fwy na £0.050 miliwn ac mae'r moratoriwm ar wariant nad ydynt yn hanfodol, yn parhau. Mae gan y Cyngor broses gyllideb glir a thryloyw a oruchwylir gan Weithgor Swyddogion sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae diweddariadau rheolaidd ar gynllunio cyllideb SATC yn cael eu rhannu gydag aelodau gyda'r nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2026.	16	9	4

¹ Mae sgôr darged ar gyfer rhai risgiau strategol yn statws COG coch yn sgil natur y risg ei hun

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			Ymgysylltiad parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC ac uwchgyfeirio materion allweddol - Mae'r cam gweithredu hwn yn destun ystyriaeth ac ymgysylltiad parhaus yn genedlaethol, ledled Cymru.			
RCF08 - Twyll ac Atal Efallai y bydd y Cyngor yn destun twyll o ffactorau mewnol ac allanol	- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, Polisi Rhannu Pryderon a'r Cynllun Ymateb i Dwyll. - Mae rheolyddion allweddol yn bodoli o fewn y systemau ariannol allweddol - Cyfranogi yn y Fenter Dwyll Genedlaethol	Ar agor Wedi ei ddad-uwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Portffolio	Mae'r risg wedi lleihau ac felly, wedi cael ei ddad-uwchgyfeirio o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae bellach yn cael ei adolygu a'i fonitro trwy'r Gofrestr Risg Portffolio.	6	6	6
RCF09 - Buddsoddiad Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai Mae diffyg cyllid digonol i fodloni targedau Safon Ansawdd Tai Cymru 2.0	- Mae'r maes gwasanaeth a chyllid yn gweithio i asesu effaith ariannol a dewisiadau lliniaru, adrodd y canfyddiadau i'r Uwch Dîm Rheoli, y Bwrdd Rhaglen a Thîm y Prif Swyddogion. - Llwybrau Ynni Targed ar gyfer yr holl stoc i'w cwblhau	Ar agor Wedi ei ddad-uwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Portffolio	Mae'r risg wedi lleihau ac felly, wedi cael ei ddad-uwchgyfeirio o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac mae bellach yn cael ei adolygu a'i fonitro trwy'r Gofrestr Risg Portffolio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am Lwybrau Ynni Targed ar gyfer yr holl stoc a gyflawnwyd, i weld pa waith sydd ei angen i gyflawni Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) 'A', ac y dylid cwblhau'r rhain erbyn 2027. Cafodd arolygon eu cynnal fel peilot yn 2025-2026 a bellach wedi parhau i ardaloedd eraill ar draws y Sir.	15	6	6
RCF18 - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Effaith ar sefydlogrwydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o'r	Monitro'r effaith ariannol yn rheolaidd ar draws y sefydliad	Ar agor	Mae rhai pwysau ychwanegol yn cael eu cydnabod gan LIC yn ystod y flwyddyn gyda chyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer NJC a Chyflog Athrawon a chyfraniadau YG	20	20	9

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
cynnydd yn y galw am wasanaeth, chwyddiant uchel a Setliadau Gostyngedig Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol	- Trefniadau cynllunio ariannol cadarn ac amserol dros y tymor canolig - Cyfraniad parhaus i'r drafodaeth genedlaethol ar fformiwla gyllid sy'n decach. - Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC a rhannu materion allweddol - Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor		Gweithwyr ychwanegol. Mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys fel eitemau ychwanegol a ariennir o fewn setliad terfynol LLC ar gyfer 2026/27. Mae adroddiadau monitro refeniw misol yn parhau i gael eu cynhyrchu ac fe gafodd yr adroddiad diweddaraf ar gyfer mis 10 ei gyflwyno ym Mawrth 2026. Mae gan y Cyngor broses gyllideb glir a thryloyw a oruchwylir gan Weithgor Swyddogion sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae diweddariadau rheolaidd ar gynllunio cyllideb SATC yn cael eu rhannu gydag aelodau gyda'r nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2026. Cyfraniad tuag at drafodaeth genedlaethol ar fformiwla cyllido decach - Mae'r cam gweithredu hwn yn destun ystyriaeth ac ymgysylltiad parhaus yn genedlaethol ar draws Cymru. Ymgysylltiad gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC ac uwchgyfeirio materion allweddol - Mae'r cam gweithredu hwn yn destun ystyriaeth ac ymgysylltiad parhaus yn genedlaethol, ledled Cymru. Cymeradwywyd cyfraniad ychwanegol wedi'i gyllidebu i'r cronfeydd wrth gefn o £1.205 miliwn yng nghyllideb 2025/26 ac mae diweddariad ar gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi wedi'i gynnwys bob mis yn yr adroddiad monitro refeniw. Roedd digonoldeb y cronfeydd wrth gefn heb eu			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			clustnodi yn ystyriaeth allweddol wrth osod cyllideb ar gyfer 2026/27 ym mis Chwefror. Disgwylir sefyllfa derfynol well yn 2025/26 a fydd yn cynyddu'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael ymhellach.			
REY01- Hyfywedd Ariannol Ysgolion Nid yw ysgolion yn ariannol hyfyw oherwydd cyllid sylfaenol annigonol	- Rheoli'r gostyngiad mewn diffyg cyllidebol ysgolion yn fwy effeithlon - Cyfarfodydd herio a chefnogi gyda Phennaeth/Rheolwr Busnes yr ysgol a sesiynau monitro'r gyllideb rheolaidd gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cadw at y protocol diffygion trwyddedig, gyda diffyg cydymffurfiaeth yn arwain at weithdrefnau ffurfiol o dan brotocol Diffyg Trwyddedig Ysgolion. - Cyfarfodydd Grŵp Monitro Perfformiad Ariannol i adolygu perfformiad a chytuno ar gynllun gweithredu gyda chamau gweithredu penodol a therfynau amser i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. - Trefnu / cymeradwyo adolygiad o Fformiwla Gyllid Disgyblion Ysgol drwy Fforwm Cyllidebau Ysgolion i sicrhau y dyrennir y cyllidebau sylfaenol yn y modd gorau posibl. - Mecanweithiau cymeradwyo'r awdurdod lleol ar gyfer recriwtio staff mewn ysgolion sydd â diffyg ariannol	Ar agor	Yn dilyn trafodaeth ym Mwrdd Rhaglen Addysg ac Ieuenctid, mae lefel cyffredinol y risg mewn perthynas â hyfywedd ariannol ysgolion bellach wedi cael ei uwchraddio i'r lefel uchaf (Tebygolrwydd - 5 [bron yn sicr]; Effaith - 5 [trychinebus]) gan fod balansau diffygiol ysgol ar y fantolen a gwrthbwysio lefel cyffredinol y Cyngor o gronfeydd wrth gefn. Er gwaethaf hyn, mae Swyddogion Cyngor o'r tîm Cyllid, Tîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a Chynnydd yn parhau i gefnogi a chynghori ysgolion ar reoli eu cyllidebau yn effeithiol ac mae'r Protocol ar gyfer Ysgolion mewn Anawsterau Ariannol yn parhau i gael ei ddilyn. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys lefel briodol o her er mwyn sicrhau bod yr holl wariant yn rhesymol a bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu diogelu. Rydym yn parhau i gwrdd gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i adolygu prosesau a strwythurau ysgol er mwyn cynnal hyfywedd ariannol ysgolion a lleihau balansau diffygiol ysgolion. Rydym wedi cynnal 28 o gyfarfodydd Cefnogi a Herio gydag ysgolion dros y flwyddyn ariannol 25/26 ac mae pump o'r ysgolion hynny wedi cael eu huwchgysfeirio	20	25	15

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			i gyfarfodydd Grŵp Monitro Perfformiad Ariannol gyda'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Addysg, Swyddog Adran 151, Arweinydd ac Aelod Cabinet. Mae'r broses cefnogi a herio ariannol yn parhau nes bod yr ysgol wedi dangos adferiad ariannol cynaliadwy. Mae'r Cyngor yn parhau i atgoffa ysgolion o'r gofynion o fewn y Protocol Ysgolion mewn Anawsterau Ariannol i gael cymeradwyaeth ar gyfer recriwtio os yw'r ysgol mewn balans diffygiol. Rydym yn parhau i ymateb i geisiadau mor effeithlon â phosibl ac yn monitro ceisiadau a dderbynnir gan ysgolion.			
RGV01 - Colli TG / Seiberddiogelwch. Achos difrifol o golli data corfforaethol a systemau oherwydd digwyddiad diogelwch / amgylcheddol / technegol	- Adolygu a phrofi'r Cynllun Adfer Trychineb TG yn rheolaidd. - Adolygiad llawn o bolisiau diogelwch TG - Cofrestru gyda CymruSOC - Cynnal PSN dilyn	Ar agor	Mae effaith risg targed yn parhau'r un fath i adlewyrchu'r dirwedd risg seiberddiogelwch parhaus, gan gynnwys rhybudd sensitif swyddogol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yng nghanol mis Mawrth. Adolygiadau polisi yn parhau. Mae 5 polisi wedi cael eu cyfuno i un er mwyn creu Polisi Defnydd Derbyniol a Monitro TG. Polisi Deallusrwydd Artiffisial wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet. Y ddau i'w lansio yn Ebrill 2026. Mae gan y Cyngor dystysgrif PSN cyfredol.	20	20	20
RHC09 – Adnoddau i gwrdd â Rhwymedigaethau Digartrefedd	Cyflawni gwaith ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tai ac Atal (fel y	Ar agor	Mae'r galw am wasanaethau digartrefedd yn parhau i fod yn sylweddol gyda galw	20	12	4

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
Nid yw'r Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau digartrefedd statudol oherwydd prinder staff, pwysau cyllidebol a diffyg llety	cefnogwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2024) i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth. - Adolygiad ariannol misol o'r cyllidebau er mwyn monitro gwariant presennol a rhagamcan o bwysau yn y flwyddyn ac yn y dyfodol - Monitro defnydd llety brys gyda'r bwriad o hysbysu'r gweithlu, gweithgareddau symud ymlaen a chynllunio llety pobl ddigartref yn fisol. - Gweithredu ystod o ddewisiadau amgen ar gyfer gwestai a llety gwely a brecwast fel llety i'r digartref (fel y cefnogwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2024) - Rhagamcanu a Chynllunio'r Gyllideb: Gweithredu dulliau rhagweld sy'n fwy cadarn i ragweld y galw am lety a dyrannu'r adnoddau gofynnol ymlaen llaw - Adolygiad ariannol misol o'r cyllidebau er mwyn monitro gwariant presennol a rhagamcan o bwysau yn y flwyddyn ac yn y dyfodol - Partneriaethau â Darparwyr Tai: Archwilio partneriaethau strategol gyda darparwyr tai'r sector preifat i ehangu'r gofodau gwely sydd ar gael fel llety dros dro.		cynyddol yn dechrau 2026. Mae recriwtio bellach wedi'i gwblhau gydag aelodau newydd y gwasanaeth wedi ymuno yn niwedd mis Mawrth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i adrodd data misol ar Ddigartrefedd a Llety Dros Dro a gyflwynir i Graffu. Mae arallgyfeirio Llety Dros Dro yn parhau i fynd rhagddo gyda'r timoedd yn gweithio'n galed i barhau i gofrestru mathau mwy addas a fforddiadwy o Lety Dros Dro. Nawr bod yr ailstrwythuro wedi cael ei gwblhau, bydd angen amser i'r gwasanaeth gael ei sefydlu'n llawn a gweithredu'n effeithiol. Mae cyfarfodydd cyllid misol yn parhau i fonitro gwariant. Mae incwm o Fudd-daliadau Tai a ffioedd gwasanaeth yn parhau i gael eu hadennill. Ni adroddir unrhyw orwariant presennol ar gyllideb ddigartrefedd. Mae modelu ariannol wedi cael ei gyflawni er mwyn rhagweld unrhyw bwysau cyllidebol yn y dyfodol o fewn y gwasanaeth, o ystyried y niferoedd cynyddol sy'n datgan eu bod yn ddigartref. Mae data misol ar y galw ar wasanaethau digartrefedd a llety dros dro yn parhau i gael eu hadolygu gan y tîm rheoli Cymorth Tai a Digartrefedd a chyllid, ar gyfer rhagweld gwariant a rheolaeth ariannol. Mae data'n parhau i gael ei rannu gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Thai bob mis.			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			Mae lleoliadau o fewn pob ffurf o lety digartref yn cael eu hadolygu ac mae symudiadau cadarnhaol yn parhau i arallgyfeirio'r portffolio llety digartref, gyda chynnydd yn yr eiddo ar Gynllun Prydlesu'r Cyngor a thrwy'r Cyfrif Refeniw Tai, gan gynnig mwy o gapasiti a buddion o ran cost. Mae modelu ariannol wedi cael ei gyflawni i ganfod unrhyw bwysau cyllidebol yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys mapio llety dros dro ychwanegol sy'n dod ar-lein dros y flwyddyn yn erbyn y galw a ragwelir. Nid oes unrhyw bryderon presennol o ran gorwariant yn y gyllideb. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi'r gwasanaeth ar gyfer cyflwyno Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026. Mae'r portffolio llety dros dro yn parhau i dyfu trwy ein partneriaeth gyda D2 PropCo a phrydlesau ychwanegol gyda landlordiaid y sector preifat a thrwy Gynllun Prydlesu Cymru. Mae cyfleoedd ychwanegol yn cael eu harchwilio gyda darparwyr.			
RHR29 - Recriwtio a Chadw Diffyg gallu i ddenu a chadw gweithwyr gwerthfawr	- Darparu templed cynllunio'r gweithlu i'w ddefnyddio ar draws y sefydliad - Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio.	Ar agor	Mae rhai portffolios yn parhau i gael heriau wrth lenwi swyddi gwag, yn rhannol yn sgil prinder cenedlaethol ac yn rhannol gan nad yw model cyflog y Cyngor yn gystadleuol. Fodd bynnag, disgwylir i'r model cyflog ddatblygu yn seiliedig ar drafodaethau diweddar. Mae cynnydd ar y camau lliniaru yn cynnwys templed	9	3	2

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
	- Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth. - Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd		cynllunio'r gweithlu diwygiedig a anfonwyd i'r Prif Swyddogion ar 18 Mehefin 2025. Bydd y templed hwn yn cynorthwyo dadansoddiad ac yn canfod tueddiadau neu feysydd sydd angen cymorth neu ymyrraeth gan gynnwys canfod sefyllfaoedd risg uchel ar gyfer cynllunio olyniaeth. Gofynnwyd i Brif Swyddogion gwblhau templed diwygiedig ar gyfer cynllunio'r gweithlu (i sicrhau cysondeb mewn dulliau gweithredu a'u cynorthwyo i ddadansoddi ac adnabod tueddiadau/meysydd lle mae angen cefnogaeth/ymyrraeth). Gofynnwyd i'r Prif Swyddogion ddiwygio a'i anfon i'r Prif Weithredwr erbyn diwedd Chwefror 2026. Mae'r model a ffefrir wedi cael ei gostio a'i rannu gyda'r Tîm Prif Swyddogion. Mae'r Prif Swyddogion wedi adolygu effaith y newidiadau o ganlyniad i'r confensiynau diwygiedig a'r model cyflog newydd gyda'r Partner Busnes AD er mwyn sefydlu os oes unrhyw feysydd o bryder/ymholiadau sydd angen mynd i'r afael â nhw.			
RHR30 - Costau'n ymwneud â Chyflogaeth Costau cynyddol yn gysylltiedig ag adnoddau dros dro / ychwanegol ar gyfer y gweithlu o ganlyniad i swyddi gwag, absenoldeb salwch ac ati (er enghraifft, goramser, oriau ychwanegol, costau asiantaeth)	- Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio. - Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth.	Ar agor	Mae'r model a ffefrir wedi cael ei gostio a'i rannu gyda'r Tîm Prif Swyddogion. Mae'r Prif Swyddogion wedi adolygu effaith y newidiadau o ganlyniad i'r confensiynau diwygiedig a'r model cyflog newydd gyda'r Partner Busnes AD er mwyn sefydlu os oes unrhyw feysydd o bryder/ymholiadau sydd angen mynd i'r afael â nhw.	12	4	6

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraaf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			Mae'r model a ffeifir wedi cael ei gostio a'i rannu gyda'r Tim Prif Swyddogion. Mae'r Prif Swyddogion wedi adolygu effaith y newidiadau o ganlyniad i'r confensiynau diwygiedig a'r model cyflog newydd gyda'r Partner Busnes AD er mwyn sefydlu os oes unrhyw feysydd o bryder/ymholiadau sydd angen mynd i'r afael â nhw.			
RPE11 - Fforddiadwyedd y Nod Carbon Sero Net Fforddiadwyedd cyflawni nod carbon sero net y Cyngor. Diffyg gallu i ymrwymo neu ddenu adnoddau digonol i gydlynw'r rhaglen a chyflawni prosiectau, gan arwain at gyfleoedd na wneir y mwyaf ohonynt, camau gweithredu heb eu cyflawni a buddion heb eu gwireddu.	• Ceisio canfod cyllid allanol gan ddefnyddio'r strategaeth newid hinsawdd a chynllun gweithredu fel naratif • Cyflwyno ceisiadau cyllid allanol cryf a chydlynol, gan gydweithio ar draws y rhanbarth a rhwng yr adrannau o fewn y Cyngor • Ceisio cyflwyno mewnbwn cynnar i'r Cyllidebau ar gyfer referniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a chynnal deialog parhaus o ran cynlluniau ariannol tymor canolig i hirdymor i sicrhau ymrwymiad tuag at gyllido nodau carbon. • O ran penderfyniadau a blaenoriaethu ar draws y Cyngor, cyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i rai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar draws y Cyngor gan alluogi swyddogion i ystyried effeithiau carbon yn y camau cynnar wrth ddatblygu prosiectau er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth mewn cynigion cyllid mewnol ac allanol.	Ar agor	Mae mwy o fanylion yn cael eu darparu ar gyfer y Gronfa Twf Lleol trwy'r atodiad Blaenoriaethau ac Amcanion Buddsoddi. Mae Adran 3.2 a 3.3 yn nodi buddsoddiad cyfalaf wedi'i alinio i gynlluniau cludiant rhanbarthol a strategaethau / cynlluniau ynni. Nid oes diweddariad pellach ar brosiectau sydd wedi'u cyflwyno. Mae Timoedd y Cyngor yn parhau i archwilio i, a derbyn cyllid sydd yn dod ar gael megis y Grant Cludiant sy'n cefnogi llwybrau teithio llesol ac isadeiledd gwefru. Mae'r pecyn Partneriaeth Leol yn darparu costau a llwybrau lleihau carbon lefel uchel, ond nid yw'n darparu'r wybodaeth hon ar lefel asedau unigol. Mae hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn cael ei ddarparu i Swyddogion y Cyngor ac mae nifer yn mynychu.	6	9	2

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
	Bydd gweithredu costau cyfnod oes mewn achosion busnes yn nodi costau hirdymor a buddion y cynlluniau.					
RPE46 - Effaith Newid Hinsawdd Diffyg gallu'r Cyngor i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith newid hinsawdd, gan achosi risg i wydnwch gwasanaethau'r Cyngor a'i gymunedau a'r gallu i addasu i newid hinsawdd	Mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o bethau er mwyn lliniaru'r hinsawdd, ond mae effaith newid hinsawdd yn dod i'r amlwg heddiw, a bydd yn cynyddu dros amser. Bydd asesiad risg hinsawdd ac addasu a chynllun gweithredu'n cael eu cwblhau, gan gynnwys nifer o fudd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn wydn i'r newid.	Ar agor	Mae'r prosiect Rhanbarthol Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn mynd rhagddo gydag ymchwilydd wedi eu penodi i ymgysylltu gydag Awdurdodau Lleol ar risgiau hinsawdd a mesurau lliniaru sy'n benodol iddyn nhw. Mae cyfarfod Sir y Fflint gyda'r ymchwilydd wedi'i drefnu ar gyfer 13 Ebrill gyda Swyddogion y Gweithgor Hinsawdd a'r Prif Swyddog yn mynychu. Mae cwestiynau a phapurau cyn y cyfarfod wedi cael eu cyhoeddi gan y Tîm Newid Hinsawdd. Mae llunio Asesiadau Risg yr Awdurdod Lleol yn digwydd gyda Chynghorau'n cael cyfweiliadau gyda'r ymchwilydd. Ymgysylltodd Swyddogion Cyngor Sir y Fflint gydag ymchwilydd asesiad risg yn Ebrill, a disgwylir asesiad risg drafft ym Mehefin 2026 ar gyfer ei adolygu.	3	9	3
RSS54 - Cynaliadwyedd Darpariaeth Gofal Digonolrwydd lleoliadau / sefydlogrwydd y farchnad yn arwain at ddarpariaeth gofal annigonol ac nad yw'n fforddiadwy	- Parhau i lobio Llywodraeth Cymru i wella setliad ariannol Sir y Fflint, i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad a digonolrwydd lleoliadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. - Defnyddio teclyn meincnodi ffioedd gofal CareCubed i weithio gyda darparwyr gofal i ddeall eu costau a risgiau o safbwynt cynaliadwyedd parhaus.	Ar agor	Mae'r galw am leoliadau a chymhlethdod yr anghenion yn parhau i fod yn uchel, ac mae heriau digonolrwydd yn parhau. Mae rheolyddion a chamau lliniaru yn parhau, heb unrhyw welliant na dirywiad sylweddol mewn argaeledd neu sefydlogrwydd lleoliadau. Mae gwaith yn parhau i gefnogi lobio Llywodraeth Cymru i gefnogi	12	16	4

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
	- Agor 12 o welyau ail-alluogi newydd yng Nghartref Gofal Preswyl Tŷ Croes Atti. - Mae'r Tîm Cefnogi Aml-asiantaeth yn gweithio gyda theuluoedd pobl ifanc ar ymyl gofal i atal chwalfa mewn lleoliad/ teuluoedd a lleihau'r angen am leoliadau brys heb eu cofrestru. - Archwilio'r posibilrwydd o leoli ystafelloedd dosbarth symudol ar safleoedd ysgolion arbenigol i gynyddu'r capasiti ar gyfer lleoliadau addysgol, gan leihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r Sir. - Dechrau gwaith gadael gofal drwy banel aml-asiantaeth. - Gwneud y gorau o'r opsiynau tai lleol. - Mynd i'r afael â cham-fanteisio drwy'r grŵp Strategaethol a Gweithredol MET (Ar Goll, Camfanteisio, Masnachu) - Datblygu polisiâu a dulliau i ddenu gofalwyr maeth newydd ac ymestyn y math o leoliadau a gynigir. - Gweithio gyda darparwyr lleol i ail-lunio'r farchnad breswyl		sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r defnydd o CareCubed bellach wedi'i sefydlu i arferion gweithio ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae cyfarfodydd 10 Uchaf yn parhau i adolygu'r pecynnau gofal mwyaf costus ac yn defnyddio CareCubed i adolygu'r rhain lle bo'n briodol. Cafwyd cytundeb gyda BIPBC fod yr holl becynnau Gofal Iechyd Parhaus a ariennir yn llawn o'r gofal a gomisiynir trwy'r Fframwaith CCAPS (fframwaith anghenion cymhleth Iechyd) yn cael eu hadolygu os dydd Awdurdodau Lleol yn rhoi cyllid ar y cyd. Yna gall yr Awdurdod Lleol ddod o hyd i becynnau trwy ddefnyddio CareCubed fel offeryn cefnogi. Yn dilyn agor Cartref Gofal ym mis Tachwedd, rydym yn parhau i gyflawni asesiadau a chefnogi preswylwyr newydd. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda BIPBC, fferyllfa a rheolwyr gofal Preswyl CSFf i symud ymlaen gydag agor D2RA. Mae cytundeb a gweithrediad y cymorth gofal sylfaenol yn cael ei reoli gan gydweithiwr Iechyd. Mae derbyniadau i D2RA yn cael eu cefnogi gan atgyfeiriadau sy'n dod drwy'r Swyddfa Cartref yn Gyntaf. Mae MST ac MST-FIT yn parhau i weithio gyda theuluoedd i atal pobl ifanc rhag mynd i ofal, colli lleoliad ysgol neu rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r tîm MST-CAN bellach yn gweithredu'n llawn ac wedi bod yn gweithio gyda rhieni i wella iechyd			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			meddwl, gwella cyfathrebu rhwng plant a rhieni, lleihau rhieni yn camddefnyddio sylweddau, lleihau risgiau a sicrhau amgylchedd cartref mwy diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae llety symudol wedi cael ei ddarparu. Mae gwaith yn parhau er mwyn adolygu cynnydd plant a phobl ifanc yn eu lleoliadau, ac i ganfod aelodau teulu neu ofalwyr cysylltiedig sydd yn alinio gyda, ac yn addas ar gyfer cynlluniau camu i lawr a rhyddhau gorchmynion gofal lle bo'n briodol. Cefnogir y gwaith hwn gan MST FIT a Thŷ Nyth (cartref ail-uno CSFf) sy'n darparu ymyrraeth ddwys, dau gam i gynorthwyo gyda chynllunio diogelwch ac adsefydlu. Mae hyn wedi cyfrannu tuag at leihad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Sir y Fflint a Wrecsam, yn ogystal â lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau drud tu allan i'r Sir. Mae Paneli Lleoliadau gyda Rheini yn digwydd bob 8 wythnos gan drafod diweddariadau misol - cymeradwywyd 3 rhyddhad, 7 yn disgwyl llys / dyddiad llys. Mae cyfarfodydd misol gyda lleoliadau parhaol a maeth yn digwydd i adolygu'r holl GGA sydd yn mynd rhagddynt, a'r posibilrwydd i wneud cynnydd. Rydym yn y broses o sefydlu Panel / Rhaglen 'Camau Nesaf' i ystyried holl blant sy'n derbyn gofal, eu cynlluniau gofal a chynnydd ar gyfer symud i ddarpariaethau camu i lawr			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenrol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			neu fewnol, megis preswyl i faeth neu faeth i adferiad gyda rhieni. Mae cydweithio cadarnhaol yn parhau, gyda chanolbwynt ar wella prosesau a chanfod llety addas ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a thra bod argaeledd yn parhau i fod yn her, mae cynnydd wedi cael ei wneud. Mae'r panel MET yn parhau i weithredu'n dda ac yn cwmpasu'r Canolbwynt Diogelu Cyd-destunol gyda'r nod o greu gofodau a llefydd mwy diogel i bobl ifanc a'r gymuned gyfan. Mae'r broses atgyfeirio yn parhau i weithio'n effeithiol ac yn cael ei gefnogi gan bresenoldeb y Cadeirydd a fforymau perthnasol eraill a gynhelir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, gan gryfhau ein gwaith partneriaeth aml-asiantaeth. Datblygu polisïau yn unol â strategaeth Maethu Cymru - gan archwilio amrywiaeth o leoliadau gofal maeth, ar y cyd a chyffredinol/cysylltiedig. Yn edrych ar lansio ein pumed clwstwr MB yng Ngwanwyn 2026. Mae Gwasanaeth Preswyl Plant Sir y Fflint yn ehangu'r cynnig gofal mewnol er mwyn diwallu anghenion lleol yn well. Cyfarfodydd Chwarterol gyda Darparwyr, wedi'i gadeirio gan y Cyngor, yn creu gofod ar gyfer trafodaethau cydweithredol a gwaith partneriaeth i gefnogi'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc Sir y Fflint.			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			Rhennir adnoddau gyda darparwyr lleol, ac mae hyfforddiant yn cael ei gomisiynu ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol eraill a Darparwyr Annibynnol er mwyn cyfuno adnoddau, lleihau costau a chryfhau gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y sector. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Preswyl Plant y Cyngor yn gweithredu pedwar cartref, gyda chartref arall ar fin ailagor a thri phrosiect newydd yn cael ei datblygu, gan gynnwys prydlesu dau eiddo a chaffael un arall. Mae recriwtio yn digwydd yn raddol i gefnogi'r cartrefi newydd hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Gweithredu dros Blant i ddatblygu darpariaeth newydd yn cynnig gofal a chymorth therapiwtig ar gyfer hyd at dri o blant a phobl ifanc, a ddylai agor ym mis Awst 2026.			
RST07 - Cynnydd mewn Gwastraff Gweddilliol Anallu i gyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol yn sgil y cynnydd mewn gwastraff gweddillol a gesglir	- Lleihau amllder casgliadau gwastraff gweddilliol ymyl palmant o bob pythefnos (90 litr yr wythnos) i bob tair wythnos (60 litr yr wythnos). - Cyflwyno polisi gwastraff gweladwy yn y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref i leihau nifer yr eitemau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu cyflwyno i'r ffrwd gwastraff gweddilliol	Ar agor Wedi ei ddad-uwchgylfeirio i'r Gofrestr Risg Portfolio	Ar y cyfan, mae perfformiad wedi gwella'n nodedig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gostyngodd canran ailgylchu yn Chwarter 3 i 64%. Er bod hyn yn ddirywiad o Chwarter 1 a 2, mae'n parhau i fod yn llawer uwch na chanran y flwyddyn flaenorol o 60% ac yn dal i roi cyfanswm cyffredinol o dros 70% ar gyfer Chwarter 1 i 3. Rydym yn obeithiol o weld cynnydd ar gyfer Chwarter 4 a fydd yn ein helpu ni i gyflawni'r targedau statudol ac rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r cynnydd o 4.5% sydd wedi cael ei ddynodi yn yr adroddiad modelu newid gwasanaeth.	12	6	2

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
			Mae amllder casgliadau gwastraff gweddilliol ymyl palmant wedi lleihau o bob pythefnos (90 litr yr wythnos) i bob tair wythnos (60 litr yr wythnos) yn Ebrill 2025. Mae adroddiadau cynnar yn dangos gostyngiad yn nhunelli o wastraff na ellir ei ailgylchu trwy'r Parc Adfer ar gyfer eu llosgi. Cyflwynwyd polisi gwastraff gweledol yn y canolfannau ailgylchu gwastraff cartref er mwyn lleihau eitemau ailgylchu rhag cael eu cynnwys yn y ffrwd wastraff gweddillol, ar y safleoedd ar 1 Ebrill 2025 (cyn y newid gwasanaeth), mae'r polisi wedi dangos gostyngiad yn y lefelau o wastraff nad ellir ei ailgylchu sy'n cael ei anfon i'r Parc Adfer, ac ar ôl cael problemau cychwynnol, mae'r cyhoedd bellach yn newid eu harferion/ymddygiad.			
RST78 - Cyflwr Rhwydwaith Priffyrdd Gall y diffyg buddsoddiad cynaliadwy yn y rhwydwaith priffyrdd waethgu dirywiad y rhwydwaith priffyrdd. Effaith hyn yw ôl-groniad cynyddol o atgyweiriadau, a all gynyddu'r risg i ddiogelwch y cyhoedd, dyled ariannol a gwytnwch asedau hirdymor. Bydd hefyd yn effeithio ar ein gallu i adeiladu gwytnwch y rhwydwaith	- Gwella'r broses o reoli hawliadau i amddiffyn yn erbyn hawliadau anghyfiawn a lleihau dyledion ariannol - Gweithredu System Rheoli Asedau Priffyrdd newydd - Gweithredu Llawlyfr Cynnal a Chadw newydd	Ar agor	Mae'r sefyllfa risg cyffredinol yn parhau heb ei newid. Er bod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gael yn 202/26 i gefnogi gwelliannau i'r isadeiledd priffordd, mae'r cyllid hwn wedi cael ei dargedu tuag at raglenni cynnal a chadw ataliol penodol, ac nid yw'n mynd i'r afael â'r bwlch sylfaenol mewn cronfeydd strwythurol, sydd ei angen i gyflawni cyflwr rhwydwaith sefydlog. Mae'r cyfanswm buddsoddiad cyfalaf (mewnol ac allanol) yn parhau i fod o dan y lefel gofynnol i wrthbwysu'r dirywiad blynyddol ar draws y	12	12	4

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Statws Cyfredol	Y Diweddaraf am Gynnydd	Sgôr Flaenorol	Sgôr cyfredol ¹	Sgôr Darged
priffyrdd yn erbyn pwysau chwyddiant a newid hinsawdd.			rhwydwaith. O ganlyniad, mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau i gynyddu. Yn ei dro, arhosodd lefelau cyllid referiw yn annigonol er mwyn rheoli'r cynnydd o ddifffygion ymatebol. Mae hyn yn parhau i roi pwysau ar adnoddau gweithredol ac amseroedd ymateb, gyda goblygiadau ar gyfer risg diogelwch, hawliadau trydydd parti a gwytnwch y rhwydwaith. Mae'r System Rheoli Asedau Priffyrdd newydd (Alloy) ar waith, gyda gwaith yn parhau er mwyn datblygu'r llif gwaith ac adrodd o fewn y system. Ar y cyd â hyn, rydym wedi gweithredu Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd cymeradwy a Pholisi Archwilio newydd.			

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Beth yw'r materion Llywodraethu a nodwyd yn ystod 2026/27?

Roedd adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi canfod 32 o faterion llywodraethu mewnol yn ystod 2025/26 a thri Archwiliad Sicrwydd Coch/Cyfyngedig. Mae'r meysydd gwelliant newydd a nodwyd yn ystod 2025/26 wedi'u hamlygu'n **goch**:

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2026/27	Camau Lliniaru
(A1) Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r sefydliad (A2) Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) (A10) Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.	- Parhau i amlygu rôl a chyfrifoldebau Aelodau - Gweithdy ar gyfer Aelodau (pan fo angen) - Parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu perthnasol - Cyfathrebu gydag Aelodau cyn diwedd Mai 2026, gan amlygu nifer y cyfleoedd e-ddysgu a hyfforddi sydd ar gael. - Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses graffu yn cynnwys rheoli a chydlynu'r rhaglen graffu, hyfforddiant a datblygu'r cadeiryddion a'r aelodau craffu, ac atgyfnerthu gwir bwrpas a swyddogaeth craffu - Datblygu a chyflymu'r gwaith gan CLILC ar rolau, perthnasoedd ac ymddygiad. Bydd angen cynllun gwaith y cytunwyd arno i gyflawni'r argymhellion a wnaed gan CLILC
(B24) Gweithredu dulliau adborth effeithiol er mwyn dangos sut caiff eu barn ei hystyried. (B26) Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol	- Darparu'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu - Tîm y Prif Swyddogion i sicrhau ymgynghoriad gyda grwpiau cymunedol. - Diweddarau'r strategaeth ddigidol (i gynnwys Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad a'r broses gymeradwyo). - Adolygiad blynyddol o'r ymgynghoriad. - Llunio strategaeth gyfathrebu ddiwygiedig. - Adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y cyfathrebiadau.
(C27) Gweledigaeth glir, datganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriedig y sefydliad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol cynlluniau a phenderfyniadau eraill y sefydliad. (C28) Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy. (C29) Cyflawni canlyniadau diffiniedig mewn ffordd gynaliadwy yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael	- Adolygu'r model cyflogau - Adolygu'r heriau wrth reoli swyddi gweigion - Defnyddio Asesiadau o Effaith Integredig yn gyson ar draws y portffolios - Bydd hyfforddiant ar yr Asesiadau o'r Effaith ar lechyd newydd ar gael i holl weithwyr yn yr Hydref, yn ogystal â hyfforddiant ar Asesiadau o Effaith Cyfamod y Lluedd Arfog, a ddaw yn statudol yn Ebrill 2027. - Hyfforddiant i Aelodau - Datblygu a gweithredu Nodyn Canllaw ar gyfer Cynigion - Dyfeisio a phrosesu a darparu hyfforddiant mewn perthynas ag Asesiadau Effaith Integredig

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2026/27	Camau Lliniaru
(C31) Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael (C32) Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisiâu, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau (C33) Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.	- Gweithredu newidiadau yn dilyn adolygiad o'r Cyfansoddiad (Chwarter 1 2026) - Cyflawni adolygiad ffurfiol o'r model gweithredu cyfredol a chyflwyno model diwygiedig neu amgen i'r Cabinet i'w gymeradwyo. - Pe bydd y newidiadau'n cael eu cymeradwyo, comisiynu Korn Ferry i gyflawni adolygiad o faint/siâp y rolau yn y tîm Prif Swyddogion.
(D36) Sicrhau fod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n derbyn dadansoddiad gwrthrychol a manwl o amrywiaeth o opsiynau gan ddangos sut fyddai'r canlyniadau bwriedig yn cael eu cyflawni yn ogystal â'r risgiau sydd ynghlwm â'r opsiynau hynny. Felly, bydd hyn yn sicrhau'r gwerth gorau sut bynnag y darperir gwasanaethau. (D40) Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio yn cynnwys risgiau a rennir. (D41) Sicrhau fod trefniadau'n hyblyg er mwyn gallu addasu dulliau ar gyfer cyflawni allbynnau i amgylchiadau newidiol. (D43) Sicrhau bod modd cynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd (D44) Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig. (D45) Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refeniw a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy (D46) Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau. (D47) Sicrhau bod y broses gyllidebu'n holl-gynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor (D48) Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar broblemau cyflawni sylweddol neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol allai godi yn ystod y cyfnod cyllidebol er mwyn cyflawni canlyniadau tra'n manteisio ar ddefnyddio adnoddau.	(D36) – Cydweithio cynnar rhwng meysydd gwasanaeth a chyllid er mwyn sicrhau bod gwerthusiad dewisiadau cynhwysfawr ar gael i gefnogi penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol ac egwyddorion adennill cost lle bo'n briodol. (D40) Fel rhan o adnabod partneriaid y Cyngor, datblygu strategaeth neu bolisi'r Cyngor ar gyfer gwaith partneriaeth, bydd unrhyw risgiau partneriaeth yn cael eu canfod. (D41) Cydweithio parhaus rhwng meysydd gwasanaeth a chyllid (yn dilyn D36) (D43) Fel rhan o adolygiad Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data, archwilio sut y gellir defnyddio data / cyflwyno data fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a monitro perfformiad. (D44, D45, D46, D47) Bydd Cynllun diwygiedig y Cyngor yn cefnogi nodi'r adnoddau sydd eu hangen o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r nod o ragamcanu gofynion cyllid ymhellach a sut y gall gwybodaeth am berfformiad gefnogi hyn. (D48) Datblygu CATC cadarn 5 mlynedd gan gynnwys arbedion a phwysau cost a ragwelir.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2026/27	Camau Lliniaru
(E51) Gwellu'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon (E54) Datblygu protocolau i sicrhau fod arweinwyr etholedig a phenodedig yn trafod eu cyfrifoldebau priodol yn gynnar yn y berthynas, a bod gan bawb ddealltwriaeth o rolau ac amcanion (E57) Datblygu gallu aelodau ac uwch-reolwyr i arwain ar y cyd yn llwyddiannus ac i alluogi'r awdurdod i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol (E59) Sicrhau fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a'r gefnogaeth briodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus	(E51) Gwellu'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon. - Fel rhan o'u datblygiad parhaus, bydd aelodau'n cael y dasg o gwblhau sesiynau Cwestiynu a Delio â Data a gynigir gan Data Cymru. Bwriedir i holl aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fynychu sesiwn erbyn diwedd y flwyddyn gyfredol (31 Rhagfyr 2026). (E54) Bydd y Gweithgor Gwleidyddol / Proffesiynol a ffurfiwyd o'r gwaith a gyflawnwyd gan CLILC i wella perthnasau a dealltwriaeth o rolau rhwng aelodau a swyddogion, yn helpu i ddatblygu'r protocolau er mwyn sicrhau bod arweinwyr etholedig a phenodedig yn trafod eu rolau yn gynnar yn y berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o'r rolau ac amcanion yn cael ei gynnal. (E57) Bydd y Gweithgor Gwleidyddol / Proffesiynol a ffurfiwyd o'r gwaith a gyflawnwyd gan CLILC i wella perthnasau a dealltwriaeth o rolau rhwng aelodau a swyddogion, yn helpu i ddatblygu gallu aelodau ac uwch reolwyr i gyflawni arweinyddiaeth a rennir effeithiol ac i alluogi'r awdurdod i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol. (E57) Bydd adolygiad manwl o'r rhaglen sefydlu aelodau yn cael ei gyflawni yn ystod 2026 a fydd yn darparu sesiynau effeithiol wedi'u dylunio i alluogi aelodau ac uwch-reolwyr i arwain ar y cyd yn llwyddiannus ac i alluogi'r awdurdod i ymateb yn llwyddiannus i ofynion cyfreithiol a pholisi sy'n newid, yn ogystal â newidiadau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol. (E59) Bydd adolygiad manwl o'r rhaglen sefydlu aelodau yn cael ei gyflawni yn ystod 2026, a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu sesiynau a fydd yn galluogi aelodau i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth briodol i gyflawni eu rolau a chyfrifoldebau. Bydd hyfforddiant i aelodau yn cael ei ddiweddarau i gyd-fynd â'r rhaglen sefydlu er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus.
(F69) Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad. (F70) Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisiau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt (F80) Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd.	- Parhau i ymgorffori'r Fframwaith Rheoli Risg - Cyflawni adolygiad blynyddol o'r fframwaith rheoli risg - Datblygu ymhellach ar adrodd risgiau o fewn y system rheoli perfformiad a risg - Hyrwyddo a chynyddu'r nifer sy'n cyflawni'r modiwl hyfforddi e-ddysgu rheoli risg - Gweithredu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad - Adolygu arddull adroddiadau i aelodau - Gweithredu dull rhanbarthol i olrhain anghydfod/cyfraniadau cyllido heb eu talu trwy'r Grŵp Swyddog Cyllid Gogledd Cymru. - Mae'r Cyngor yn cyflawni adolygiad blynyddol o ffioedd a thaliadau ac mae adolygiad o'r dull a ddefnyddir ar gyfer ffioedd a thaliadau yn brosiect sydd ar y gweill ar gyfer y rhaglen

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2026/27	Camau Lliniaru
(F81) Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor.	drawsnewid strategol. Gall hyn arwain at adolygu neu ailadrodd Polisi Cynhyrchu Incwm y Cyngor.
(G83) Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu. (G84) Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall (G89) Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson a phrydlon a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill. (G90) Sicrhau fod argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir gan archwilydwr mewnol ac allanol yn cael eu cymryd	(G83, G84) Adolygu arddull adroddiadau i aelodau (G89) Mae Cyllid Corfforaethol yn archwilio sut y gellir gwella dangosyddion perfformiad, yn enwedig o ran meincnodi. (G90) - Caiff holl gamau gweithredu o archwiliadau allanol eu monitro drwy InPhase. Bydd monitro ychwanegol yn cael ei gyflwyno o'r camau gweithredu a godir o adolygiadau archwilio mewnol, gan gynnwys: - Olrhain camau gweithredu i'w cyflwyno i'r Tîm Prif Swyddogion bob chwarter - Adroddiadau coch i'w rhannu gyda'r aelod cabinet perthnasol - Diweddariad ar olrhain camau gweithredu i'w cyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol, gyda phroses uwchgyfeirio pellach ar gyfer unrhyw gamau sydd heb eu cyflawni. - Creu panel gweithredu i gefnogi swyddogion gydag adroddiadau coch gyda'r adnoddau / sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu'r camau.
Archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig / Coch - Cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a'i rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2026.
Archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig / Coch - Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2026.
Archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig / Coch - Ailgyrchu Gwastraff y Cartref a Thipio Anghyfreithlon	Mae Cynllun Gweithredu llawn yn cael ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Beth yw'r materion Strategol a nodwyd yn ystod 2025/26?

Wrth adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor daethpwyd o hyd i 13 mater strategol (Risgiau Corfforaethol) ar gyfer 2026/27. Mae manylion ynglŷn â sut eir i'r afael â'r materion wedi'i ddarparu isod:

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Sgôr cyfredol ²	Sgôr Darged
REY01 - Hyfywedd Ariannol Ysgolion Nid yw ysgolion yn ariannol hyfyw oherwydd cyllid sylfaenol annigonol	- Rheoli'r gostyngiad mewn diffyg cyllidebol ysgolion yn fwy effeithlon - Cyfarfodydd Grŵp Monitro Perfformiad Ariannol i adolygu perfformiad a chytuno ar gynllun gweithredu gyda champau gweithredu penodol a therfynau amser i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. - Mecanweithiau cymeradwyo'r awdurdod lleol ar gyfer recriwtio staff mewn ysgolion sydd â diffyg ariannol	25	15
RCF18 - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cynnydd yn y galw am wasanaeth, chwyddiant uchel a Setliadau Gostyngedig Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gallu effeithio ar sefydlogrwydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.	- Monitro'r effaith ariannol yn rheolaidd ar draws y sefydliad - Trefniadau cynllunio ariannol cadarn ac amserol dros y tymor canolig - Cyfraniad parhaus i'r drafodaeth genedlaethol ar fformiwla gyllid sy'n decach. - Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC a rhannu materion allweddol - Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor - Adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi - Y Rhaglen drawsnewid strategol i ddarparu gostyngiadau cost dros y tymor canolig	20	9
RGV01 - Colli TG / Seiberddiogelwch. Achos difrifol o golli data corfforaethol a systemau oherwydd digwyddiad diogelwch / amgylcheddol / technegol	- Adolygiad llawn o bolisiau diogelwch TG - Cynnal PSN dilys	20	20
RSS54 - Cynaliadwyedd Darpariaeth Gofal Digonolrwydd lleoliadau / sefydlogrwydd y farchnad yn arwain at ddarpariaeth gofal annigonol ac nad yw'n fforddiadwy	- Parhau i lobio Llywodraeth Cymru i wella setliad ariannol Sir y Fflint, i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad a digonolrwydd lleoliadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. - Mae'r Tîm Cefnogi Aml-asiantaeth yn gweithio gyda theuluoedd pobl ifanc ar ymyl gofal i atal chwalfa mewn lleoliad/ teuluoedd a lleihau'r angen am leoliadau brys heb eu cofrestru.	16	4

² Mae sgôr darged ar gyfer rhai risgiau strategol yn statws COG coch yn sgil natur y risg ei hun

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Sgôr cyfredol ²	Sgôr Darged
	- Dechrau gwaith gadael gofal drwy banel aml-asiantaeth. - Gwneud y gorau o'r opsiynau tai lleol. - Mynd i'r afael â cham-fanteisio drwy'r grŵp Strategaethol a Gweithredol MET (Ar Goll, Camfanteisio, Masnachu) - Datblygu polisiâu a dulliau i ddenu gofalmwyr maeth newydd ac ymestyn y math o leoliadau a gynigir. - Gweithio gyda darparwyr lleol i ail-lunio'r farchnad breswyl		
RST77 - Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Mae'r Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff yn berthnasol i holl wasanaethau'r Cyngor sy'n cynhyrchu, cludo, cadw, gwaredu, trin, mewnfario neu â rheolaeth o wastraff. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n ymdrin â gwastraff i'w gadw'n ddiogel, gan sicrhau yr ymdrinnir ag ef yn gyfrifol ac mai dim ond i fusnesau sydd wedi eu hawdurdodi i'w gymryd y caiff ei roi. Ar hyn o bryd, nid oes proses reoli ganolog er mwyn i'r Awdurdod wirio cydymffurfiaeth a sicrhau bod gan unrhyw ddeiliaid gwastraff dilynol yr awdurdodiad cywir i gymryd y gwastraff ac atal gwarediad neu driniaeth anawdurdodedig neu niweidiol o'r gwastraff	- Sicrhau bod templedi contract a chaffael yn cynnwys cyfrifoldebau Dyletswydd Gofal - Creu ac ychwanegu modiwl hyfforddi e-ddysgu Dyletswydd Gofal ar Learning@Wales - Darparu Strategaeth Gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff ar draws yr Awdurdod	12	5
RST78 - Cyflwr Rhwydwaith Priffyrdd Gall y diffyg buddsoddiad cynaliadwy yn y rhwydwaith priffyrdd waethgu dirywiad y rhwydwaith priffyrdd. Yr effaith yw ôl-groniad cynyddol o atgyweiriadau a all gynyddu'r risg i ddiogelwch y cyhoedd, dyled ariannol a gwytnwch asedau hirdymor. Bydd hefyd yn effeithio ar ein gallu i adeiladu gwytnwch y rhwydwaith priffyrdd yn erbyn pwysau chwyddiant a newid hinsawdd	Gwella'r broses o reoli hawliadau i amddiffyn yn erbyn hawliadau anghyfiawn a lleihau dyledion ariannol	12	4
RCF01 - Cronfeydd wrth gefn Bydd diffyg arian wrth gefn yn effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor	- Monitro ac adrodd ar sefyllfa ariannol y sefydliad yn rheolaidd - Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC a rhannu materion allweddol	9	4

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Sgôr cyfredol ²	Sgôr Darged
	- Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor - Adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi		
RPE11 - Fforddiadwyedd y Nod Carbon Sero Net Fforddiadwyedd cyflawni nod carbon sero net y Cyngor. Diffyg gallu i ymrwymo neu ddenu adnoddau digonol i gydlynw'r rhaglen a chyflawni prosiectau, gan arwain at gyfleoedd na wneir y mwyaf ohonynt, camau gweithredu heb eu cyflawni a buddion heb eu gwireddu.	- Ceisio canfod cyllid allanol gan ddefnyddio'r strategaeth newid hinsawdd a chynllun gweithredu fel naratif - Cyflwyno ceisiadau cyllid allanol cryf a chydlynol, gan gydweithio ar draws y rhanbarth a rhwng yr adrannau o fewn y Cyngor - Ceisio cyflwyno mewnbwn cynnar i'r Cyllidebau ar gyfer refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a chynnal deialog parhaus o ran cynlluniau ariannol tymor canolig i hirdymor i sicrhau ymrwymiad tuag at gyllido nodau carbon. - O ran penderfyniadau a blaenoriaethu ar draws y Cyngor, cyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i rai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar draws y Cyngor gan alluogi swyddogion i ystyried effeithiau carbon yn y camau cynnar wrth ddatblygu prosiectau er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth mewn cynigion cyllid mewnol ac allanol. - Bydd gweithredu costau cyfnod oes mewn achosion busnes yn nodi costau hirdymor a buddion y cynlluniau.	9	2
RPE46 - Effaith Newid Hinsawdd Diffyg gallu'r Cyngor i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith newid hinsawdd, gan achosi risg i wydnwch gwasanaethau'r Cyngor a'i gymunedau a'r gallu i addasu i newid hinsawdd	Bydd asesiad risg hinsawdd ac addasu a chynllun gweithredu'n cael eu cwblhau, gan gynnwys nifer o fudd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn wydn i'r newid.	9	3
RST07 - Cynnydd mewn Gwastraff Gweddilliol Diffyg gallu i gyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol	- Darparu cynllun addysg ac ymgysylltu ailgylchu - Gwella allfeydd ailgylchu gan gynnwys archwilio isadeiledd mewnol - Gweithredu menter atgyweirio ac aildefnyddio	6	2
RHC09 – Adnoddau i gwrdd â Rhwymedigaethau Digartrefedd Nid yw'r Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau digartrefedd statudol oherwydd prinder staff, pwysau cyllidebol a diffyg llety	- Adolygiad ariannol misol o'r cyllidebau er mwyn monitro gwariant presennol a rhagamcan o bwysau yn y flwyddyn ac yn y dyfodol - Monitro defnydd llety brys gyda'r bwriad o hysbysu'r gweithlu, gweithgareddau symud ymlaen a chynllunio llety pobl ddigartref yn fisol. - Partneriaethau â Darparwyr Tai: Archwilio partneriaethau strategol gyda darparwyr tai'r sector preifat i ehangu'r gofodau gwely sydd ar gael fel llety dros dro.	4	12

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Materion Strategol ar gyfer 2025/26	Camau Lliniaru	Sgôr cyfredol ²	Sgôr Darged
	- Adolygu ac addasu contractau: Trafod contractau llety sy'n fwy hyblyg gyda darparwyr gwasanaeth i reoli'r newid mewn galw, gan sicrhau y rheolir y costau - Monitro ac Adrodd Monitro'r sefyllfa llety a'r effaith ariannol yn rheolaidd er mwyn galluogi ymyraethau amserol os oes angen		
RHR30 - Costau'n ymwneud â Chyflogaeth Costau cynyddol yn gysylltiedig ag adnoddau dros dro / ychwanegol ar gyfer y gweithlu o ganlyniad i swyddi gwag, absenoldeb salwch ac ati (er enghraifft, goramser, oriau ychwanegol, costau asiantaeth)	- Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio. - Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth.	4	6
RHR29 - Recriwtio a Chadw Diffyg gallu i ddenu a chadw gweithwyr gwerthfawr	- Darparu templed cynllunio'r gweithlu i'w ddefnyddio ar draws y sefydliad - Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio. - Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth. - Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd	3	2

Ardystiad

Mae'r adolygiad yn rhoi sicrwydd cyffredinol dda bod trefniadau Cyngor Sir y Fflint yn parhau i fod yn addas i'r diben yn unol â gofynion fframwaith llywodraethu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae cyfleoedd i gynnal a datblygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi'u nodi drwy'r adolygiad hwn. Rydym yn addo y byddwn yn ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac yn monitro eu gweithrediad wrth gynnal ein hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir y Fflint

Neal Cockerton – Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Dave Hughes - Arweinydd y Cyngor